

Hyfforddwr cyfarwydd
I'R 1550/96.

NEFOEDD:

N E U

WAHADD DIFRIFOL

I Bechaduriaid droi at DDUW, er
JECHYDWRIETH.

Gan ddangos i'r Pechadur ystyriol, beth sydd
raid iddø ei wneuthur i fod yn gadwedig.

Gan JOSEPH ALLEINE,
Gweinidog yr Efengyl yn Taunton, yng Wlad yr Haf.

Oddi eithr geni dyn trachefn, ni daithon ete weled
teyrnas Dduw. Ioan, iii. 2.

M W Y T H I G:

Argraphwyd gan W. WILLIAMS, tros Ifan Elis,
M.DCC.LXVI.



At y DARLENYDD a fynnai fod yn
ddiogel a dedwydd.

PED fae ond possiblwyrdd yn unig y byddai
 i ti fyw yn ol hyn, a chael dy alw yn y
 byd arall, i roi cyfrif am y pethau a wnae
 yn hwn, byddai yn ddoethineb i ti gymeryd y
 ffordd ddiogelaf, ac na byddech mewn perigl
 gwastagol o’th lusgo gan farwolaeth i’r farn cyn
 dy fod yn barod i gyfarfod dy Ynad. Eithr y
 mae'r bywyd arall a'r farn i ddyfol, nid yn
 unig yn bossobl, ond yn brofadwy hefyd, âe y
 mae cymaint sicrwydd ac a all rhewm ei ddis-
 gwil, na ddiddymma marwolaeth monot, ac y
 y byddi fyw ar ol dychwelyd dy gorff i'r pridd
 ac y cei dŷ farnu i ddedwyddweh neu drueni
 llawer mwy nag a ddirnadaist erioed drwy olwg
 na theimlad, na chlyw, na dychmygiad. A'r
 gwir pwysfawr hwn a ddyscir, ac a gadarnheir
 mewn rhan gan oleuni nattar, ond yn eglurach
 ac yn siccrach gan ymadroeddion Duw, yn yr ys-
 grythyrau sanctaidd, y rhai a ddysgant yn egl-
 ur ac a haerant yn sicr ddarfod i Dduw osod
 diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd drwy y
 Cyfryngwr, Jesu Grist, ac y bydd i'r cyfryng-
 wr mawr hwn y sydd yn Dduw ac yn ddyn,
 ddesgin o'r nefoedd gyd a lliaws gogoneddus, a
 chyd-lefain gorfoeddns wrth ei orseddfaingc

freiniol ef: a thrwy floedd gref y rhoddir ddyfyn i holl breswylwyr y ddaiar i ddyfod ger bron; y rhai yn ebrwydd a u fuddhant, ac a safant o flaen y frawdle, a chwedi eu holi yn fanwl yng-hylch eu talentau, a'u gorchwyliaethau, a'u a'chlyfferau i dderbyn neu i wneuthur da, a'u meddyliau, a'u geiriau, a'u gweithredoedd dirgelaf, a gant eu rhyddhau neu eu condemnoi dros byth. Ac yna y caiff y rhai cymmeradwy etifeddu teyrnas nefol a ddarparwyd iddynt er seiliad y byd, a bod fel yr angelion, eu hyfryd gymdeithion hwy, a phrefwylio gyd a'u hachubwr cariadus, hawddgar, gan weled a bod yn gyfranogion o'i ogoniant ef; ie gweled Duw a'i fwynhau, a thebygu iddo mewn perffaith faneteiddrwydd a dedwyddwch tragwyddol: 'A'r rhai damnedig o'r tu arall a gauir allan o'r goleuni, a chyda'r cythreuliaid, yn niwl y tywyllwch, a ddioddefant gnofeydd y pryfed anfarwol, a phenydiau gofidys y tan anniffoddadwy.

Ynteu gan fod y pethau hyn yn anwrtheb, yr ydwyt ti yn anrhesymol, a gwaeth nac annifail-aid, ac erchill o'r creulon yn dy erbyn dy hun, oni thaer ddeusyfi fod yn un o'r rheini y dywed yr Arglwydd wrthynt, "deuwch chwi fendigedigion, &c." ac nid "ewch chwi rai melldigedig, &c." Ac oni arferi bob rhyw foddion perthynol i ochelgd y trueni tostaf, ac i gyrhaeddyd y dedwyddwch pennaf,

HOLIADAU BUDDIOL I GRISTION,

Ar ei ben ei hun beunydd.

PSALM, iv. 4.

Ymddinddenwch â'ch calonau ar eich gwelu.

G Bob nos cyn eich huno (neu ryw amser arall y weloch gymbwysaf i'r gwaith hwn) ymneilltuwch oddiwrth y byd, a chan osod eich calon ger bron Duw, gwnewch iddi ateb i'r gofynion hyn.

Ynghylch eich Dyledswyddau.

O NI chafodd Duw fi ar fy ngwely, y pryd y dysgwiliodd i mi fod ar fy ngliniau? Job, i. 5.
Psal. v. 3.

Gof. 2. Oni weddais i yn ofcr, gan adel i feddyliau crwydraidd rwystro fy nyledswyddau? Mat. xv. 8, 9.
Jer. xii. 2.

G. 3. Oni ddarllenaïs air Duw yn esceulus? Deut. xvii. 18. 19. Jos. i. 7, 8.

G. 4. A ddarfu i mi iawn ymborthi ar y bregeth a glywais i ddiweddaf, gan ei hailgofio a gweddio am nerth yw dilyn? Luc, ii. 19. 51 Psalm, i. 2. & xi.

G. 5. Onid wyf yn gwneuthur dyledswyddau teuluaid yn fwy o ran arfer nac o ran cydwybod? Psal, ci, 2. Jer. 30. xxi.

G. 6 A ddarfu i mi fy ngwadu fy hun et mwyn Duw heddyw mewn neb ryw beth? Luc 9: xxiii.

G. 7. A brynais i'r amser oddiwrth ymgylfeillach; ymddiddan, a meddyliau ofer, heb na chyscu nac ymdrafferthu a'r byd yn ormodol? Eph. 5. xvi. Col. iv. 5.

G. 8. A wneuthum i ddimm enwedigol er mwyn eglwys Dduw? 2. Cor. xi. 28. Efay lxii. 6.

G. 9. A ofelais i pa fath gyfeillach a ddilynais? Dihar. xiii. 20. Psal. cxix. 63.

G. 10. Oni thro seddais yn erbyn dyledswyddau fy mherthynas, megis gwr, neu wraig, meister, neu wenidog, tad neu blentyn? Eph. v. 22. hyd y vi. ben. a'r 10. adn. Col. iii. 18. hyd y iv. ben 2. adnod.

Ynghylch eich Pechodau.

YDYW pechod yn yscafn genifi? Psal. xxxviii. 4. Rhuf. vii. 24.

G. 2. Ydwyt' n galaru dros bechodau'r wlad? Ezec. ix. 4. Jer. ix. 1. 2. 3.

G. 3. A ydwyt' n byw mewn un ymarfer ar a wn i ei fod yn bechod, neu ar wyf yn ofni ei fod felly? Psal. cxix. ci. civ.

Ynghylch eich Calon.

YDwyfi'n fynuch yn anfon i fynu weddiau ergydiol sanctaidd, Neh. ii. 4. 5.

G. 4. Oni fum i heb edrych tua'r nef, na meddwl am Dduw? Psal. xvi. 8. Jer. xvi. 8. Jer. ii. 32. Col. iii. 1, 2.

G. 5. A edrychais i'n ddyfal at fy nghalon, gan ochelyd meddyliau ofer? Dih. iv. 23. Psal. cxix. cxiii.

G. 6. A adewais i falchder a gwyn weithio ynofi? 2 Cron. xxxiii. 25. Iago, iv. 5. 6. 7.

Ynghylch eich Tafod.

AAttaliais i fy nhafod Iago, i. 26. & iii. 2. 3: 4. Psal. xxxix. 1.

G. 7. A ddywedais i absen drwg am neb? Tit. ii. 3. Iago. iv. 11.

G. 3. A fu cyfraith Dduw yn fy ngeneu tra fum yn eistedd yn y ty yn cerdded y ffordd, yn gorwedd i lawr, ac yn codi synu? Deut. vi. 6. 7.

G. 4. A lefarais i beth am Dduw ymhob cymdeithas, ac a adewais i arogl dda yno? Col. iv. 6. Eph. iv. 29.

Ynghylch eich Llunieth.

A Fwytais i ac yfais i ogoniant Duw, ai yn unig i dorri fy newyn, heb amcanu dim ychwaneg nag anifail? i Cor. x. 31.

G. 2 A fwytais i yn anghymedrol? Jude xii: 2: Pet, i. 6:

G. 3: Oni chodais oddiwrth y bwrdd heb son am Dduw yno? Luc vii: 36. & 14. i Joan vi: 1.

G. 4, Oni siomas i Dduw wrth gymeryd arnaf alw am tendith a rhoddi diolch? Act xxvi. 35. 36. Math xv: 36: Col iii: 17. 23:

Ynghylch eich Galwedigaeth.

A Fym i ddiwyd yn nyledswddau fy ngalwedigaeth Preg. ix, 1, i Cor, vii. 17, 20 24.


G. 2. A dwyllais i neb? i Thef. iv 6. i Cor. 6. 8.

G. 3, A ddywedais i anwir yn fy machnad-dy a'ng helfyddyd? Dihar, xxviii, 6, Eph, iv, 25,

G. 4, A fum i ehud yn Addaw, ac anffyddlawn yn torri fy addewedion? Psal, cvi, 33, Jof, ix 14; Psal, xv, 4,

Cyfarwyddydd y Boreu.


O So herwydd trfferth neu esceulusdra y gadawsoch yr holiadau hyn heb eu synniaw dros nos, gwneuch hynny'r boreu, gan adnewyddu eich edifeirwch, a gosod gwiliadwriaeth fwy, ymholwch oedd eich meddylliau diweddaf am Dduw o flaen eich cyscu, a'ch rhai cyntaf ar ol eich deffro, a pha un a wna eich gof a'm eich calon a'ch buchedd, ai chwanegu ai lleihau, rhoddwch eich bryd ar uniondeb y dydd hwnw a'ch holl amser.



CYNHWYSIAD.

- I. **B**ETH nid yw Dychweliad rasol, rhag bod camgymeriad.
- II. Beth ydyw dychweliad gywyr.
- III. Danghosir mor angenrheidiol yw.
- IV. Nodau yr annychweledig.
- V. Trueni yr annychweledig.
- VI. Cyfarwyddyd tuag at ddychweliad.
- VII. Anuogaeth iddi.
- VIII. Cload.
- IX. Cyngor i dduwioldeb personol a theuluaid;
- X. Rhagoriaeth y gwir Gristion,
- XI. Y modd y cais gwir Gristion fodloni Duw.
- XII. Ychwaneg o gonghorion i Gristnogion.

GWAHODDIAD



GWAHODDIAD taer i Bechaduriaid droi at

D D U W.

Ac i dderbyn

Jechydwrriaeth Dragwyddol.

FY ngharedigion, am y rhai yr wyf yn hiraethus, yr wyf yn fy nghydnabod fy hun yn ddyledwr i chwi oll, i reddi i bob un o honoch ei gyfran fel y mynwn fy nghael yn oruchwiliwr ffyddlon i deulu Duw, ond y mae'r pysigwr a'r gofal mwyaf ynghylch y cyfryw gleision ac sydd yn y perigl mwyaf, ac ymyscaroedd y tad a dosturia fwyaf wrth y plentyn a fo ar drangcedigaeth. Lliaws y rhai diadgenedledig yn eich plith, sy'n galw am fy nosturi tyneraf, a'm diwydrwydd cyflymmaf iw cipio allan o'r tan. Jude 23. O herwydd hynny attynt hwy yr wyf yn gesod y lliniau hyn yn y fan gyntaf.

Ond o ble y cyrchaf fy rhegwmau, a phafodd y dewisaf fy ngeiriau? Arglwydd pa fodd y denaf hwynt, a phaf beth yr ennillaf hwynt? O nas gwyddwn i! Yscrifennwn attynt am dagrau ac a'm gwaed, ymbiliwn a hwynt ar fy ngliniau, a byddwn dra diolchgar iddynt os cymmerent eu perswadio i edifarhau ac i droi.

Ond

O'gyhyd y bym i mewn gwewyr escor o'ch herwydd chwi ! O fynyched y ceisiais eich cascluchwi ! O daered a fum i wrthych chwi ! Mi weddias ac a studiais ers llawer o flynyddoedd er mwyn eich dwyn chwi at Dduw. O na thyccie'r peth ! ai gwiw etto ddymuno arnoch ? O ddedwydded y gallech fy ngwneuthur wrth wrando arnaf, a gadel i mi eich dwyn at Jesu Grist !

Ond Arglwydd mor annigonol wyfi ir gorchwyl hwn pa ryw dasc a osodait i arnafi ? Och a pha beth y trywanaf y Lefiathan, ac y gwnaf'r galon gareg deimlo, a hi fel maen melin ! A ddywedafi wrth y beddau am i'r meirw ddyfod allan ? A areithiafi wrth y creigiau i'w perswadio a rhesymmau ? A allafi berid i'r dall weled ? Ni chlybuwyd er dechreuaed y byd i neb agoryd llygaid y dall : Ond tydi Arglwydd elli drywanu'r croendew, dwysbigo calon y pechadur . Nid allafi ond tynnu'n bwa ac ergudio ar antur, par di ir saeth gyfeirio, a descyn rhwng cyffylltiadau'r llurig, a lladd y pechod, ond achub enaid y pechadur a ddarllenno hyn o waith. Oh nas gwyddwn pa fodd i weithio arnoch chwi, y rhai i'm hanfonwyd attoch ! Ni wrthodwn boen yn y byd. Chwi a wyddoch fel yr ymbiliais a chwi yn y dirgel gyftal ac ar gyhoedd, gan ddwyn yr Efengyl i'ch dryffau a thystiolaethu i chwi reited ydyw'r ailanedigaeth : Ni cheisiais na'm budd fy hun ; chwi a glywsoch yr un gwirioneddau yn gyhoeddus, ac yn y dirgel, nas gall neb fyned i mewn i deyrnas nef onid drwy ffordd gyfyng yr ailanedigaeth, *Nagweled Duw heb sancteidd-rwydd.* Heb. xii. 14. Oh fy ngharedigon, *llonnwch fy ymyscaroedd yn yr Arglwydd, od oes dim diddanwch yn Ghrifft, od oes dim ciffur cariad, od oes dim cymdeithias yr yspryd, od os dim ymysgaroedd a thosturiaetbau, cyflawnwch fy llawenydd, yn awr rhoddwch eich bunain ir Arglwydd,* ii. Cor. viii. 5. Yr awr hon ymroddwch yw geisio ef, gosodwch yr Arglwydd Jesu yn eich calonnau a'ch teuluoedd : Yr awrhon deuwch, a chofleidwch gynygion trugaredd, a chussenwch y Mab, Psal. ii. 2.

Cyffyrddwch a'i deyrnwialen ef, a byw fyddwch, pa
 ham y byddwch feirw? Nid wyf mor daer er fy mwyn
 fy hun yn unig, ond er eich gwneuthur yn ddedwydd,
 dymma'r faeler yr wyf yn rhedeg am dani, a'r nod yr
 iwyf yn saethu atto. Gwir ewyllys fy nghalon, a'm gwe-
 ddi ar Dduw drosoch, fydd i chwi fod yn gadwedig.
 Jesu Rhuf. x. 1.

Lucurgus enwog wedi gwneuthur cyfreithiau da yw
 pobl, a ddywedodd iddynt ei fod yn myned oddi cartref,
 ac a gafodd ganddynt ymrwymo drwy lw, ar gadw y
 cyfreithie hynny nes ei ddychwelyd; a chwedi hynny
 aeth o'r wlad, o'i wirfodd, ac ni ddychwelodd mwy-
 ach; fel y cadwent ei gyfreithiau byth. Byddwn innau
 fodlon i'r fath ammod caled, er fy mod yn eich hoffi,
 a os gallwn felly roddi cwbl rwymedigaeth arnoch chwi,
 fod yn eiddo Jesu Crist.

Fy ngharedigion, os mynnech lonni calon eich gwi-
 chod, derbynwch gynghorion yr Arglwydd drwyddo
 si, ymwrthodwch a'ch pechodau, gweddiwch, ac addo-
 lwch Dduw yn eich teuluoedd, ymgedwch oddi wrth
 bechodau'r amserodd: Pa lawenydd mwy allfodi wein-
 dog, na chlywed ynnill eneidiau at Crist drwyddo ef,
 a bod ei blant yn rhodio yn y gwirionedd. 2 Ioan 4.

Fy mrodur goddefwch fy mhlaender cariadus yn eich
 achosion pwysfawr. Nid wyf yn gwneuthur araith ddyf-
 gedig i chwi, nac yn trwissio safig a chymmendod i ry-
 gu eich bodd: Mae'r liniau hyn yn dyfod ar neges difrif-
 ol; sef i'ch argyhoeddi, a'ch troi, a'ch achyb chwi.
 Nid wyf yn abwydo fy enwair a phraethineb, nac yn
 pycotta am ganmoliaeth, ond am eich eneidiau chwi.
 Fy ngwaith yw ceisio eich safio, ac nid eich hudo, ach
 pigo nid eich gogleisio, nid cofi eich clustiau, ond ar-
 cholli eich calonnau, ac onide canwn don arall, a dy-
 wedwn chwedl esmwythach, a gwniwn clustogau dan
 eich penliniau, a llesfarwn dangnheddyf i chwi, canys
 nid all un Ahab hoffi'r Micaiah a brophwydo ddrwg oll
 iddo yn oestadol, Bren. xxii. 8. Ond gwellyw archoll-
 ion cyfaill ffyddlon, na geiriau teg gan butain, yr hon

a wenheithia a'i gwefusau, nes i saeth ddryllio'r afu, a hela'r enaid gwerthfawr. Dih. vi. 26. ac vii. 21, 22, 23: Pan rodder plentyn i gyfgu suir iddo, ond pan gippir ef o'r tan, nid oes neges roddi iddo degan. *Mi* wn oni chodwch a dyfod ymmaith, ddarfod fyf am danoch chwi, heb droiadigaeth, heb iechydwrriaeth.

Ymma y mae anhawsdra, fy ngwaith yn dyfod i'm herblyn etto. Arglwydd dewis i mi gerrig o'r graig, yr wyf yn dyfod yn enw Arglwydd y lluoedd, Duw byddinoedd Israel, yr wyf yn dyfod fel llangc disum yn erbyn Goliah; i *Ymdrech nidyn erbyn gwaed a chnawd yn unic, ond yn erbyn tywyfogaethau, a llywiawdwyr tywyll-wch y byd hwn.* 1. Sam. xvii. 40. 45. 49. Ephes. vi. 12. Bydded i'r Arglwydd heddywdaro'r Philistiad, ac yspeilio'r gwr cryf o'i arfau, a gwaredu'r caethion allan o'i law ef. Arglwydd dewis di fy ngeiriau am harfau i mi, a phan roddwyf fy llaw yn y god, a chymeryd carreg o honi, a'i hergydio, bydded iti ei dwyn at y nod, a pheri iddi foddi, nid yn unic i dalcen ond i galon y pechadur dienwaededig, yw daflu i lawr, ie cafed fel Saul gwymperai gwneilo'n ddedwydd, A&t. ix. 4. Ti am anfonaiſt i fel yr anfonodd Abraham, Eliezer i gyrchu gwraig i'm Meister dy Fab; ac yr wyf yn ofni na bydd y wraig fodlon i'm dilyn i: O Arglwydd Dduw, attolwg par i mi lwyddiant heddyw, a gwna garedigrwydd a'm Meister, anfon dy Angel o'm blaen a llwydda fy ffordd fel y cymerwyf wraig i'th Fab, Gen. xxiv, 4. 12. Ac megis y dug y gwas hwnnw Isaac a Rebecah ynghyd, bydded i mineu ddwyn enediau fy mhobl a Christ ynghyd cyn ymadel.

Ond yr wyf yn dychwelyd attoch chwi eilwaith, gan fod bagad o honoch heb wybod beth i ddeall wrth ddychweliad; dangosafi chwi beth yw. A chan fod eraill yn rhyfygu am drugaredd hebddi, dangosaf mor rheidiol yw. Y mae eraill yn ymgadarnhau mewn gau-dybo'u bod wedi eu dychwelyd yn barod, iddynt hwy y dangosaf arwyddion orai annychweledig. Eraill wrth eu bod heb deimlo

deimlo niwed, ydynt heb ei ofni hefyd, ac felly yn cyscu ar ben yr hwylbren, i'r rheini yr amlygaf drueni'r annychweledig. Y mae Erailllyn aros yn eu drwg cyflwr heb weled y ffordd i ddyfyd allan o hono; caiff y rheini weled moddion dychweliad. Ac yn ddiweddaf er mwyn cynhyrfu pawb o honynt, dibenaf drwy roddi annogae-thau i ddychwelyd.

P E N N O D. I.

Yn dangos beth nid yw dychweliad, ac yn diwygio camgymeriadau yn ei gylch.

R ir Samariaid deillion addoli'r peth ni wyddent; Joan iv. 22. ac ir Athenaid digred drwy ysgrifen anrheguedu hallor i'r Duw nid adwaenir, Act. xvii, 23. ac ir Papistiaid twyllodrus alw anwybodaeth yn fam duwioldeb a hi yn fam dinystr, Hosh. iv 6. *Etto pawb a'r a ddeallant natur ddynol, a gweithrediadau'r enaid rhesymnol, yr hwn y mae'r meddwl yw reoli, ddirnad-dant reitiad iw gollwn goleuni yw fewn os mynnir ei ber-fwadio.* *Ignorantis non est consensus.* Sal yw cyttudeb yr anwybodus. Am hynny fel na chamgymeroch, dangosaf i chwi beth yw'r dychweliad a fynwn i chwi ymeginio am dani.

Dywed ystori genhedlig i Jau ollwn coronau aur o'r nef i lawr, a'u dwyn hwy i gyd ond un, gan ladron: ar hynny rhag colli hwnnw hefyd ydoedd beth mor werthfawr gwnaethpwyd rhai eraill cyn debyccediddo, fel os caisie neb ei ddwyn, na allei wybod rhagor rhyngho a'r lleill ac yn ddinam fy ngaredigion y mae'r Cythael yn gwneuthur lluniau dychweliad; ac yn twyllo'r naill a hwn, ac arall a'r llall, ac y mae ei gelfyddud ef mor gywrain yn y dirgelwch yma, ac y bydde iddo pedfei bosible dwyllo'r Etholedigion. Am hynny er mwyn didwyllo y rhain dybiant eu bod wedi eu dychwelyd, er na bont felly, ac er

er diddanu'r Sawl a ofnant nad ydynt wedi dychwdlyd er eu bod felly, dangosaf i chwi natur dychweliad, beth nid yw, a pheth ydyw.

i. Nid proffes diffrywyd o Cristnogaeth yw. Diammeu fod gwir Cristnogaeth yn beth mwy nag enw. Dywed Paul nad mewn ymadrodd y mae ond mewn gallu, i. Cor. iv. 20. Nid oedd Eglwysydd Sardis a Laodicea nac Juddewon na phaganiaid eithr Cristnogion wrth broffes. a chanddynt Enw o fod yn fyw; ac o herwydd nad oedd ganddynt ond yr enw, mae Cristyn yn bwgwth eu chwydy hwy allan, Datc iii, 1. 16. Y mae llawer yn *Enwi'r Arglwydd Jesu*, ac heb ymadel ag anwiredd. ii Tim. 2. 19. Ac yn *professu yr adwaenant Dduw*, ac ar *weithredoedd yn ei wadu*, Tit. i. 16. Nid all y rhain fod wedi eu troi oddiwrth bechod, a nhw yn byw ynddo. Petta'i lamp proffes yn ddigonol, ni chauasid allan mor *Morwynion angall*, Math. xxv 2. 12. Troir heibio yn nydd y farn lawer o'r rhai a broffessant Crist, ac o'r rhai ai pregethant ef hefyd, er darfod iddynt wneuthur gwrthiau yn ei enw ef; damnir hwy am eu bod yn *weithredwyr anwreddau*, Math. vii. 22. 23.

2. Nid y Bedydd gweledig mono, Mae llawer yn gwisco lifreu Crist, heb wneuthur gwasanaeth iddo, ac yn derbyn peth cyflog ganddo, ac yn ymhonni o'u bod dan ei faner ef etto heb fod yn ffyddlon iddo ef ac heb wrthwynebu ei Elynion ef. Bedyddiwyd Ananias a Saphira a Magus. O faint fel hyn *sydd yn twyllo ac yn cael eu twyllo*, gan dybied fod graseffeithiawl yn gyffylltedig bob amser wrth y bedydd a dwfr. Fel y taera'r Papistiaid fod y Sacramentau yn gweithio gras *ex opera operato*, o ran y gorchwyl Sacramentawl: Cam hyder ar eu bedydd a wna lawer yn ddiofal am eu cyflwr. Ped ailgenid y plant i gyd wrth eu bedyddio, bedent cadwdigol oll, canys y mae addewid o jechydwriaeth ir adgenedledig, Act. iii. 19. 1, 3. 4. Math. 28. Pet. 1. xix. Ein galwad, ein troad, a'n sancteiddiad (y rhai ydynt

yn un peth dan amryw enwau yw canol y gadwyn aur, pen cyntaf yr hon a gysylltir wrth ein Etholedigaeth, ar olaf wrth ein gogoneddiad, Rhuf. viii. 30. 2. Thes. ii 15. 1 Pet. i. 2. Ni wasnaetha torri'r llinyn arian sef y cyffylltiad rhwng gras a gogonniant, Math. v. 8 Os ydym mewn gwirionedd wedi ein hadgenhedlu y mae i ni ditl i etifeddiaeth anlygredig, ac ynghadw yn y nefoedd ini, agallu Duw a addawodd ein cadw ninnau iddi hitheu, 1. Pet. i. 3. 4. 5. Ped fai'r adgenedle-dig i w colli yn eu pechodau ar y diwedd, ni ddywedasai'r Apostol nad yw'r hwn a aned o Dduw yn gwneuthur pechod sef i farwolaeth, am fodei had ef yn aros ynddo ef 1. Joan. iii. 9. Ni ddywedasai'r Efengyl chwaith fod yn ammbossibl dwyllo'r Etholedigion.

Yn ddiau pettai pob un a fedyddiwyd yn gadwedig, ni byddai raid ini ond chwilio coflyfr y Plwyf i wybod a yw'n henwau ni yn yscrifennedig ya y nefoedd. Pettai tyftiolaeth o'n bedyddio yn rhoi sicrwydd o'r nef, byddei esmwyth yr helynt; yna ni byddei raid wrth fawr ond dangos honno, fel y ceid porth gogoniant yn agored: fel y mynnodd Philosophydei gladdu a'r fond yn ei law yr hon a feliasiei athro iddo, y telid ei elusenau iddo ef yn y byd arall. Hefyd pettai pob proffesi o'r Grefydd Cristianogol yn gwafanaethu am adgenhedliad, ni ddy-wedai yr yscrythur mai cyfyng yw'r porth, a chul yw'r ffordd, Math. xii. 14. Canys os yw pawb a fedyddir ac a broffessant y wir Grefydd yn gadwedig, gallwn ddyweddyd mai ehang yw'r porth, a llydan yw'r ffordd sydd yn arwain i fywyd; yna gallu teyrnafoedd cyfain fyned ynghyd iddi; ac nis gellid ddyweddyd mai braidd yr achubir y cyfaavn, ac mai rhaid cymeryd teyrnas ne-foedd drwy drais, ac ymdrechu i fyned iddi. Pettai ddigon ini gael ein bedyddio, a dyweddyd Arglwydd trugarha, a derbyn gollyngdod gan weinidog yn ein diwedd, ni byddai raid mor rhedeg, a'r ceisio, a'r curo a'r ymladd ag ofyn y gair, gan y rhai r fynnant iechydwríaeth: ie nid ellid dywedud am fywyd tragicwyddol mai ychydig sydd

fydd yn ei chael ; ond yn hytrach ychydig fydd yn ei hwn
 chollina dywedyd llawer a elwir ac ychydig a dde.
 wifir, Math, xxii. 14. Ac mai gweddill a achubir
 o Israel, Rhuf. xi, 5. Na dywedyd gyd a'r dyscyblion,
 pwy a all fod yn gadwedig ? Marc x, 26, Ond pwy
 nis gall fod yn gadwedig ? Yna os bydd un a elwir yn
 frawd (sef yn Gristion) ac a fedyddier. er iddo fod yn
 odinebwr, yn difenwr, yn gyhydd, yn feddw, caiff etife-
 ddu teyrnas Dduw, yn erbyn geirie'r Apostol, i, Cor.
 v. 11. ac 6. 8. 10. Os dywed Arminiaid fod y cyfryw
 Gristnogion yn syrthio oddiwrth y gras a dderbyniasant
 yn en bedydd, a bod yn rheidiol eu hailgeni drachefn.
 Yr wyf yn atteb, 1. Fod Cyffylltiad siccer rhwng yr ailane-
 digaeth ac jechydwriaeth ; 2. Fel nad yw dyn yn cael
 ei genhedlu ond un waith ir bywyd naturiol, felly nid
 yw yn cael ei adgenhedlu ond unwaith i'r bywyd ysprydol
 3. Mae'n eglur, beth bynnag a dderbynio rhai yn y be-
 dydd, os y nhw wedi hynny a dronti fod yn annuwiol
 mae rhaid eu hailgeni, ac onide y caeir hwynt allan o
 deyrnas Dduw.

Ynteu garedigion na thwyller monoch, *ni watworir Duw*. Gal, vi, 7. Er i chwi dderbyn cred a bedydd,
 os bydd ach allan a malaifus, a chybyddus, heb weddio
 Duw. heb ddilyn Sancteiddrwydd nis gallwch fod yn
 gadwedig oddieithr eich adnewyddu drwy edfeirwch,
 Job xv. 14. Dihar xiii. 20. Heb 12 14. Math. 16. 24.

Rhaid imi yma ystyried un gwrthddadl ; sef bod y
 Sacramentau yn effeithiawl i bawb ni rwydro eu gweith-
 rediad, yr hyn ni wna plant bychain.

Atteb. Ped ordeiniasid y bedydd i adgenhedlu ni
 buasei wedi ei attal i blant y ffyddoniaid yn unic, canys
 y mae cyfraith Dduw, a chariad yn gofyn genym gynnig
 moddion troedigaeth i bawb, fel y caffon achlysur : Ac
 felly bydde dda ini gipio plant Turciaid, a Phaganiaid
 yw bedyddio, beth bynnag a wneid gwedi hynny. trwy
 na thrinid hwynt fely gwnaeth rhai gwaedlyd a Phrote-
 staniaid ydoedd dan eu dwylo hwynt, sef eu tyngu
 hwynt i ddyfod ir offeren, ac wedi hynny lladdasant

el hwynt gan ddywedyd y caent farw tra faent mewn
 dde meddwl da, le ordeiniwyd y bedydd yn hytrach i gad-
 ubir arnhau'r ail anedigaeth nag yw gweithredu; Am
 ion, hynny yr Edifeiriol a'r credadwy a'i derbynieu, Act.
 pwy viii. 37. Act. ii. 38. ac x, 47. Marc xvi. 16. a di-
 r yn refwm yw tybied ordeinio bedydd i wneuthur y peth
 l yn oedd wedi ei wneuthur eisioes. Y rhai mewn oed a
 tife droe'n griftnogion ac a gyffeslent eu ffydd a fedydd-
 Cor. id, ac ni fedyddid eu plant hwy ond ar eu hol hwynt,
 fryw ac yn eu hawl hwynt, nid oeddent yn cael bedydd cyn
 fant iddynt ymroddi i fod yn ddiscyblion, Math. xxviii. 19.
 Hefyd wrth fod y bedydd yn un fel y cyfamod graf-
 ol, nid all siccrhau'r trugareddau grafol i neb ond ar
 yr ammodau sydd wedi eu mynegi yn yr Efengyl, sef
 ffydd ac edifeirwch, heb y rhai ni chaiff pobl oedran-
 us faddeuant, Act. iii, 10. ac xvi, 31. Nid oes un
 fel yn cadarnháu dim mwy nag y fo gynwysledig yn yr
 yscrifien wrth yr hon y cyfylltir hi.

3. Nid Cyfiawnder Moesol mono; can's oni bydd
 yn gyfiawnder heliathach na'r eiddo 'r scrifennyddion
 a'r phariseaid ni ddichonein dwyn ni i deyrnas nefoedd,
 Math. v. 20, Yr oedd Paul cyn troi'n Gristion yn
 ol y cyfiawnder hwnnw yn ddiarg oedd, Phil. iii. 6.
 Ni ddywedei neb wrtho du dy lygad. Dywedi'r
 Pharisead, nad oedd draws, nac angyfawn. na godin-
 ebwr, Luc xviii. 11, Rhaid bod genit fwy na hyn,
 ac onide er itti dy gyfiawnhau dy hun, DUW a'th gon-
 demnia di. Nid yw uniondeb moesol beth yw organu;
 etto gochela roi goglud arno; mae duwioldeb yn ei
 gynwys ynddo megis ac y mae gras yn cynwys rheiswm
 ynddi,

4. Nid yw yn unig gydffurfiaid oddiallan i reolau
 duwioldeb; ysoweth y mae'n rhyamlwg fod gan bobl
 ffurf duwioldeb heb y grym: 2 Tim. iii. 5. Gall rhai
 weddio'n hir, Math. xxiii. 14. Ac ymprydio'n fynych
 Luc, xviii. 12. A gwrando'n hyfryd. Marc. vi. 20,
 A bod yn draulgar ar wafanaeth DUW, Esau. i. 11.
 Ac etto'n ddieithraid i'r ail anedigaeth. Rhaid bod

ganddynt ychwaneg yw ddywedyd drostynt eu hunain
na'i bod yn cadw'r Eglwys, ac yn rhoi elusen
ac yn darllen gweddi, i'w profi eu hnnain yn wir dd
chweledig. Gall rhagrithiwr wneuthur pob gwasan
æth oddi allan, gan rannu ei dda i'r tylodion, a
oddef erlid. 1 Cor. xiii. 3.

5. Nid attaliad llygredigaeth mono. Gall dugiad
fynu, ofn cyfreuthiau dynol, a thrymder cystudia
gadw llygredigaeth i mewn; fel y digwyddodd i Jeh
ash, yr hwn a hyfforddodd wasanaeth DUW tra fu
ewythr Jehoiada yn fyw, gan ofalu am adgyweir
ty DDUW z Bren xii, 2. 7. Ond dugiad da i fyn
a barodd iddo hynny, tra yr oedd efe dan olygiad
chyngor Jehoiadau; ac wedi marw ei Athro daionu
trodd at eulyn-addoliaeth, ac amlygodd nad oedd e
o'r blaen ond megis blaidd wedi ei rwymo.

6. Nid yw hi oleuad, ac argyhoeddiad meddwl
unig, na diwigiad hannerog o feiau, gall gwrthgi
iwr fod wedi ei oleuo, Heb. vi. 4. A Felix grynu da
argyhoeddiad. Act. xxiv. 25. A Herod wneuthu
llawer o bethau. Marc. vi. 20. Dychrynu pechon
drwy argyhoeddiad sydd lai nai groeshoelio drwy ra
Y rhai a gythryblwyd yn eu cydwybodau am bechon
a dybiant eu cyflyrau'n dda; Ond bu pigiad a gwy
cydwybod yn Cain, nes iddo drwy adeiladu a thrin
byd adel ymmaith ymwrando a hi, Gen. iv, 13, 1.
Eraill wedi troi ymmaith oddiwrth gyfeillach ddrwg
a sobri peth, a dybiant hynny yn droedigaeth safadwy
gan angofo fod llawer yn ceiho myned i mewn i dey
nas nef, Luc. xiii. 24. Ac heb fod bell oddiwrth
Marc. xii, 34, Ac agos yn Gristnogion, Act. xxvi.
Ac etto yn dyfod yn fyrr: Tra fo cydwybod yn dal
ffangell uwch eu pennau, bagad a wrandawant
gair, a ddarllenant, a weddiant, ac a ymattaliant oddi
wrth rai pechonau; Ond gynted ac y cysco'r llew hw
tronnt yn ddi ofn at y drwg eilwaith fel Ci at ei Chw
fa: Tra'r ydoedd llaw DUW ar yr Juddewon byde
ent grefyddol, Psal. Ixxviii. 34. 35, Ond cyn gynted

munai rae'r cyfudd heibio anghofient DUW, ac amlygent
 clusen ad oedd eu defosiwn ond cysymmeth, Adn xxxvi. 37.
 r ddy Gelli fwrw rhyw bechod na byddo'n dy gymmed a thi
 wasan diangc rhag halogedigaeth y byd, ac etto heb newid
 , a datur mochyn, 2. Pet, ii, 20. 22. Gellir taflu plwm
 giad oddedig i fewn mold i fod ar ystum anifail; a'i doddi
 addiai ilwaith ai dywallt i fewn mold arall i fod ar ystum dyn,
 Jeh ac etto heb fod ond plwm er hynny, Ac felly dichon
 a fu pechadur gael ei newid o afradlondeb i sobrwydd,
 weir anwybodaeth i ddealltwriaeth, o ymarwediad an-
 i fyn uwiol i ffurf grefyddol; a bod heb wir ras er hynny.

Defnydd. Gwrandewch ynteu o bechadariaid, a
 leuwch, gwrandewch fel y byddo byw eich Enaid,
 Efa. Iv. 3. Pam y twyllwch chwi eich hunain, ac
 r adeiledwch eich gobaith ar y tywod? Gwn mai
 gwaith blin a gaiff yr hwn a geisio ddadwreiddio eich
 gobaith, gorchwyl gwrth'nebus yw i chwi, ac anifir
 minneu. Yr wyf yn myned yn ei gylch ar fath fedd-
 lfyd a meddig, a fyddo i dorri ymmaith aelod pwdr
 diwrth gorff ei gyfaill anwyl, yr hyn a wna a chal-
 pecho'n dosturiol, ai law yn crynu; Ond ystyriwch frodor
 yw rai tynny i lawr yr wyf yr adeiliad frau rhag iddi sylrh
 bechodi arnoch, a cheisio codi un arall deg, gadarn yn eu
 a gwylle, a barhao byth. *Gobaith y drygionus a gyfrgollir,*
 Dihar, xi. 7, Ac onid gwell iti bechadur adel i'r gair
 3, 1 y argyhoeddi di yr awr hon mewn pryd, a gadel
 ddrws ymmaith dy obaith twyllodrus, na bod i farwolaeth yn
 sadwy hy hwyr dy geryddu, a sylrhio i usfern yn ddiarwy-
 i dey iwrth god. Mi fyddwn fugail anffyddlon oni ddangoswn i
 xxvi. 2 hwi eich aimryfusedd, os ydych yn adeiladu eich go-
 baith ar y fath sylfeini ac a ragfynegwyd, gadewch eich
 ydwybodau lefaru; beth sydd gennych i ddywedyd
 irofsoch eich hunain? Ai eich bod chwi yn gwisco lif-
 eu Crist, a'i enw ef arnoch, a'ch bod o'r Eglwys
 weledig, ac yn hyddysc ar brifannau crefydd? A'i
 Chweich bod yn weddol ac yn gwneuthur dyledswyddau
 i bydrefyddol, a'ch bod yn gywir rhewn achosion, ac weith
 iau yn gythryblus o herwydd eich pechodau? Tyf-
 iol

iolaethaf i chwi na bydd yr Escusodion hyn gymerad-wy ger bron brawdle DUW ; er bod y pethau hyn yn dda yn eu rhyw, etto nid 'dynt ddigon tuag at jech-ydwriaeth, ac ni phrofant eich bod yn ddychweledig at DDUW, Oh edrychwch attoch eich hunain! ymos-odwch i weddio, i ddarllen, ac i'ch chwilio eich hunain, ac na orphwysfwch nes i DDUW wneuthur ei gyflawn waith ynoch.

Ac od yw y rhain heb gywyr ddychweliad beth a ddywedaf wrth y pechadur halogedig amlwg? Fe all ei nad edrych ef, ac na wrendi ef ar hyn o draethad ; Ond os bydd i'r cyfryw ei ddarllen, na'i wrando, gwybydded yn enw'r Arglwydd a'i gwnaeth. ei fod ef ymmhell oddiwrth deyrnas DDUW, Os yw'r rhai moefol heb eu troi, ple'r ymddengys y meddwl a'r glwth? Os caeir allan rai a ymgymdeithiafo a morwynion doeth *cyfeillion i ynfydion a ddifethir*, Dihar. xiii. 20, Os gall rhai fod yn gyflawn ger bron dynion, gan drin eu achosion yn oneft, ac etto heb fod wedi eu cyflawnhau gan DDUW, beth a ddaw o honoti sydd ath gydwybod yn tistiolaethu iti dy fod ti yn dwyllodrus yn dy ffyrdd, ac yn elwa drwy dafod celwyddog? Os yw y rhai oleuwyd ac a gyflawnant fagad o ddyledswyddau sanctaidd, ac 'ynt yn gorlwyso arnynt y tu ymma i wir ras, yn dyfod yn fyrr o iechydwrniaeth, beth a ddaw o'r teuluoedd di-weddi-ynt yn byw megis heb DDUW yn y byd, ac nid yw DUW yn eu holl feddyliau, y rhai o herwydd eu hapwybodaeth ni fedrant, neu o ran esceulusdra ni synnant weddio DUW. O edifarhewch a dychwelwch, torrwch ymmaith eich pechodau drwy gyflawnnder, ewch at Grist am faddeuant, a gras i'ch adnewyddu, ymroddwch iddo ef i roddio mewn sancteiddrwydd, ac onide ni chewch weled DUW. Oh na chymerech ry-buddion DUW, yn ei enw ef yr wyfi unwaith etto yn eich cynghori, *dychwelwch wrth fy ngerydd*, Dih i. 23. *Ymadewch a'r rhai ffol a hyddwch fyw*, Dihar. ix 6, *Byddwch sobr a chyflawn, a duwiol*, Tit, ii. 12. *Glan-herwch*

herwch eich dwylo chwi bechaduriaid, a phurwch eich cal-
onau chwi a'r meddwl dauddyblyg, Jag. iv, 8. Peid-
iwch gwneuthur drwg, dysgwch wneuthur daioni, Esa.
i. 16, 17. Ac onide meirwa fyddwch, Ezec, xxxiii. 11.

P E N N O D II.

Yn dangos beth yw Dychweliad.

I wafnaetha i mi eich gadal a'ch llygaid we-
hanner egor, fel yr hwn a *welais ddynion*
megis preniau yn *rhodio*, Marc viii. 24.
Y mae'r gair yn fuddiol i athrawiaethu,
megis ac i geryddu, 2. Tim. iii, 16. Am hynny gan
imi eich hwyllo chwi heibio i gymaint o greig-
iau amryfusedd peryglus, chwenychwn o'r diwedd
eich dwyn chwi i fewn i'r porthladd gwirionedd,

Dychweliad ynteu ar ychydig eiriau yw cwbl new-
idiad y galon, a'r fuchedd. Mi a'i darluniaf ef yn
ei natur ai achosion.

1. Yspryd DUW fydd yn ei weithio, am hynny ei
gelwir sancteiddiad yr yspryd, 2. Thess. ii. 13. Ac
adnewyddiad yr Yspryd Glan, Tit. iii 5. A hynny
ynghyd a'r Tad a'r Mab; o herwydd dyfc yr Apostol i ni *fendithio tad ein Harglwydd Jesu Crist*, o her-
wydd iddo ein badgenedlu ni i obaitb bywiol, 1 Pet. i.
3. Ac mae Crist yn rhoddi edifeirwch i Israel,
Act. v. 31. A gelwir ef y Tad tragicydol, Efa ix.
6. A ninnau ei *had ef*, a'r plant a rodde Duw iddo
ef. Heb. ii. 13. Efa. lii. 10, O anedigaeth fen-
digedig! Saith o ddinasoedd a ymthonent o anedig-
aeth Homer: Y mae'r Drindod yn Dad ir creadur
newydd, yr hwn a Enir o'r Yspryd, Joan, iii. 8.

Ynteu gwaith yw fydd uwchlaw gallu dynol;
Genir ni nido ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr-
sithr o Dduw, Joan i, 13. Na thybia y gelli dy droi
dy

dy hun: Os mynni ddychweliad safadwy na disgwyl mono trwy dy nerth dy hun; Adgyfodiad ydyw oddi wrth y meirw, Dat. xx. 5: Ephes. ii. 1. Creadigaeth newydd, Gal. vi. 15. Ephes. ii. 10. Gwaith yr Hollalluog. Ephes. i. 19. Gwaith goruwch naturiol yw. Onid oes ynot bethau amgenach nag sydd ddilynol i'r ganedigaeth cyntaf, sef natur addfwyn, neu dymer ddiwair, ni chefaist mo'r cywyr ddychweliad.

2. Yr hanogaeth sy'n cynhyrfu DUW yw weithio ydyw ei rad ras ef. Nid o weithredoedd cyflawnder yr rhai a wnaethom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe ny'n i, trwy olchiad yr anedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glan, Tit. iii. 5. O'i wir ewyllys yr enillod efe nyni trwy air y gwrionedd, Jag. i. 18 Etholwyd a galwyd ni fel y byddem ni Sanct. aidd. ac lwyd am ein bod ni felly o'r blaen. Ephes. i. ^{nid}

Nid yw 4. **DUW** yn cael dim ynom ni i gynhyrfu ei gariad, ond digon i gyffroi digofaint. O Grifion edrych yn ol arnant dy hun, cymmer i'th law dy garpiâu pryfedlyd; Edrych fel yr *oedit yu dy waed*, Ezac. xvi. 6. Oh atcofia dy natur mochyn a'th foig, a'th dom a hoffaist, 2. Pet. ii. 22. A elli di feddwli am danynt heb wrthuneb calon? Agor dy fedd, Math. xxiii. 27. Edrych ar dy Enaid drewllyd, a'th aelodau ffiiaidd, onid yw archwaith agos yn dy ladd di? O aroglau anoddefadwy llygredigaeth! Psal. xiv. 3, Gwel fel i'th trochwyd yn y pwll; a'th ddillad a'th ffieiddiant, Job ix. 31. Pa fodd ynteu y dichon sanct-eiddrwydd a phurdeb dy garu di? *O chwi ne foedd synnwch wrth hyn a chynhyrfeu y ddaear*. Jer. ii. 22. Rhaid i bawb weiddi Rhad, Rhad, Zachar. iv, 7 Gwrandewch a chwilyddiawch o chwi blant y goruchaf, am nad yw rhad ras yn fynychach yn eich safnau a'ch meddyliau, ac na baech yn ei ryfeddu ac yn ei ganmol yn frwy. Dylech chwi folianu a rhyfeddu cariad Duw ymmha gyflwr bynnag y byddoch. Pa fodd

fodd y gallwch ei angosio, neu son yn anfynych am dano? Beth oedd ynnoch ond casineb, a gwrthni, chwdfa a phudredd? Nid alleu y rheini annog DUW i'ch caru. Am hynny y mae Pedr yn derchafu ei ddwylo, ac yn dywedyd Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Jesu Gaist, yr hwn yn ol ei fawr drugaredd a'n hadgenhædlodd ni, i Pet. i. 3. Ac mor deimladwy y mae Paul yn mawrhau rhad drugaredd DUW yn y peth? DUW'r hwn sydd gyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad trwy'r hwn y carodd efe ni, a'n cydfywhaodd ni gyda Christ, trwy ras yr ydych yn gadwedig. Ephes. ii. 4. 5.

Annogaeth arall yw haeddiant ac erfyniad yr Jesu Bendigedig. Fe a dderbyniodd roddion i ddynion cyn dyn, Pfal. xviii. 18. A thrwyddo ef y mae Duw yn gweithio ynom yr hyn sydd gymmeradwy yn ei olwg ef Heb. xiii. 21, A thrwyddo ef y rhoddir i ni bob bendith ysprydol yn y nefolion leoedd. Ephes. i. 3. Efe a erfyn dros y rhai Etholedig sydd etto heb gredu, Joan, xvii. 20, Ffrwyth llafur ei enaid ef yw dychweliad un. Esay, liii. 11. Erioed ni anwyd plentyn i'r bvd drwy gymaint poen, ac a ddioddefodd Crist drosom ni. Oh mor dosturus y bu iddo ochain! Ei ddioddefiadau ef ar y groes ydoedd ei wewyr ef in ganedigaeth ni, Act. ii, 24. Rhyddhawd ef o'r gofidiau a oddefodd ef er ein mwyn ni. gwnaed ef yn sancteiddrwydd i ni. i. Cor, i. 30. Efe a ymsancteiddiodd (fef a ymroddodd i fod yn aberth) fel y sancteiddid ni, Joan xvii. 19. *Sancteiddir ni trwy offrymmiad ei gorff ef unwaith* Heb. xx. 10.

Ynteu erfyniad, a haeddiant Crist, gyda ei ymyscaroedd cariadus ei hun, sydd yn cynhyrfu Duw i roddi i ni ras a'n dychwelo atto ef. Os ydwyt greadur newydd ti a wyddost i bwy y mae iti ddiolch, sef i rad gariad DUW, ac i Crist am ei osfidiau a'i weddiau. Am hyn y mae serch y credadyn ar Crist fel un y plentyn ar ei fam anwyl. At bwy arall yr eit ti? Os gall neb ryw un ddangos mwy i ennill dy galon ato

atto, gad iddo ei chael. A ydyw Satan yn ei cheisio neu'r pechod? Gwybydd na chroeshoeliwyd y rhain drosoti. i. Cor. i. 13. O Grifition hoffa a gwafan-aetha'r Arglwydd tra fydddech byw, canys y mae'r *publicanod yn caru y Sawl ai carant hwy.* Math, v. 46. 47.

3. Yr offeren drwy ba rai y gweithir dychweliad, mewn pechaduriaid yw gair DUW, a'i weinidogaeth. Myfi a'ch cenhedlais chwi *Yng Crist Jesu trwy'r Efengyl,* i. Cor. iv. 15. Gweinidogion Crist a anfonir i agoryd Llygaid dynion. ac i'w troi at Dduw Act. xxvi. 18.

O bobl anniolchgar, ni wyddoch chwi beth yr ydych arno tra fyddoch yn erlid cennadon yr Arglwydd y rhai sydd i'ch achub chwi dan Crist. Pwy a ddi-fennwasoch ac gablafoch, ac yn erbyn pwy derchaf-asoch eich llef, ac y cyfodasoch yn uchel eich Llygaid? Efa, xxxvii. 23. Y dynion hyn ynt weision DUW Goruchaf y rhai sydd yn mynegi i chwi ffordd jechydwriaeth, Act. xvi. 17. Ai hyn a delwch i'r Arglwydd ac iddynt hwytheu o bobl ynfyd ac angall? Deut. xxxii. 6. O feibion anniolchgarwch, yn erbyn pwy yr ymddigrifwch? Yn erbyn pwy y lledwch safn, ac yr Estynnwch dafod? Efa, lvii. 3. 4. Drwy y rhai'n mae DUW arferol o'ch troi chwi a'ch achub, ac a boerwch chwi 'n wynebau eich Pyfsgwyr. ac a deflwch chwi eich Llwyiaid o'r llong? O Dad maddeu iddynt, canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur.

Offeren enwedigol *yw* gair DUW Cenhedlwyd ni drwy air y gwirionedd. Hwn sydd yn goleuo'r llygaid ac yn troi'r enaid, Psal. xix. 7. 8, Yn gwneuthur yn ddoeth i iechydwriaeth, 2 Tim. iii, 15. Hwn yw'r had anllygredig o'r hwn y genir ni drachefn, Pet. i. 23. Os golchwyd ni, drwy'r gair y bu hynny. Ephes. v. 26: Os sancteiddwyd ni, trwy'r gair y gwnaed felly. Joan xvii. 17. Hwn sydd yn cenhedlu ffydd, ac yn ein ail genhedlu ninneu. Rhuf. x. 17.

ago, i. 18. O rai sanctaidd, llwyr y dylech hoffi'r gair
 an's trwyddo ef y dychwelwyd chwi ! O bechaduriaid
 y fal gyrchwch atto, can's trwyddo y rhaid ichwi gael
 ich troi, nid oes fodd arferol arall : O y rhai a deim-
 asoch ei allu ef yn eich adnewyddu, gwnewch yn fawr
 hono tra fyddoch byw, byddwch ddiolchgar am dano,
hwymwch ef am eich gyddfau, ysgrifennwch ef ar eich dwy-
gosodwch ef yn eich monwesau. Dih. vi. 21, 22. Pan
 gerddoch gedwch iddo eich arwain, pan gyfgoch ged-
 wch iddo eich gwilied, pan ddeffrowch gedwch iddo
 mddiddan a chwi : Llefarwch fel Dafydd sanctaidd
Byth nid anghofiaf dy orchymmynion, canys a bwynt i'm
ywheist. P'al, cxix. 93. A chwithau y rhai annych-
 weledig, darllenwch y gair yn ddiwyd, ymgesglwch at-
 o lle pregethir ef yn rymmus, llenwch y pyrth fel y
 wnaeth y lliaws o'r bobl weiniaid, deillion, cloffion a
 gwywedig, tra disgwylent am gynhyrfiad y dwfr,
 loan, v. 3. Gweddiwch am i'r Yspryd ddyfod gyda'r
 gair : Oddi ar dy liniau dos at y brégeth, a phan ddy-
 gall chwelech oddiwrthi dos ar dy liniau eilwaith. Nid yw'r
 erbyn had yn egino ac yn ffrwytho eisiau ei ddyfrhau a
 dwch dagrau a gweddiau, a'i blannu trwy ddwfn fyfyrnod.
 3. 4. Yr achos enwedigol a dibenol yw iechydwriaeh
 dyn, a gogoniant Duw. *Etholwyd ni i iechydwriaeth*
drwy sancteiddiad, 2 Thes. ii. 13. Galwyd ni fel i'n
gogoneddid, Rhuf. viii. 30. Ac yn enwedig fel y caff-
ai Duw ogoniant, Esay, lx. 21. Ac y myneger ei rin-
wedau ef, pan fo'm ni ffrwythlon mewn gweithredoedd
Col. i. 10.

O Gristion nac anghofia'r achos y galwyd di o'i her-
 wydd; *discleiried dy oleuni fel y gogonedder dy Dad,*
 Matt. v. 16. Bydded dy ffrwyth yn dda, yn anil ac
 yn dymhoraidd, Psal. i. 3. Bydded dy fwriadau di yn
 gynn. *gyttunol ag amcanion Duw, fel y mawrhaer ef ynoti,*
 Phil i. 20. P'am yr edifarai Duw am dy wneuthur di
 yn Gristion, megis yr edifarodd am wneuthur pobl yr
 x. 17. hen fyd yn ddynion? Gen. vi. 6. Na fydd anhardd-
 Jag. D wch

wch i'w winllan ef wrth dy anffyddlondeb : Luc. xiii.
 7. Na mab a wnel gywilydd, ac a bair ddigllonedd
 i'w dad, a chwercerwr i'w fam. Dih. x. 5. ac 17, 25.
 Bydded i'r groth a'th ymddug di dy fendithio, yr hwn
 a genhedlo un fol a ennill iddo ei hun drifswch, ac ni
 bydd llawen tad yr ynsyd, Dihar, xvii. 21.

5. Yr hwn a ail-enir yw'r pechadur etholedig, ac e-
 fe a gweirir yn drwyawdl, yn holl rannau ei gorff a
 galluoedd ei enaid ; y rhai a ragluniodd *Duw* a eilw
 efe hefyd, Rhuf, viii. 30. Ni thynnir at Grist trwy eu
 galw, ac ni ddaw atto trwy ffydd ond y defaid a ro-
 ddes y Tad iddo ef, Ioan. vi. 37, 44. Galwad effeith-
 iol sydd yn cyfatteb etholedigaeth dragwyddol, 2 Pet.
 i. 10.

Yr ydwyt yn dechreu yn chwirthig os ceisi weled dy
 etholedigaeth yn gyntaf peth : bydd siccer o'th alwad,
 ac yna nid rhaid i ti ammeu dy etholiad. Ac onid yw
 dy alwad hynod i ti yn barod, yr awr hon ymroddia
 i ddychwelyd at *Dduw* yn holol. Y mae arfaeth *Duw* yn
 ddirlgel i ni, ond mae ei addewidion yn eglur. Y mae'r
 an-ufudd yn argymhennu yn ddi-bris wrth ddyweddyd,
 " Os etholwyd fi, achybir fi beth bynnag a wnelwyf, ac
 " onid te collir fi er gwneuthur fy ngoreu. O bechadur
 gwrthnyssig, a fynni di ddechreu lle y dylit ti ddiweddu,
 onid yw'r gair ger dy fron di ? Beth a ddywed hwnnw?
Edifarhewch a dychwelwch, fel y dileuer eich pechoda,
A&t. iii. 19. Os ydych yn marweiddio gweithredoedd y
corff trwy'r ysbyryd byw a fyddwch, Rhuf. viii. 13. *Cred*
a bydd gadwedig, **A&t. xvi. 31.** Beth all fod amllyccach?
 Na segura dan ymddadlu yngylch dy etholedigaeth,
 ond ymosod i edifarhau ac i gredu. Gwadda ar *Dduw*
 am ras. Pethau datcuddiedig a berthyn i ti, bydd ddi-
 wyd yn eu cylch. Barn gyflawn yw i'r rhai hynny ym-
 dagu ac escyrn, y rhai ni fynnant gymmeryd ymborth
 iachus y gair. Nid elli wybod amcanion *Duw*, ond di-
 elli wybod ei addewidion, ac hyderu arnynt, canys di-
 siomedig ydynt. Gelli fod yn ddiogel, os edifarhei a
 chredu,

xiii.
nedd
25.
bwn
ac ni
ac e-
oh a
eilw
y eu
a ro-
feith-
Pet.
ed dy
lwad,
d yw
ddda i
uw yn
mae'r
edyd,
yf, ac
hadur
veddu,
vnnw?
bodau,
oedd y
Cred
ccach?
gaeth,
Dduw
d ddi-
y ym-
nborth
ond di-
ys di-
arhei a-
hredu,

chredu, cadwedig fyddi, onid te colledig fyddi; dym-
ma ffordd waftad yw cherdded, pa'm y dringi d'r
creigiau?

25.
bwn
ac ni
ac e-
oh a
eilw
y eu
a ro-
feith-
Pet.
ed dy
lwad,
d yw
ddda i
uw yn
mae'r
edyd,
yf, ac
hadur
veddu,
vnnw?
bodau,
oedd y
Cred
ccach?
gaeth,
Dduw
d ddi-
y ym-
nborth
ond di-
ys di-
arhei a-
hredu,

6. Ym mhellach, y mae dychweliad yr etholedig yn drwyndl: Gall fod gan un cnawdol beth fitrach go-nestrwydd bydol, ond yw ei frethyn ef yn dda drwyddo, sef ei holl fuchedd yn gristianogol a sanctaidd: Teimlwch ef tua'r canol, a chewch weled mai darn twyllodrus yw. Nid yw gras yn clyttio'r hen adeilad, ond yn ei thynnu i lawr, ac yn cyfodi un newydd o'r sylfaen hyd y drym. *Dyn newydd a chreadur newydd yw*, Eph. vi. 24. *Pob peth yn newydd ganddo*, 2 Cor. v. 17. Y mae dychweliad yn waith dwfn, ac yn y galon, Act. ii. 37. ac vi. 14. Mae'n gwneuthur i ddyn fod mewn cyflwr newydd, mae'n treiddio trwy'r meddwl, a'r aelodau, a'r fuchedd oll.

Trwy'r meddwl gan wneuthur llwyr gyfnewidiad oddi fewn, try'r clorian yn y dealltwriaeth, pwysfawr fydd *Du>w a'i ogoniant yn ei dyb ef, ac yscafn fydd gwagedd bydol*, Act. xx. 24. Phil. i. 20. Egoriff lygaid y meddwl, a gwnaiff i'r cen o anwybodaeth syrthio oddi wrthynt, gan droi pobl o *dywyllwch i oleuni*. Act. xxvi. 18. Eph. v. 8. i Pet. ii. 9. Ac yna y cenydd dyn ei berengl a'i gyflwr enbydus na wyddeu oddi wrtho o'r blaen, Act. ii. 37. A barna ei hun yn golledig, oddi eithr ei llwyr adnewyddu drwy ras. Er iddo o'r blaen dybied nad oedd fawr niwed yn y pechod, yn awr a'i cydnebydd yn ddrwg pennaf. Gwel mor anrhesymol, mor anghyfiawn, mor wrthyn, ac mor ffiadd yw; oni byddo yn llaru arno, yn ei arswyo, ac yn ei ochelyd, ac yn ddig wrtho ei hun am gymeryd ei hudo ganddo gynt, & huf, vii. 15. Job, xlvi. 6. Efec. xxxvi. 31: Yr hwn ni theimleu fawr bechod ynddo ei hun, ac nis gweleu achos i gyffessu'n edifeiriol, (fel y dywedwyd am yr Ignoramus dysgedig) Bellarmin, yr hwn a wyddai lawer o'r byd ar led etto ydoedd anghydnbwyddus a'i galon ei hun, yn gymaint ac na wyddai fod

un bai arno ei hun iw gyffessu i'r offeiriad, nes edrych o hono yn ol at ffyrdd ei jeuengtid, yn awr a wel bechyd yn adfywio, ac ef ei hun yn marw, *Rhuf* vii. 9. Gwel fudreddi ei galon, a'i natur, a llefa *aflan*, *aflan*, *Levit.* xiii. 13, 45. dywediff *Arglwydd golch fi ag Ysop*, *creagalon lan ynof*. *Psal.* li. 2, 7, 10. Gwel ei hun wed cwbl ymddifwyno, *Psal.* xiv. 3. Ac yn bren drwg llygredig ei wraidd, ai ffrwyth, *Matt.* vii. 17, 18. Yn *aflan* ei aelodau, a'i alluoedd, a'i weithredoedd, *Esay* lxiv. 6. *Rhuf.* vii. 18. Cenfydd y corneleu *aflan* oeddent o blaen yn guddiedig gan dywyllwch, y Cabledd, lle-
drad, mwrdrwr, a'r godineb yn y galon, oeddent yn llechu yno yn ddiarwybod. O'r blaen ni welai degwch yn Ghrift, na phrydferthwch tel y dynamai ef: Ond yn awr y mae yn caffel *y tryffor cuddiedig*, a gwerthif *y cwbl i brynu'r maes lle mae*, *Matt.* xiii. 44. Crist yw'r perl gwerthfawr y mae'n ei geisio, a'r pechoc yw'r pwll brwnt y mae yn ei ffieiddio. Yn awr wrth y goleufyneg hwn bydd dyn o dyb amgenach nag oedd ynddo o'r blaen: Gwerthfawr ganddo Dduw ac n chyffelyba ddim yn y nefoedd na'r ddaiar iddo *Psal.* lxxiii. 25. Perchiff ef yn fwy na'r hollfyd, e fywyd sydd yn eiffafr ef; gwell ganddo *lewyrch a wyneb ef nag yd na gwin, ac olew*, y da ydoedd efe o blaen yn eu ceisio, ac yn eu ferchu, *Psal.* iv. 6, 7. Yn awr er gosod y byd oll ar y naill du, a Duw yn unig a y tu arall, ac er ir byd ymdrwfio a lliwiau teg, a gogoniant teyrnasoedd y ddaiar i geisio denu'r Enaid (fel y bu wrth demptio Crist) etto ni sylrh yr Enaid i lawr addoli'r byd, onid cyfrififf Crist croefhoeliedig, erlidiedig, yn well na'r cwbl a all y ddaiar ei gynnig *Phil.* iii. 8. I *Cor.* ii. 2. Pe rhon i ragrithiwr addemae Duw yw'r daioni pennaf, (megis y gwanaeth rhai paganiaid dyscedig) etto ni ddaw cyn belled a chyd-nabod Duw yn bennaf daioni iddo ef, ac felly ei ddyrnuno uwchlaw pob peth, ac ymfodloni ynddo yn unig ai hoffi yn fwy na neb ryw beth arall, a dywedyd y

Arglwydd yw sy rhan i medd sy Enaid: Pwy fydd genifi yn y nesfoedd ond trdi? Ac ni ewyllysiaf ar y ddaior neb gyda thydi. Nerth sy nghalon a'm rhan yw Duw yn dragywydd, Psal. lxxiii. 25, 26. Galarn. iii. 24.

Bydd cyfnewidiad yn yr ewyllys hefyd, mae dymuniad a bwriad yr Enaid am ogoneddu Duw uwchlaw pob peth, Eze. xxxvi. 26. Jer. xxxi. 33. Esay xxvi. 8, 9. Phil. i. 20. Cyfrifff ei hun yn ddedwydd pan allo ddwyn gogoniant i Dduw yn ei genhedlaeth, yr nod y mae yn annelu atto yw mawrhau Enw'r Jesu yn y byd, a bod i yscubau ei frodyr ymgrymmu i yscub Crist. O ddarllenyydd, yma hola dy hun a ydyw'r peth hyn ynoti, ystyria ennyd arno.

Bydd y dyn yn dewis Duw, ai ddedwyddwch, a Christ yn bennaf, a duwioldeb iw gymhwys i fwynhau Duw, Psal. cxix. 30. Joan xiv. 6. Rhuf. ii. 7. Dewis yr Jesu yn Arglywydd iddo, Col. ii. 6. Nid yw yn rhedeg at Grist er mwyn gochel cafod yn unig, nag yn ei gymeryd ef, fel y mae 'r hwn a gaffo ei arbed ar y pren-dioddef, yn cymeryd y wraig ai hachubo ef oddiwrth y tenyn; ond dewisiff Grist oi wirfodd. Nid priodas mewn dychryn yw, megis y bydd yn fynych pan fyddo pechaduriaid ymmron marw, y rhai y pryd hynny sy well ganddynt fyned at Grist, na myned i usfern, y mae 'n Ysturiol yn rhoddi ei fryd ar Grist, gan ei fod yn oreu, Phil. i. 22. A gwell ganddo ei gael ef na 'r holl fyd a'i fwyniant: Y mae hefyd yn cymeryd ffordd duwioldeb, a hynny nid o ran angenrhaid, ond o gariad ai wirfodd; *Dy orchymmynion di a ddewisais*, Psal. cxix. 173. Cymmer *dystiolaethau Duw*, nid megis caethiwed, ond yn *Etiseddiaeth*, a hynny dros byth, adn. 3. Cyfryf hwynt nid yn faich ond yn fendith, nid yn rhwymau ond ya rhyddhad, nid yn gyfudd ond yn gysur, ymddigrifff ynddynt, i Joan v. 3. Psal. cxix. 14, 15, 16. Nid yw yn unig yn dwyn Croes Crist, ond yn ei chymmeryd i fynu hefyd. Nid yw yn cymeryd gras a duwioldeb i'w fewn; fel y cymer y claf by-

byfugwriaeth y fyddo gwrthwynebus iw eneu ai syn
gylla, yr hwn a lyngc ef rhag marw; ond cymer
hwy yn hyfryd fel y newynog ei fwyd. Nid oes
well difyrrwch ganddo nag ymarferion duwiol,
y rhai ydynt iddo yn lluniaeth a melystra, yn
ddymuniad ei lygaid ac yn llawenydd ei galon, *Job.*
xxiii. 12. Psal. lxiii. 5; ac cxix. 82, 131, 162. Go-
fod y pethau hyn at dy gydwybod fel yr elech ymmlaen,
i ddirnad ai ti yw 'r dyn, os e dedwydd wyt: Ond
chwilia yn ddilachr.

Y mae gras yn troi tueddiad y serch, *2 Cor. vii. 11.*
Gyrrir yr Jorddonen yn ol, a'r ffrwd tuag i fynu.

Crist yw ei obaith, *1 Tim. i. 1.* A'r elw a'r gamp
y mae yn ymeginio oi herwydd, *Phil. iii. 8, 14.* Ar-
no y mae ei lygad ai galon: Bodloniff i fwrw pob peth
allan o'r llong fel y gwna'r morwyr mewn tymhefli, am
y cadwo'r perl hwn.

Ei ddeisfyfiadau pennaf nid ydynt am aur, ond am
ras, *Phil. iii. 13.* Cais hynny fel arian, a chleddia am
dano fel am dryffor cuddiedig. Gwell ganddo ddaioni
na mawrhydi, a bod yn dduwiol na bod yn oludog, neu
glodfawr. Tra yr oedd gnawdol, efe ddymunai fod
iddo goel, a digoneedd o gyfoeth, a hyfrydwch iddo ei
hun, ac iw dylwyth. Ond pan droes o yn ysprydol
newid ei arraith, gan ddeisfyf cael darostwng ei lygredi-
gaethau, a chael mwy o sansteiddrwydd a chymundeb
a Duw, ped fai ond mewn cyflwr distad! yn y byd, ty-
biai ei hun yn ddedwydd. Darllenyydd, ai hyn yw lle-
ferydd dy Enaid di?

Newidir llawenydd y cyfryw. *Bydd mor llawen*
ganddo ffordd tystiolaethau Duw a'r holl olud, *Psal. i.*
19, 14. Hyfrydiff yngbyfraith yr Arglwydd (ydoedd
ddiflas ganddo o'r blaen) *ac yn myfyrio ar Crist, ac yn*
mwynhau ei gymundeb.

Ei ofalon hefyd a newidir. Er ei fod gynt wedi
ymosod at y byd, ac heb feddwl am ei enaid ond
yn anfynych, yn awr peidia a gofalu am yr af-
synnod,

ai synnod, a gesid ei galon ar y deyrnas, a'i waedd yw,
 mer beth fydd raid imi ei wneuthur fel y byddwyf gadwe-
 oes dig? *Aet. xvi. 30.* Ei ofal mwyaf yw am achub ei
 viol, enaid. O fel y bendithia ef y neb ai cynnorthwyai ef
 yn ifod yn ddiamheuys ynghylch hynny o beth!

Job. Ei ofn ef fydd mwy rhag pechu na rhag dioddef er-
Go- lid, *Heb. xi. 25, 27.* Gynt mawr oedd ei ofn ef rhag
en, colli ei olud, ei barch, ei gyfeillion, yn enwedig y
Ond rhai mawrion. Ni wnai dim mono ef mor ddychryny-
II. llyd a bygwth gofid corphorol, tlodi, neu anharch;
 ond yn awr nid yw'r fath bethau ond bychain yn ei
amp olwg ef, wrth eu cyffelybu i ddianrhyydedd a dig Duw.
Ar- Dichlin y rhodia rhag iddo fengi ar neb ryw fagl, ac
peth edrych yn wiliadwrus yn ei gylch, ai lygad ar ei galon
am yn fynech, ac edrych dros ei ysgwydd rhag i ryw be-
am chod ei oddiwas ef, *Psal. xxxix. 1. Dibar. xxviii. 14.*
ioni *Preg. ii. 14.* Gofid calon iddo feddwl y colliff ffafra
neu Duw, gwybydd mai dyna 'r unig beth ai tyr ef,
fod *Psal. li. 11, 12; ac cxix. 8.* Meddwl am ymadel a
lo ei Christ ai clwyfa dostaf.

Ei serch a osodir ar Grift, a dywed fel Ignatius *sy*
aghariad a groeshoelwyd, sef fy' Nghrist, *Dyma sy anwy-*
yd, medd yr Eglwys, *Can. v. 16.* Aml y byddai
 Awstyn yn tywallt ei serch ar Grift, O Ddedwyddwch
 ragwyddol, &c. Gad imi dy weled yr hwn wyt oleuni
 fy llygaid, tyred, o tydi wyt lawenydd fy yspryd, gad
 mi dy ganfod o hyfrydwch fy nghalon, gad imi dy
 hoffi di yr hwn wyt fywyd fy enaid i, datcuddia dy hun
 mi o fy melys gyffur, o fy Nuw, fy mywyd, a gogoni-
 ant fy enaid. Bydded i mi dy gael di yr hwn wyt
 ideisyfiad fy enaid, bydded i mi dy ddala di o hoffder fy
 enaid i, gad i mi dy gofleidio di, o Briodfab Nefol,
 bydded i mi dy fwynhau di.

Ei dristwch sydd newydd hefyd, 2 *Cor. vii. 9, 10:*
wedi Golugiad ei bechodau ac o Grift croeshoeliedig, yn awr
ond bwysa ar ei galon ef, er na chynhyrfent mono o'r
r as- blaen.

Ei ddigofaint ef a boetha yn erbyn pechod, *Psal.* cxix. 104. Mae 'n annioddefgar wrtho ei hun, geilw ei hun yn ynfyd ac yn anifail, pan lidio wrth ei bechod, *Psal.* lxxiiii. 22. *Dihar.* xxx. 2. Er iddo gynt ymserchu ar bechod yn hyfrydlawn, yn awr ffieiddia ddychwelyd atto gymaint ac y gwnai wrth lyfu chwdfa.

Ynteu ymddiddan a'th galon, tua phle y mae cynnefin ffrwd dy nwydau yn rhedeg, ai tuag at Bethau byd? Gall fod cynhyrifiadau byrbwyll a chryfion yn nwydau rhagrithwyr, yn enwedig yn y cyfryw ac a fyddo a'u tymer naturiol yn dueddol iddynt: A gall rhai sanctaidd o dymer sych arafaidd, fod heb nemawr o gynhyrifiadau teimladwy. Am hynny rhaid Edrych fyddo dyn wedi rhoddi ei fryd ar Dduw yn ysturiol, ac yn ddisygl, gan farnu ei fod ef yn well na phob hy mwynt arall, ac os bydd yr Ewyllys a'r ferch yn ufydd-ddilyn grweiniad y meddwl difrifol, nid oes am meu na bo'r dychweliad hwnnw yn safadwy, er na byddo ynddo gymaint o gynhyrifiadau teimladwy ac mewni eraill o dymer frawychus.

Gwelir cyfnewidiad yn aelodau'r grafol; yr aelodau oeddent o'r blaen yn arfau pechod a fyddant offerau yn nheml fywiol Christ, *Rhuf.* vi. 16. 1 *Cor.* iii. 16. Yn hwn ydoedd yn halogi ei gorff ag afendid a meddwod, a feddianna ei lestr. mewn sancteiddiad, a pharch, cymmedroldeb, a diweirdeb, gan ei gyssegru i'r Arglwydd, 1 *Theff.* iv. 4. *Gal.* v. 22, 23 1 *Cor.* vi. 19 20.

Y llygad oedd o'r blaen yn wibiog, yn falch, yn gynebuddus, yn anllad, yn awr fel Mary a wyla am bechod, *Luc.* vii. 38. A graffa ar weithredodd Duw, *Psal.* viii. 3. A'i air, *Act.* viii. 30. A'r truenus, ac ar bob achlyssur i wasanaethu Duw.

Y glust ydoedd unwaith yn agored i alwad Satan, a ni chlywai flas ar ymddiddan yn y byd, ond yr hwn ymfae am y byd, ond yr hwn a fae yn aflen, neu ofer, ne ddig

ddigrifwch ynfyd, yn awr fydd wedi ei dullu wrth
Psal. ddrws ty Dduw, ac yn agored i'w athrawiaeth, dywe-
w ei diff llefara Arglwydd, canys dy was a wrendy, a llefa,
hod, *veniat verbum Domini*, deled gair yr Arglwydd; a dis-
ym-gwiliff am dano fel am y glaw, *a hoffa ef fel ei ymborth*
ddia angenrheidiol, Job xxiii. 12. *ie fel y mel a'r dil mel,*
lyfu *Psal.* xix. 10.

Y pen ydoedd weithdy ystrywiau bydol, yn awr a len-
cyn-wir a meddyliau eraill, a myfyrdodau ynghyich ewyll-
au 'n Duw, *Psal.* i. 2. ac cxix. 97. Ac ni ofala ei ben
n ymef gymaint am ei elw, ac am ei ddyledswydd, pa fod
ac a ryngu bodd Duw, ac i ochelyd pechod.

Ei galon ydoedd gutt chwantau aflan, a wneir yn
nawr yn allor i arogl-darth, a geidw dan a gwrefog-
ych a wydd cäriad Duw ynddi yn oestadol, o'r hon yr escyn
uriol, aberth beunyddiol, gweddi, a mawl, ac arogldarth
phot hyfryd, dymuniadau, a dyhead nefol, a hynny yn gyn-
h y nefinol, *Psal.* cviii. 1; ac cxix. 20; ac cxxxix. 17,
am 18.

Bydd y safn yn ffynnon bywyd, a'r tafod fel arian
mewni dewisol, a'i *wefusau a berthant lawer*. Yn awr halen
gras a wnaiff ei ymadrodd yn flasus, ac a dynn ymm-
lodau iith y llygredigaeth oddiwrtho, *Col.* iv. 6. A glanheiff
au y safn oddiwrth serthedd, gweniaith, ymfrost, celwydd,
. Yr heg, absen-drwg, ymsywen, y rhai o'r blaen a dorrent
eddwallan fel ffaglau oddiwrth usfern yn y galon, *Jag.* iii.
6, 7. Yr *geg* a ydoedd fel *bedd agored*, *Rhuf.* iii. 13.
'r A n awr a anadla weddi, ac ymadrodd sanctaidd, a
i. 19 lefara 'r dyn jaith *Canaan*, ac ni bydd un amser mwy
oodlongar, na thra fyddo yn son am Dduw, a Christ, a
yn g'helyntiau'r byd arall, ei enau a draetha ddoethineb, a'i
echod, dafod fydd fel udcorn arian, i seinio mawl ei Greawdwr,
Psal. a bydd iddo yn ogont, ac yn un o'r aelodau goreu
ac a fodd.

Wele yma y dirnedir y rhagrithiwr yn cloff: Ni
an, a hwyrach iddo lefaru fel angel, ond bydd ganddo ly-
hwn gad cybyddus, a bydd elw anghyfiawnder yn ei law.
er, ne Ond
ddig

Ond os bydd ei law yn wen, ei galon ef fydd yn llawn
pudredd, *Matt.* xxiii. 27. Yn llawn o ofalon bydol,
yn ffwrn o drachwant poeth, yn weithdy malis, a
thryssordy balchder, nihwyrach fel Delw *Nebuchadnez-*
zar fodiddo ben o aur, a llawer o wybodaeth ynddo,
eithr bydd ei draed o bridd; ei ferch yn fyddol, a'i ym-
arweddiaid yn gnawdol, os olrheinir ei rodfa ddirgel
gwelir ol ei draed mewn llwybrau ceimion, pechadurus,
nid yn rasol bob ffordd.

Y mae troedigaeth rasol yu diwygio'r fuchedd oll. Y
mae 'r dyn newydd yn dilyn ymarweddiaid newydd,
Ephef. ii. 2, 3. I'r hon fydd yn y nef, *Phil.* iii. 20.
Yr hwn a alw Crist drwy ras effeithiawl yn gyflym a
dry yn ddilynwr iddo ef, *Matt.* iv. 20. Pan roddo
Duw galon newydd i ddyn ac yscrifennu ei gyfraith yn
ei feddwl, ymroldiff i roiio yn ei orchymynion ef, ac i
gadw ei farnedigaethau ef, *Ezec.* xxxvi. 26, 27.

Er i bechod lynn ynddo, a thrigo oi fewn, fel
gwestwr digressaw, etto ni chaiff arglyddiaethu arno,
Rbuf. vi. 7, 14. Mae iddo *fwrwyth u sancteiddrwedd*,
Rbuf. vi. 22. Er iddo frychu a diwyno ei waith yn
fynych, etto cyfraith a buchedd Crist, yw'r copi y mae
ei lygaid ef arno, ac y mae ynteu yn ceisio ei ddilyn,
Psal. cxix. 30. *Heb.* xii. 2. Yn ddiragrith edrych at
holl orchymynion Duw, a rhydd ufydd-dod iddynt,
Psal. cxix. 6. Gocheliff esceuluso y dyledi yddau,
lleiaf, ac arswyda wneuthur y pechodau lleiaf, *Psal.*
cxix. 113. Y gwendid fydd ynddo oi anfodd, fydd
drwm ganddo, ac megis brychewyn mewn llygad, er
ei fod yn fychan etto mae 'n ofidus. [O ddyn na d'iar-
llen hyn heb edrych i'th galon drwy ymholiad ddifri-
fol.] Nid yw'r gwir edifeiriol, Grifftion yn yr Eglwys,
a Phagan yn ei dy, sanct ar ei liniau, a thwylwr yn ei
siop; nid yw yn degymmu mintys, a'r cwmmin, ac yn
gadel heibio drugaredd a barn, a phethau trymmaf y
gyfraith, nac yn nghyscod crefydd yn gweithredu an-
ghyflawnder, *Matt.* xxiii. 14, 23. Eithr try ymmaith
oddiwrth

awn oddiwrth ei holl anwiredbau, i gadw holl gyfreithiau dol, Duw, *Ezec.* xviii. 21. Cais hynny mewn cywirdeb , a calon er nad allo yn gwbl berffaith, ni rydd gennad nez- ddo ei hun i droseddu'r un o honynt, *Rhus.* vii. 15. ddo, In awr ymhyfryda yn y gair, a gweddiau, ac yn ol ei ym- allu eg yr ei law, a thyn allan ei enaid i'r newynog, irgel *Rhus.* vii. 22. *Psal.* cix. 4. *Esay* lviii. 10. *Tyrr* urus, mmaith ei bechodau trwy gyflawnder, a'i anwiredbau trwy drugarhau wrth drueniaid, *Dan.* iv. 27. Y mae 1. Y ganddo gydwybod dda, gan ewyllysto byw yn oneft ym yddd, mhab peth, *Heb.* xiii. 18. Ac i'w gadw yn ddidram- . 20. gwydd tuag at Dduw a dynion.

Ll'yma drachefn yr argyhoeddir bagad ai tybiant eu oddo hunain yn Gristianogion da, ond cewch hwynt yn rhai th yn siachus, gan fod yn dueddol yn y gyfraith, *Mal.* ii. f, ac i. Gwnant y rhan oddiellan i'r dyledswyddau hawdd rhadond nid ant drwy'r gwaith, yn enwedig yr an- a, fel hawsaf. Y maent fel teisen heb ei thro, a'i hanner arno, wedi crasu, a'r hanner arall yn does. Ni hwyrach eu wvdd, od yn eirwir, ac yn ddi-siom eu marchnadoedd, etto th yn neb ymarferu a duwioldeb, na bod yn gydnabyddus au y mae alonnau eu hunain, gan ei holi a'ullywodraethu. Deu- dilyn, nt yn brydlon ir Eglwys, ond ni feddyliant yn eu ych at euluoedd am ddim ond y byd: Ac os arferant grefydd ddynt, euluaidd, esceulufant hynny yn eu stafell ddirlgel pan ddaau, rddant unig. Fe allai yr ymddangosant mewn bagad *Psal.* bethau yn grefyddol, etto heb attal eu tafodau o- sydd diwrth anwir, ac yna ofer fydd eu crefydd, *Jag.* i. 26. ad, er c os arferant weddi deuluaidd a dirgel yn eu stafell, djar- yddant dwyllodrus yn eu siop. Fel hyn nid yw'r rha- ddifri- ghwys, 7. Y pethau y troiff yr edifeiriol oddiwrthynt ac atan, sydd yw ystyried hefyd.

Y pethau y troiff efe oddiwrthynt yw'r pechod, a atan, a'r byd, a'i gyflawnder ei hun.

Yn gyntaf, troiff oddiwrth y pechod, ie oddiwrth ob pechod, *Psal.* cxix. 128. Oddiwrth ei bechod ei

hun, oddiwrth bechod ei fonwes, *Psal.* xviii. 23. Y
 pechod yw'r nod y saetha ei ddig atto, 2 *Cor.* vii. 11.
 Pechod a bair driftwch iddo ef, y sydd yn ei drywanu,
 ac yn ei glwyfo ef, teimla ef fel draen yn ei ystlys,
 ai lygad; ymdrecha ac ochneidia dano, gan lefain yn
 dosturus, *Ys truan o ddyn ydwyfi!* Nid yw mor anoddef-
 gar dan faich yn y byd, ac yw dan bwys ei bechod,
Psal. xl. 12. Pe canniat eid iddo, dewisai bob cystydd
 er cael ymadel a'i anwired, yr hwn sydd iddo fel man-
 gerrig yn ei Esgidiau, yn ei friwo pa ffordd bynnag y
 cerddo. Cyn ei droedigaeth, ysgafn oedd ganddo ei
 bechod, meithrinai ef yn ei fynwes, fel y gwnai *Uriah*
 ei oenig, efe ai mageu oni gynydddeu gyd ag ef. Cae
 fwytta o'r un saig, ac yfed o'r un cwppan, a gorwedd
 yn ei fonwes ef, a bod iddo megis Merch. Ond pan
 agoro Duw ei lygaid ef drwy ras, bwrw ef ymmaith
 gan ei lwyd gashau, *Ezay.* xxx. 22. Fel y gwnai gwri
 a llyffant du pan ei canfyddei, er iddo yn y tywyll ei
 lochi yn ei wis, gan dybied mae aderyn oedd. Canys
 bydd y dyn yn awr yn deimladwy o berygl, ac o ha-
 logrwydd pechod, am hynny taer erfyn ar Dduw am
 gael ei lanhau, bydd yn ffiadd ganddo ei hun nes hyn-
 ny, *Ezec.* xxxvi. 31. Daw at Grist, a theifl ei hun i
 ffynnion iw olchi *oddiwrth bechod ac anwired*, *Zech.*
 xiii. 1. Os sylrh, bydd frawychus a diwyd i ymlanhau
 eilwaith *oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd*.
 Mor gas ganddo 'r pechod yr ydoedd unwaith yn ei
 hoffi. *Psal.* xviii. 22. ac a fydd gan un glanweithiol
 y cafan, a'r dom y mae moch yn ymhafrydu ynddynt.

Y mae efe yn rhyfela yn erbyn pechod yn galonnog
 er ei orchfygu yn fynych, nid ymroiff iddo, ac ni
 theifl ei arfau i ffwrdd. Maddeuiff iw Elynion eraill a
 gweddia drostynt, *Act.* vii. 60. Ond bydd yn anghy-
 mmodol a'r pechod, pettai fel ei law neu ei lygad de-
 heu, er iddo fod yn elwgar neu 'n hyfryd iw gnawd
 ac iw gyfeillion, etto ymwrthodiff ag ef, ac ni chyd-
 ddwg ag ef ei hun mewn un ffordd bechadurus drw-

wybod

wybod, *Luc. xix. 8.* Eithr brocha pan drawo wrtho, gan ddywedyd, A gefais i di o fy ngelyn ?

Ddarlenydd, a ystyriaist ti 'r pethau hyn yn dy galon ? A chwiliaist ti 'r llyfr oddifewn i edrych ydyw felly ynoti ? Gwna i'th gydwybod atteb.

A groeshoeliaist ti 'r cnawd ynghyd a'i wyniau a'u chwantau, a gyffessaist ti dy bechodau, au gadel yn dy ymarwediad, gan fod yn ystyriol, ac yn sychedig am ras ? A ydyw dy gydwybod yn cyfodi 'n dy erbyn tra fyddych yn darllen, gan haeru dy fod ti yn arfer twyll a chelwydd yn dy a!wedigaeth ; a'th fod yn byw mewn anniweirdeb ddirgel ? Na'th sioma dy hun, yr ydwyt i mewn bustl chwerwedd, a rhwymedigaeth anwiredd.

Onid yw dy ryddion ymddiddanion, a'th anghymedroldeb, a'th gyfeillach ddrwg a'th esceulusdra o weddio, ac o wrando. a darllen y gair, yn tystiolaethu yn dy erbyn, ac yn dywedyd, Nyni yw dy weithredoedd di, ac ni a'th canlynwn di ? Onid oes aderyn o'th fewn yn dywedyd iti dy fod yn cynwys ynot dy hun ryw ffordd ddrwg, er mwyn rhyw ddiben cnawdol ? Os felly y mae dy gyflwr yr ydwyt yn ddiadgenedledig hyd hyn, a rhaid iti geisio dy droi neu ti a gyfrgollir.

Yn ail, Troiff yr Edifeiriol oddiwrth Satan. Rhwymir y gwr cryf, a dygir ei arfau, a bwrir allan ei ddodrefn, *A throir y dyn o feddiant Satan at Duw, Act. xxvi. 18.* O'r blaen gynted ac y cyfodei Satan ei fys iw wa-hodd ef at gyfeillach ddrwg, chwareuon pechadurias, hyfrydwch aflen, yn gyflym efe a ddilynei fel ych yn myned i'r lladdfa, neu fel ynfyd yn myned i'r cyffion iw gospi, ac fel aderyn yn prysfuro i'r fagl, heb wybod ei bod yn erbyn ei einioes ef, Dihar. vii. 22, 23. Pan barai Satan iddo dwyllo, byddei 'r celwydd yu barod ar flaen ei dafod ef, *Act. v. 3.* Pan osodei Satan achlysur trachwant yn ei olwg ef, brethid ef ganddo. Os rhoddei Satan wyn yn ei galon ef yn erbyn dyledswyddau teuluaidd a dirgel, digon anaml fyddent yn ei dy ef, gwnae fwy or Satan nag er Dduw ; ond wedi ei droi gwafan-aethiff

aethiff feistr arall, sef yr Arglwydd Jesu, *Col.* iii. 24: Ac ni red ir rhyffedd gynt, *i Pet.* iv. 4. Os deil Satan ei droed ef weithiau mewn trap, nid ymroddiff i fod yn garcharol iddo oi wirfodd, tyrr trwy ei faglau ef, a gwilia rhagddynt rhagllaw, gan graffu ar ei ddichellion ef, au gochelyd hwy yn ddichlyn; ymdrechiff yn eu erbyn, a derbyn eu gennadon fel y gwnel rhai ei gelynion marwol, gan eu golygu rhag iddynt ymhyrddu i'w fddyliau a'i ddylediwyddau ef.

Yn drydydd. Troiff y grafol oddiwrth y byd. Cyn eael ffydd jachusol gorchfygir dyn gan y byd, plygiff i'r Mammon, neu addola ei anrhyydedd, neu efe a gara felys-chwant yn fwy na Duw, *2 Tim.* iii. 4. Dyma achos trueni dyn er ei gwypm, sef iddo droi oddiwrth Dduw at y creadur, a rhoddi'r parch iddo, a'r hyder a'r ferch arno, yn lle'r Arglwydd goruchaf, *Rhus.* i. 27. *Matt.* x. 37. *Dibar.* xviii. 11. *Jer.* xvii. 5.

Och ddyn anedwydd, i'r pechod dy wneuthur di yn anghenfil mor wrthyn! Gwnaeth Duw di ychydig is na'r angelion, a gwnaeth pechod di yng'hylch cyn-ddrwg a'r cythreuliaid, *Joan* vi. 70; ac viii. 44. Anghenfil a'th ben a'th galon lle dyleu dy draed fod, a'th draed yn gwingo yn erbyn y nefoedd, a phob beth a'llan oi le; y byd sydd yn dy reoli di, a wnaed i'th wa-sanaethu di. Y buttain dwyllodrus a'th hudodd di a'i dewiniaeth, ac a wnaeth iti blygu iw gwasanaethu hi.

Ond y mae gras, wrth droi'r pechadur yn rhoi pe-thau mewn trefn eilwaith, gan osod *Duw ar yr orseddfaingc*, a'r byd wrth ei droedfaingc, *Psal.* lxxiii. 25. *Crift yn y galon*, a'r byd dan y traed, *Eph.* iii. 17. *Date.* xii. 1. Felly y dywed *Paul*, Croeshoelwyd y byd i mi a minneu i'r byd *Gal.* vi. 14. Cyn y cyfryw newidiad, y gweiddi yw, Pwy a ddengys i ni ddaioni (bydol)? Wedi hynny dywed, *Arglwydd dercha ar-nasi lewyrch dy wyneb*, pwy bynnag a gaffo 'r yd a'r gwin, *Psal.* iv. 6, 7. O'r blaen dyfyrwch y galon oedd yn y byd, ai ganiad oedd, *Fy Enaid cymmer dy Esgwyth-*

Esmwythdra, bwyitta ac yf, a bydd lawen, y mae gentait gyfoeth ddigon dros lawer o flynyddoedd. Ynawr ymddengis y pethau hynny fel pethau wedi gwywo, ac ni wel brydferthwch ynddynt yw ddymuno, a phyngcia fel canwr melysgerdd *Israel*, *Yr Arglwydd yw rhan sy Etifeddiaeth i, y llinynnau a syrthiodd i mi mewn llecedd hyfryd, ie y mae imi etifeddiaeth deg*, *Psal. xvi. 5, 6.* *Yn yr Arglwydd y mae yn ymsendifithio ac yn gorsoleddu, Psal. xxxiv. 2. Galarn. iii. 24.* Nis gall neb ryw beth arall ei fodloni. Yscrifenna ar bob peth a fwynhae gynt, *gwagedd a gorthrymder yspryd*, *Pregeth. i 2.* Ac ar bob godidowgrwyd i dynol, *colled a thom*, *Phil. iii. 7, 8.* Y mae efe yr awrhon yn erlyn ar ol bywyd ac anfarwolder, *Rhuf. ii. 7.* Ei fasnach sydd am ras a gogoniant, ac ymdrecha am goron anlygredig, *i Cor. ix. 25.* Rhyd ei frydd ar geisio'r Arglwydd, *i Cron. xxii. 19; ac 2 Cron. xv. 15.* Cais deyrnas nefoedd ai chyflawnder yn gyntaf, nid yw crefydd beth i w drin weithiau pan gaffo ennyd, ond y peth pennaf yn ei ofal ef, *Matt. vi. 33.* *Psal. xxvii. 4.* Bydd yr Eulyn disclair yn *Nehushtan* ganddo, *2 Bren. xviii. 4.* A fethriff arno fel y gwnaeth *Diogenes* ar lenni *Plato*, gan ddywedyd ei fod yn mathru ei falchder ef. O'r blaen y byd oedd y peth anhepcor ganddo, a gwnae swy er mwyn elw nac er mwyn duwioldeb, *i Tim. vi. 6.* Mwy er boddhau ei gyfaill, neu ei gnawd, nac er bodloni ei *Greawdwr*: Gadawai i Dduw aros, nes i'r byd gael ei wasanaethu yn gyntaf; i'r awrhon cant hwythau sefyll heibio, ac anwylach ganddo Grist na thad, na mam, na bywyd, na'r cwbl oll,

Wele yntau, ystyria ennyd, ac edrych o'th fewn, onid yw hyn yn berthynol iti? Pa un ai Crist ai'r byd sydd yn dy reoli di? mmha un o'r ddau yr ymhyfrydi iwyaf? Onid wyt i yn ymglywed yn yscafnach pan fo'r byd yn tyccio iti, a phethau cnawdol yn dy lonni, na phan fydddech mewn gweddi a myfyrdod ddirgel, neu ynglyhoeddus addoliad Duw? Eglur fod cyflwr y dyn hwnnw

hwennw yn anrasol a fyddo a'r byd yn uchaf yn ei serch a'i amcanion, i Joan ii. 15. Jag. iv. 4.

Crist sydd yn cael y bennaduriaeth yn y gwir rasol. Ei Enw sydd anwyl ganddo, ai arogl yn beraidd iddo. Can. Sol. i. 3. Psal. xlvi. 8. Mae Enw yr Jesu wedi ei argraphu ar ei galon ef, Gal. iv. 19. A bydd fel pwyfi myri h rhwng ei fronnau, Can. i. 13. Pan ymddangosof Crist ir enaid, gwelir nad yw anrhymeddedd fyddol ond gwynt, na chwerthin ond gwaliogof, a sylrh Maminon fel Dagon o flaen yr Arch, a'i ddwyleo a'i ben wedi torri. Crist yw gobaith, a thryffor, a maen gwerthfawr y dychweledig, Matt. xiii. 44, 45. Ei orfoledd ef ydyw bod ei anwylyd yn eiddo ef, ac yntef yn eiddo ei anwylyd Can. Sol. ii. 16. Gal. vi. 14. A hynny sydd well ganddo na bod y bydyn eiddo ef.

Yn bedwerydd, troiff gras ddyn oddiwrth gau hyder ar ei gyflawnader ei hun. Cais pechadur guddio ei noethni a dail a darddo o hono ef, a llysu ei friwiau a'i da-fod a'i ddyledswyddau ei hun, Phil. iii. 6, 7. Mic. vi. 6, 7. Tueddol yw i hyderu arno ei hun, Luc. xvi. 15; ac xviii. 9. Ac i dybied fod ei hatlingau yn aur; ac wrth geisio gosed ei gyflawnader ei hun, ymosgwng i gyflawnader Duw, Rhuf. x. 3. Ond gras a newid ei feddwl, ac a beriff iddo weled nad yw ei gyflawnader ef ond cadachau prydodog, misglwyfus, Esay lxiv. 6. A gwna hynny ef yn dlawd yn ei yspryd, Matt. v. 3. Gan ei holi ai farmu ei hun, Rhuf. vii. A chwyno ei fod yn druan, yn resynol, yn dlawd, yn ddall, ac yn noeth, Date. iii. 17. Cydnebydd fod llawer o anwirreddau yn ei bethau goreu ef, ac nad yw ei gyflawnader ef ond c'nawd a cholled, ac ni fynniff er yr holl fyd ei gael ynddo, Phil. iii. 4, 7, 8, 9. Bydd ei fys yn oesfadol, ar ei friwiau, ei bechodau, ai ddiffygion, Psal. li. 3. A gweliss fod cyflawnader Crist yn beth gwerthfawr, a dymunol ac anghenrheidiol iw gyflawnhau ef; a'i ddyledswyddau: Ni lesus ddyfod i wydd Duw mewn gweddi heb Crist gyd ag ef. Pwyfa ar law Crist, ac felly

felly, yr ymgrymma, yn nhŷ ei Dduw: *Ei sywyd ef sydd guddiedig yn Ngbrisf*, fel y bywyd naturiol yn y galon: Ac mae ei enaid ef yn gwreiddio yn ei Achubwr, fel pren yn y ddaiar, ac yn cael ymborth, twf, a chadernid oddiwrtho ef; o'r blaen, diflas oedd ganddo yr Efengyl, ond yn awr melys yw hi iddo. Cyn ei droi difyr oedd gan *Augustin ddarllen llyfreu Cicero*, ond gwedi, cwynodd a diflasodd hwy, eisieu cael enw Crist ynddynt; a thra serchog y llefara efe wrth Grist yn ei fyfyrdodau; o felysaf, anwylaf, garedicaf, haelionusaf, werthfawroccaf Arglwydd, pa bryd y caf dy weled. a'm llonni a'th brydferthwch di? Dywed pob un grafол fel y merthyr, *Neb ond Crist*.

Y rhai y troiff y grafol attynt yw'r Drindod fendigedig y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd glan. Pan droer ac y fancteiddier dyn, gesyd ei galon ar Dduw yn bennaf, a dywed wrtho *sy rhan ydwyt i*, Psal. cxix. 57. *Yn yr Arglwydd y gorfoledda sy enaid*, Psal. xxxiv. 2. *Fy nis-gwiliad sydd oddiwrtho ef; efe yw sy ngbraig, a'm hiechyd-wriaeth, a'm hymdiffynfa*. *Yn Nuw y mae sy jechyd-wriaeth, a'm gogoniant, craig sy nghadernid, a'm noddfa sydd yn Nuw*, Psal. xviii. 1, 2; ac lxii. 1, 6, 7.

Os mynni wybod ydwyt i wedi cael troedigaeth ddirgrith, ystyr y pethau a ganlyn a'th enaid, a chwbl ac sydd ynot.

A gymeraisti Dduw yn ddedwyddwch iti? ym mhabeth y mae dy galon yn ymfodloni fwyaf? O b'le y daw y cyffur pennaf iti? Tyred ynteu, ac fel *Abraham derchafa dy olwg tua'r dwyrain a'r gorllewin, tua'r gogledd a'r deheu, edrych o'th amgylch*, beth a fynniti o'r nefoedd neu o'r ddaiar ith wneuthur yn ddedwyddol? Os cynnigiau Duw iti dy ddewis fel y gwnaeth i *Solomon*, neu os dywedai wrthiti fel *Abasuerus wrth Esther*, beth a fynniti a pha beth yw dy ddeisifyiad? A rhoddir it. Ystyr pa beth a ofynniti ganddo. Dos ir gerddi hyfryd, a hel lysiau per-aroglus, a fqdlonent hwy di? Dos i drysfordai *Mammon*, a chymer lawnder oddiyno,

oddiyno, Dos i uchelderau anrhydedd, beth meddi di
 am fod yn enwog megis rhai mawrion y ddaiar? A eill
 y rhain i gyd dy fodloni di, a'th wneuthur yn ddedwydd
 yn dy dyb dy hun? Os gallant, yr wyt etto yn gnaw-
 dol, ac heb dy ddychwelyd drwy ras. Ac oni allant,
 dos ymmhellach at odidowgrwydd Duw, Edrych ar
 drysorau ei drugareddau, amddyffynfa ei Hollalluo-
 grwydd ef, dyfnderau ei anfeidrol lawnder, a'i Hollddi-
 gonolrwydd ef; a ydyw'r rhain hyn yn gymwys i'th
 ddeffygion di, ac yn rhyngu bodd iti oreu? Ydwyt
 yn dywedyd, *Da ydyw bod yma*, Matt. xvii. 4. Yma yr
 arhosaf, yma y byddaf fyw a marw: A fodloni di i
 golli pob peth yn y byd yn hytrach na phethau Duw?
 Yna dedwydd wyt o ddyn, gwyn dy fyd erioed dy
 eni, Canys Duw a'th wnaiff yn fendigedig, wrth ei gym-
 eryd ef i fod yn Dduw iti, *Deut.* xxvi. 17. Os wyt i
 dywedyd wrth Grist fel y mae ef yn dywedyd wrthym
 ni, Dy Dad ti a fydd yn Dad i mi, a'th Dduw di fydd
 yn Dduw i mi, *Joan* xx. 17. Dyma'r peth sydd yn
 troi'r clorian wrth bwysol cyflwr dyn. Nid yw proffesiwr
 afiachus yn cymeryd ei orphwystra yn Nuw. Ond
 gwir ras sydd yn troi'r galon oddiwrth ei holl eulynod
 at y Duw byw, i *Theff* i. 9. Na medd yr Enaid,
Arglwydd at bwys yr af i? *Gennit ti y mae geiriau by-*
swyd tragwyddol, Joan vi 68, Dyma lle mae 'n sefyd-
 lu, a llawenydd nefol iddo gael gweled ei hawl yn Nuw,
 a phan fyddo hynny yn eglur iddo, dywed, *dychwel o*
fy Enaid i'th orphwysfa, canys yr Arglwydd fu dda
wrthit, Psal. cxvi. 7. A pharodol fydd i anadlu can
 Simeon, *yr awrhon Arglwydd y gollyngi dy was mewn*
tangneddyf, Luc. ii. 29. A dywed fel Jacob pan ad-
 fywiodd ei hen galon ef wrth y newyddion croesawys;
 digon ydyw, Gen. xlvi. 28. Pan welo fod ganddo Dduw
 mewn cyfammod i fyned atto, hynny fydd ei holl
 jechydwriaeth, a'i holl ddymuniad, 2 Sam. xxiii. 5. O
 ddyn ai fel hyn y mae dy gyflwr, a gefaisti brawf o hyn?
 Yna bendigedig ydwyt gan yr Arglwydd, yr hwn ai
 gweithiodd ynoti.

Yn

Yn enwedigol try'r edifeiriol at Crist gan ei fod i gyfryngu trosto, i Tim. ii. 5. Ai waith yw ein dwyn ni at ei Dad, i Pet. iii. 18. Ac ynteu yn ffordd atto, Joan xiv. 6. A'r drws drwy ba un yr eir i mewn iw wydd ef, ac iw gariad. Derbyniss yr enaid Crist yn ewyllyscar ac ynteu yr unic *Enw drwy ba un y rhaid i ni fod yn gadwedi*, Col. ii. 6. Act. iv. 12. Nid Edrych am Jechydwaeth oddiwrth neb arall, bwrw ei hun arno ef yn unig, fel y neidia'r nosiwr o long-ddrylliad ir mor ai freichiau ar led : Medd efe, dyma'r lle y ceisias noddfa ynddo, ac os derfydd am danaf, darfydded : Ond Arglwydd edrych arnaf a golygon dy drugaredd ; na phar i mi ymado a thi, i gilio oddiar dy ol di : Dyma lle'r ymraddaf, os methri, os lleddifi, nid af oddiwrth dy ddrws, Job xiii. 15.

Fel hyn y bydd ir Enaid grafol lwyr fwriadu glynus wrth Crist, er iddo cyn hynny roddi ei fryd ar dyddyn, cyfeillion, a masnach, Matt. xxii. 5. Yn awr bydd Crist yn guach ganddo na'i ymborth angenrheidiol fel bywyd ei galon, a'i chynhaliad, Phil. iii. 9. Ei aywydd-fryd yw ar *fawrygu Crist ynddo*, Phil. i. 20. Unwaith dywedodd ei galon fel y rhai gynt wrth y briodas-ferch, *beth yw dy anwylyd rhagor anwylyd arall?* Can. Sol. v. 9. Pan gafai fwy difyrrwch mewn cyfeillach ofer, a chwareuon drwg, ac hyfrydwch daiarol, ac y tybiai nad oedd crefydd ond breuddwyd ; ond yr awr hon, gwel *fwy godidowgrwydd mewn gwybodaeth o Crist*, Phil. iii. 8. A da fydd ganddo, bob peth perthynol i Crist, nid y gwobr yn unic ond y gwaith hefyd, Rhuf. vii. 12. Nid y fael yn unic ond ei faich hefyd, nid yw ewyllyscar yn unic i drin yr yd, ond i dynnu dan yr jau hefyd, i dderbyn ei orchymynion a'i groes ef, Matt. xi. 29 ; ac xvi. 24.

Nid una y rhagrithiwr a Christ ond yn hannerog, bodloniiff i dderbyn cadwedaeth oddiwrtho, ond ni fyn sancteiddiad : Bodlona i dderbyn rhoddion Crist, ond ni waeth ganddo am ei orchymynion ef, nai swydd :

Dyma gamgymeriad yn sail jechydwriaeth : yr hwn sydd hoff ganddo ei fywyd gocheled rhagddo, amryfusedd peryglus yw, ac etto y mae 'n gyffredinol ymysc pobl, Er bod enw yr Jesu yn hyfryd, etto ni hoffant mono mewn purdeb, *Eph.* vi. 24. Ni fynnant mono fel y mae Duw yn ei gynnig ef, i fod yn dywysof ac yn jachawdwyr, *Act.* v. 31. Gwnaeth Duw ef yn Frenin, ac yn offeiriad, a nhwytheu a wahanant yr hyn a gysylltodd Duw; mynnant wareidiad oddiwrth ddialeddau, ond nid oddiwrth eu pechodau ; ac os gadawant rai, nid ymrthodant a hwynt yn gwbl, nid ymyscarant oddiwrth *Dalila* ac *Herodias*. Nid allant ddigio wrth y llaw a'r llygad deheu, yn y peth hynny rhaid i'r Arglwydd faddeu iddynt, 2 *Bren.* v. 18. Och ! am fywyd eich enaid byddwch ddichlin yma : Pob gwir gredadyn a dderbyn Crist yn gyflawn heb na'i rannu, na'i derfynu, ac ar ei ammodau ei hun, i reoli ac i achub ; dywed fel *Paul*, *Arglwydd beth a fynni di i mi ei wneuthur ?* *Act.* ix. 6. Cynnig ei hun fel memrwn i Crist, fel y byddo iddo ef yscrifennu arno 'r peth a fynno, *Act.* ii. 37 ; ac xvi. 30.

Ymosodiff y gwir edifeirol i roddi usfydd-dod i hell orchymynion Crist, er iddo eu tybied yn rhy gaethion gynt, *Psal.* cxix. 111, 112.

Y mae pedwar peth hynod a weithia Duw yn y cyfrwyw yw dueddu i usfyddhau, ac wrthynt y gellwch chwi ddirnad eich cyflwr o byddwch ffyddlon i'ch eneidiau eich hunain ; am hynny bydded eich golwg ar eich callonau fel yr eloch rhagoch.

1. Daw'r meddwl i ddirnad daioni ffyrdd Duw, a gweliff eu bod yn gyflawn, a da, a chymeradwy, *Psal.* cxix. 112, 128, 137, 138. A'r rhagfarn galed anghyflawn ydœedd yn eu herbyn, a deflir allan o'r meddwl drwy oleuad rasol. A'r deall a gydnebydd eu bod yn sanctaidd, ac yn uniaawn, Rhuf. vii. 12. Difawr y cydnabyddei Dafydd eu godidowgrwydd hwy, ac aml fyddei yn ei canmol, *Psal.* xix. 8, 9, 10.

Berniff

Berniff Cristion fod gorchymynion Crist yn dda cyffredinol, ac yn dda iddo ef yn neilltuol; a'u bod nid yn unig yn oddefadwy, ond yn ddymunol hefyd, *ie yn fwy dymunol nag aur, ie nag aur coeth lawer*, Psal. xix.

Bydd ynddo farn ddiyrrwydd fod sancteiddrwydd yn foreu ar ei les, fel y gwelir wrth ei ganlyn. *Gwn o Arglwydd fod dy farnedigaethau yn uniaawn. Hoffais dy orchymynion yn fwy nag aur, ie yn fwy nag aur coeth. Uniaawn y cyfrifais dy orchymynion am bob beth, a chaseais bob gau hwyr, Psal. cxix. 127, 128.* Gwelai yn dda bob peth yr oedd Duw yn ei ofyn, ac yn ddrwg bob peth yr oedd efe yn ei warafun. *O Arglwydd dy boll orchymynion ydynt wirionedd, a'th farnedigeethau yn gyfawn*, Psal. cxix. 86, 160.

2. Bydd deisyfiad y galon i wybod holl ewyllys Crist, Psal. cxix. 124, 125, 169; ac xxv. 4, 5. Ni fynnai fod un pechod heb ei argyoeddi ynddo, nac un dyledswydd heb ei yspisi iddo. Anadliad ei enaid yw am yr Arglwydd ei chwilio, a dangos iddo os oes ffordd anwired ynddo, a dyscu iddo yr hyn nis gwyr, a lle gwnaeth ddrwg, dymuna nerth gras, fel nas gwnelo hono mwy: *Ond y mae 'r rhagrithiwr yn anw, bodus i wirfodd, 2 Pet. iii. 5.* A chas ganddo ddyfod ir oleuni, *Joan* iii. 20. Y mae rhyw bechodau y mae f yn ewyllysio eu cadw, am hynny ni fynn wybod eu bod hwy yn bechodau, ac ni ollwn oleuni i mewn drwy ffeneestr a fyddo'n agos attynt. Y galon rasol a gais wybod ehengdra cyfraith ei wneuthurwr, *Psal. cxix. 8, 19, 27; 33, 64, 68, 78, 108, 124.* Gwel y gair m haeddu pob derbyniad a'i argyoeddo o ryw bechodedd guddiedig rhagddo or blaen, ac ai annoga i ryw dyledswydd yr ydoedd heb feddwl am dano, *Psal. cxix. 11.*

3. Yr Ewyllys rasol yn gadarn ac yn rhwydd a ddevis Crist o flaen mwyniant pechod, a llwyddiant y byd, *Psal. cxix. 103, 127; 162. Bawriada na throfesedd, Psal,*

Psal. xvii. 3 a dewis ffordd gwirionedd, Psal. cxix. 30: Y
 Nid yw yn cyd-fynnio o ran gofid yw gymell, nac yn fy- ia f
 bwyll, ond o'i wirfodd wrth hir ystyried godidowgrwydd y pethau sanctaidd a ddewis. Sicr yw y bydd i'n cnawd wrthryfela, er hynny deil y rhan gryfaf o'ewyllys ef gyda chyfreithiau Crist, a'i reoliad, ac ni thybia hwynt yn faich ond yn fendith iddo, i Joan v.
 3. Psal. cxix. 60. 72. Pan fo rhai diras yn cerdded ar ffordd Crist megis yn lleffetheiriog, bydd i'r yspryd redeg yn siriol ynddynt, Psal. xl. 8. Jer. xxxi. 33. A chyfrif gyfraith Crist yn rhwydd-did, Psal. cxix. 32, 45. Jag. i. 25. Bydd ewyllyscar mewn barddwch sancteidd-rwydd, Psal. cx. 3. A gwell fydd ganddo fuchedd dduwiol na chyflwr llwyddianus yn y byd. Byddin o'rhai y cyffwrddasai Duw a'i calon a aeth ar ol Saul i Sam. x. 26. A phan gyffyrddo a chalonnau e Ethroledigion, ant ar ol Crist, Matt. iv. 22. Ac wed i ras eu tynny, rhedant yn rhwydd ar ei ol, ac ymhyfrydant ynddo. Can. Sol. i. 4. Geisiant yr Arglwydd a'i holl ewyllys, 2 Cron. xv. 15. Ac ymgynnigiant wasanaeth yr Arglwydd yn rhwydd. Y mae ofn y fuddiol, ond nid yr unic gynhyrfwr mono yn y galorafol. Y mae Crist yn frenin ar bobl ewyllyscar ac nid rhaid iddo eu cadw dano drwy drais, an fod gras yn eu gwneuthur yn blant, nid yn gaethweision ac uffudhant o ran cariad; canys cyfraith Crist y hoffder y gwir gredodyn, Psal. cxix. 159, 163. 167 ai ddeisyfiad, adn. 5. 20, 40. ai ddigrifswch, adn. 77 92, 103, 111, 143. ai fyfyrnod, adn. 97. Psal. 2.

4. Bydd ei ogwydd ai egni ar gadw cyfreithiau Duw yn holl ysted ei fuchedd, Psal. cxix. 4, 8, 167, 168. Ei ofal beunyddiol ef fydd ar rodio gyda Duw. Annel at Berffeithrwydd, dymuna hynny, ac ymestyn atonni pheidia ag ymeginio am dano, ac ni orphwys no caffael gwared o bechod, a dyfod o hyd i gyflawn sancteiddiad, Phil. iii: 11, 12, 13, 14.

Yma yr ymddengys pudredd y rhagrithiwr, ewilly-
 ia sancteiddiad yn unic fel pont iw drosglwyddo i'r nef,
 ac ymosyn yn fanwl, beth yw'r mesur lleiaf o ras, a
 wasanaetha i'w ddwyn yno ac nis gwaeth ganddo am
 dim ychwaneg. Ond y gwir Gristion a ddymuna ych-
 waneg o ras, o herwydd fod sancteiddiad yn hyfryd
 ganddo, *Psal.* cxix. 97. *Matt.* v. 6. Ni ddeisyf yn
 mic gymaint ac ai cadwo allan o usfern, ond y mesur
 hwyaf a'r a allo ei gyrhaeddyd, ac at hynny y bydd
 i hynt, a'i ymarwediad *Rhuf.* viii. 1. *Matt.* xxv. 16.
 45 *Phil.* i. 20.

Defnyddion o hyn i gyd.

1. Ynteu y mae 'r hyn a ragfynegwyd ynglynch tro-
 digaeth rafol, yn dangos i ni fod y porth yn gyfing, a'r
 ffordd yn gul sydd yn arwain i fywyd, ac mai ychydig sydd
 ei chael, a bod mawr allu Duw yn dra rheidiol i
 roi pechadur yn jachusol at Jesu Grist.

2. Annoger ditheu Ddarllenyydd i edrych attat dy
 un, a pha beth a ddywed dy gydwytod wrthiti; onid
 dyw yn dechreu dy bigo di, gan ofyn, ai 'r hyn a rag-
 negwyd, yw dy ffordd di, a'th farn, a'th ddewis?
 Onid wyt i yn byw mewn rhyw bechod yn erbyn dy gyd-
 ybod, ac yn esceuluso rhyw dyledswydd? Onid yw
 y gydwytod yn myned gyda thi i'th ystafell ddirgel, ac
 dwyn ar gof iti anfynyched y darllenaisti, ac y gwe-
 diaisti yno? Ac onid yw yn cosio iti dy deulu, ath es-
 culusdra am eneidiau dy blant a'th weinidogion? O-
 id yw hefyd yn dy ganlyn ith siop a'th grefft, ac yn
 annod iti ryw ddirgelwch anwired yno? Onid yw yn
 al-gofio iti y tafarn-dai, a'r drwg gyfeillach yno, a'r
 mfer gwerthfawr a'r talentau a dreulaisti yno yn ofer?
 Onid yw yn dy ganlyn ith wely, ac yn darllen llith iti
 no o fewn y llenni?

O gydwytod gwna dy fwydd yn enw 'r Duw byw:
 ymer afel ar y pechadur hwn, dod gwyn arno, taro
 ar ei ysgwydd a'i galon dangos iddo'r gwir: Na
 enheithia iddo tra fyddo byw yn ei bechod. Deffro o
 gydwytod,

gydwybod pa peth sydd yn dy fryd o gyscadur ? Oes rheun cerydd yn dy safn ? A oddefi i'r pechadur farw yn fawesceulus am Dduw a thragwyddoldeb, heb ddywed ym dim wrtho ? O deffro at dy waith. Yn awr bydded i'nn pregethwr yn y tonwes lefaru, gwaedda nac arbeda yn derchafa dy lais fel udcorn, fel na ofynner Gwaed pechadur hwn ar dy law di,



P E N N O D III.

Yn dangos mor rheidiol yw Troedigaeth Rasol.

NI hwyrach y dywedwch, pa ham y mae cymmain o drwst ac o daerni ynglych yr un peth hyn sef y rhaid edifarhau a dychwelyd, *Act. iii: 19*. Ond rhaid i mi ddywed y wrthych chwi fod yr acho yn ei ofyn : Pe gallich fod gadwedig yn eich cyflwynol, myfi ach gadawn chwi yn llonydd. Ond nid oes gennif obaith gweled wyneb un pechadur yn y nef oddieithr ei droi yn drwyndl, ac ymroi i newydd-de bunched. Dywed Crist na ddichon dyn *weled teyrnaeth Duw oddieithr ei eni drachefn*, *Joan iii. 3.* Gan hynny ni ddylech ryfeddu fod eich gweinidogion mewn gwyr escor o'ch plegid chwi, ac yn daer am weled del Duw arnoch. Nid yw'r troedigaeth a ddosparthwyd gynneddf tra-rhagorol o ryw Gristion tal, onid cysnewid iadiad rheidiol i bob un cadwedigol.

Dyweddodd Rhufeinwr anrhyydeddus ydoedd ar frystud dwyn yd ir ddinas ar amser prinder a newyn, a morwyr yn rhuso hwyliau o herwydd bod yr hin yn arwio *Necessarium est Navigare, non est necessarium vivere*. Rydheitiach yw ein taith na'n bywyd : Y mae troedigaeth yn rheitiach i titheu na'th anadl ; yr un peth angenrheidiol yw troi at Dduw. Nid yw dy olud mor rheidiol

Oes rheidiol iti, gelli werthu'r cwbl, i brynu'r perl gwerth-
yn fawr, a bod yn ennillwr hefyd, *Matt.* xiii. 46. Gelli
dy gymadel a'th fywyd er mwyn Crist, a gwellhau arnat dy
d i'nn: A chael dy ddifenwi er mwyn enw Crist, a boi
ed ayn wynfydedig; je llawer gwelliti wradwydd er ei fwyn
ed nef, nag anrhwyddedd ffordd arall, *1 Pet.* iv. 4. *Matt.* v.
10, 11, 12. Oni chei droedigaeth rasol darfu am da-
hati byth, anoddefadwy fydd dy gyflwr yn dragywydd.
Ymddengys hyn mewn pum peth, canys heb y new
diad grafol hwn,

i. Ofer yw dy fod. Ond gresyn dy fod yn faich an-
fuddiol i'r ddaiar, neu fel defaden yngorph y byd,
heb fod yn dda i ddim: felly yr wytiau heb ras. O her-
Sol. wydd ewyllys Duw yr wytiau, ac y crewyd di, *Datc.* iv.
ii. Yr Arglwydd a'th wnaeth di er ei fwyn ei hun,
nain Dihar. xvi. 4. Gan dy fod yn ddyn a rhefwm ynot,
hynnytystria i ba beth i'th wnaethpwyd.

: 19 Edrych ar waith Duw yn dy gorff, a gofyn i ba-
ach o beth y cododd efe yr adail honno? Meddwl am gynnedd-
yflwfau godidawg dy enaid goruchel, a pha ham y rhoddes
d ni Duw hwynt iti, mai nid er mwyn boddhau dy gnawd
y nef sy gredig. Ni arfonodd Duw ddynion ir byd i fod fel
1-delw gwennoliaid, i hel pricciau a phridd i adeiladu ny-
yrnachod, ac i fagu. Cydnabyddai paganiaid fod i ddyn
aynnyrwyd ddiben mwy na hynny. *Yn ofnadwy ac yn rhy-
gweledol i'th wnaed*, fel y byddai iti glodfori Duw, *Psal.*
delw xxxix. 14. Y peth sydd waith godidawg a nefol.

hwy! O ddyn! gad i'th reswm gael y gader, oni weli yn
snewrysyn godi'r fath adail yn ofer? yr hyn a ddigwydd
oni wasanaethi Dduw. Heb ras i ba beth y byddi da?
frystyr wytiau fel offer cerdd gywraint a'i holl dannau wedi eu
n, a morri ac allan o dymer: Oddiethr i yspryd du dy gywe-
n arwario di drwy ras, a'th wneuthur yn felys dy sain, ni
everi sydd dy weddi ond udo anhyfryd i'w glustiau ef, *Ephes.*
edigai: 10. *Phil.* ii. 13. *Hof.* vii. 14. *Esay* i. 5. Yn
th anfy gyflwr naturiol y mae dy holl alluoedd yn llygredig,
d mo'r haid ei glanhau oddiwrth weithredoedd meirwon, cyn
aeidiad

y gallech wasanaethu'r Duw byw; Heb. ix. 14: Tit. i. 15.

Nid all yr a夫an wneuthur gwaith Duw, mae'n anghynefin a gwaith megis a gair cyflawnder, *Heb. v. 12.* Y mae dirgelwch yn ymarferion gydag yn ngwyddorion duwioldeb, ac ni wyr yr anrasol *ddirgeledigaethau teyrnas nefaeedd*, *Matt. xiii. 11.* 1 Tim. iii. 16. Nid gwiw disgwyl ir dyn naturiol wneuthur gwasanaeth cymeradwy i Dduw, mwy nag ir anlythrennog ddarllen; canys rhaid yn gyntaf iddo gael ei ddyscu gan Dduw, *Joan vi. 45.* Ei ddyscu i weddio, *Luc. xi. 1.* i well-hau. *Ezay xlvi. 17.* i gerdded, *Hos. xi. 3.* A chyda bod y naturiol yn anfedrus ir da, y mae efe hefyd yn ddinerth iddo, ai galon yn wan, *Ezec. xvi. 30.* Ac yn hawdd ganddo flino; dywed am y *Sabbath, pa flinder yw?* *Mal. i. 13.* je nid yw wan yn unig, *Rhuf. v. 6.* Ond yn *farw hefyd mewn pechod*, *Fphef. ii. 5.* je nid des ganddochwant at ddim da, *ni ewyllyisia wybod ffyrdd Duw*, *Job xxi. 14.* *Ni wyddant ac ni ddeallant*, *Psal. lxxxii. 5.* Nid oes ganddo chwaith mo'r offerau na deifydd tuag at wneuthur daioni, gan ei fod heb rasau yspryd Duw. Nid yw cardod-wasanaeth i Dduw ond i wag-ogoniant oddieithr i gariad duwiol estyn y llaw i'w rhoddi. Nid yw gweddi o'r gwefusau heb ras yn y galon, ond corph heb fywyd. Ni thal cyffessu pechod ddim oni bydd ynddo forriant duwiol ac edife-irwch ddifrifol: Nac erfyniad heb ffydd yn addewidion Duw, a dymuniad dduwiol; na diolch geneu heb de-imlad o ddaioni Duw yn y galon: Gall un ddisgwyl i'r coed lefaru, ac i'r anifeiliaid ymresymmu, ac ir marw gerdded, gystal ac ir dyn annuwiol wneuthur y peth y fyddo da gan Dduw: Tra fyddo'r pren yn ddrwg, nid all ei ffrwyth mo'r bod yn dda, *Matt. vii. 18.*

Ac nid yw'r anianol yn unig yn ddiduedd i'r da, ond yn llawn drwg hefyd, fel cawell o adar a夫an, *Datc. xviii. 2.* A bedd llawn o bydredd, *Matt. xxiii. 27.* Corph marw ffiedd, yn llawn pryfed ac arogl drewllyd

Psal. xiv. 3. Ystum flin ! ynteu gwel rheited iti dderbyn gras. Blin oedd ir guddewon weled llestri aur y deml yn nwylaw anghred, ai arferu at feddwdod ac eulyn addoliad, *Dan.* v. 2, 3. A gweled *Antiochus* yn gosod llun mochyn yn agos at gyntedd y deml : Blinach fuasai iddynt weled pesci moch yn y deml, a gwneuthur y sanctaidd sancteiddiolaf yn dom-dy fel y gwnawd teml *Baal*, 2 *Bren.* x. 27. Och ! hyn yw cyflwr yr anrasol. Troir ei holl aelodau yn offerau anghyfiawnder, *Rhuf.* vi. 19. Yn weision i Satan : Ai alluoedd pennaf yn gelloedd afleidid, *Ephes.* ii. 2. *Tit.* i. 15. Gellir dirnad y pethau sydd oddifewn wrth y pethau sydd yn dyfod allon o honaw : *O'i galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, tor-priodasau, godinebau, lladradau, camdyftiolaethau, cablau*, Matt. xv. 19. Y gad ddu hon sy'n dangos fod uffern oddifewn.

Ond gresyn gweled yr enaid goruchel wedi ei wneuthur yn gaeth-was i fryntni, ac Arglwydd y byd, gogoniant y creadigaeth, y pennaf o ffyrrd Duw, wedi troi yn afradlon, ac yn haffio yn y cafn gyda moch, ac yn llyfu chwdfa. Galar oedd gynt weled y rhai a feithrin-wyd mewn scarlad yn cofleidio yr 'tommennydd, a gwerthfawr feibion Sion cystal ag aur pur, yn cael eu cyfrif fel ystenau pridd, Galar-nad iv. 2, 5. Ac onid yw yn chwithach weled yr Enaid anfarwol ydoedd ar lun Duw, wedi myned yn llestr heb hoffder ynddo ? *Jer.* xxii. 28. O ddirmig anoddefadwy !

2. Ofer fydd ei'r creadigaeth gweledig hefyd heb fod rhai a dderbynient ras. Gwnaed pob peth i wasanaeth dyn, efe ddylei lefaru dros y Creaduriaid eraill, fel y tafod dros yr holl aelodau. Nid all y creaduriaid foliannu eu gwneuthurwr ond wrth fud-amneidio ar ddyn i lefaru drostynt. Dyn yw archoffeiriad y creaduriaid, i offrwm diolch drostynt hwy oll, *Psal.* cxlvii. ac cxlviii. ac cl. Ardreth moliant sydd ddyledus i'r Arglwydd oddiwrth ei holl weithredoedd, *Psal.* ciii. 22. yr hyn

y mae 'r creaduriaid eraill yn ei ddanfon drwy law dyn, ac o's efe a fydd anffyddlon, gwneir cam i Dduw, a siomir ef am y cwbl, fel na chaffo ogoniant presenol oddiwrth ei weithredoedd.

O beth erchyll i'w ystyried ! A ddarsu i Dduw adeiladu 'r byd mawr hwn, a dangos cymaint o'i anfeidrol allu ac o'i ddoethineb, ac o'i ddaioni ynddo, ac a fynni di fyned o'r cwbl yn ofer wrth fod Dyn ar y bai, yn ei yspeillio ef o'r gogoniant a haeddei efe am y cwbl ? Och ! meddwl am hyn, tra fydddech di yn anrasol; y mae 'r creaduriaid yn dy wafanaethu di yn ofer. Gwaith ofer i'th fwyd dy borthi di, ag ir fer a'r haul oleuo iti a'th wasanaethu, *Hof.* ii. 21, 22. *Barn.* v. 20. Ofer i'th ddillad dy gynhesu, ac i'th anifail dy ddwyn, ac i'r creadigaeth oll lafurio er dy fwyn di, rhoddant eu ffrwyth iti fel y byddo iti a hynny ogon-eddu eu creawdwr, ac onis gwnei hynny y maent yn cyd-ocheneidio, ac yn cyd-ofidio, *Rhuf.* viii. 22.

3. Heb ras, ofer fydd dy grefydd, *Jag.* i. 26. Nid all dy ddylediwyddau crefyddol na rhyngu bodd Duw, *Rhuf.* viii. 8. Na lleshau dy enaid, i *Cor.* xiii. 2, 3. Er i'th wasanaeth fod yn olygus, etto heb ras ni bydd hyfryd gan Dduw mono, *Esay* i. 14. *Mal.* i. 10. Peryglus yw cyflwr y dyn y byddo ei aberth yn fiaidd, a'i weddi fel anadliad drewllyd, *Esay* lxvi. 3. *Dihar.* xxviii. 9.

Bagad dan gnofa cydwybod a fwriadant wellhau peth, ac a dybiant y gallant ymjachau drwy ychydig Elusenau, a gweddiau, heb ystyried nad all eu dylediwyddau leshau, eisieu eu dyfod oddiwrth galon sanctaidd. Gwrthodwyd *Jehu* er maint y wnaeth o herwydd nad oedd ei galon yn uniawn, 2 *Brenh.* x. *Hof.* i. 4: Er bod *Paul* yn ddiargyoedd mewn bagad o bethau, etto collodd y cwbl a wnaethei cyn ei droi, *Phil.* iii. 6, 7. Meddwl pobl wrth ddyfod at addoliad Duw, eu bod yn haeddu yn dda ; a byddant barod i ddwyn hynny a gof ger bron Duw, er ei annog ef i'w gobrwyd, *Esay* lviii. 3. *Matt.* vii. 22. Heb ystyried fod ei gweithredoedd

redoedd yn anghymeradwy tra fyddo eu calonnau yn afan.

O Enaid pechadurus ! pan fyddo dy anwiredbau yn pwysfo arnat, na thybia y gall ychydig weddio neu ddiwygio, heddychu Duw, rhaid iti ddechreu ar y golon, oni bydd honno wedi ei hadnewyddu, ni elli fodloni Duw, mwy nag y gallai un a wnai gam a thi, ac a syrthiai mewn brunt i ymgymmodi a thi wrth dy gofleidio a'i freichiau tomlyd.

Gofidus yw cymeryd poen yn ofer. Dychymygau'r Prydyddion benyd *Sisiphus* yn flin, orfod iddo yn oestadol dreiglo maen mawr yn erbyn y rhyw, a phan fyddai agos wedi dyfod i fynu i ben yr allt, dychwelai tuag i wared eilwaith, a gwnai ei boen yn ofer. Y mae Duw yn bygwth pobl anufydd y gorfydd iddynt adeiladu tai heb drigo ynddynt, a phlannu coed heb gasclu eu ffrwyth, ond y cafai pryfed a dieithraid eu bwyta, *Deut.* xxviii. 30, 38, 39, 41. Ac o's blin gennym golli ein llafur naturiol, i hau ac i adeiladu yn ddifudd, pa faint flinach i ni golli ein gwaith crefyddol, i ni weddio, a gwrando, ac ymprydio yn ofer, canys colled tragwyddol yw hynny ? Oh ! na thwyller di, os parhei mewn ffordd ddrwg, er iti *estyn allan dy ddwylo, se guddia Duw ei lygaid, er iti weddio llawer ni i wrendy efe,* *Esay* i. 15. Os un anfedrus aiff yn chwthig yngylch eich gwaith, ai anrheithio, ni roddwch iddo ond ychydig ddiolch, er iddo gymeryd cryn boen. *Torrodd Duw ar y rhai ni cheisient ef yn y modd y dylasent,* *1 Cron.* xv. 13. Rhaid gwneuthur gwaith Duw yn ol ei orchynn myn ef, sef a chalon sanctaidd, *2 Cron.* xxv. 2.

4. Heb ras ofer fydd dy obaith, *Job* viii. 12, 13. *Yr Arglwydd a wrthododd dy hyder di,* *Jer.* ii. 37. Nid oes dim cyffur i'w gael yma hebddo ; pwy bynnag a'roddio mewn llwybrau ceimion nid edwyn heddwch *Esay* *Esay* lix. 8. Yn unig y sawl a roddio yn ofn yr Arglwydd a gaiff ddiddanwch yr Yspryd glan, *Act.* ix. 31. Y mae

mae'r Arglwydd yn traethu heddwch yn unig i'w bobl ac i'w Saint, *Psal.* lxxxv. 8. Nid Duw sydd yn llefaru'r heddwch twyllodrus yr ydych yn ei gael yn eich pechodau, *Efay* i. 5. A gwahanglwyl yn y pen, *Lef.* xiii. 44. ie pla yn y galon, i *Brenh.* viii. 38. A drylliad escyrn, *Psal.* li. 8. Y mae'n archolli ac yn gwanu, i *Tim.* vi. 10. Am hynny nid gwiw disgwyl esmwythdra ynddo.

O ddyn annedwydd, nid elli gael gronyn o esmwythad yn dy gyflwr, onid a gafoch oddiwrth drymder dy ddolur! Dan ymlefydd dywed ei fod yn wych, pan fyddo marwolaeth yn ei wyneb ef; cais godi er bod y cam nefaf ir bedd. Er i'r anwireddus ei dybiaid ei hun yn jach, a gwrthod y physygwr, tra peryglus yw ei gyflwr.

Y mae pechod yn cythryblu'r enaid y mae temestl yn y meddwl anfodlongar, a gofal sydd yn cnoi'r galon, a gwyn ddig yn ei phoethi, a thrachwant yn ei rhoddi ar dan. Beth yw Balchder onid chwydd marwol, a chybydd-dod onid syched a chyfpa annigonol, a mai is onid gwenwyn yn y galon? Beth yw'r diogelwch cnawdol onid hun-glwyf marwol? A pha fodd y gall yr enaid hwnnw gael gwir gyffur a fyddo dan gymaint o glefydau? Ond y mae gras yn jachau'r meddwl, ac yn cymhwysyo'r enaid i esmwythdra parhaus: *Heddwch mewr* sydd i'r rhai a garant gyfraith Dduw, ac nid oes dramgydd iddynt, *Psal.* cxix. 165. *Ffyrdd doethineb* sydd ffyrdd hyfrydwch, a'i llwybren sy heddwch, Dihar. iii. 17. Cafodd Dafydd fwy hyfrydwch yn y gair nag yn ei lys, *Psal.* cxix. 103. 127. Nid all y gydwybod gael ei glanhau, *Heb.* x. 22. Yr heddwch pechadurus a felldithir, *Deut.* xxix. 19, 20. Cytundeb a phechod a heddwch ynddo, sydd waeth na holl helbulon y byd.

Hefyd ofer yw gobaith am jechydwriaeth yn ol hyn, heb ras yma; ie gwaeth nag ofer, sef dinistriol ir dyn ei hun; a gwrth'nebus i Dduw. Y mae marwolaeth a chabledd

chabledd ym mol y cyfryw ryfyg: *Ei hyder a dynnir allan o'i luesty, ac a'i harwain at frenin dychryniadau,*
Job xviii. 14. Er iddo bwysô ar ei dy ni sait, Job viii.
 15. Fel adail amharus syrth ar ben y fawl a breswylio dano: Diweddiff mewn anobaith; *Pa obaith sydd i'r rhagwrithwr pan dynno Duw ei Enaid ef allan?*
Job xxvii. 8. Yna y bydd diben ar y cyfryw obaith:
 Yn siccer diweddiff gobaith y cyfawn, ond bydd hynny mewn perffeithrwydd, pan gaffo fwynhau'r peth a obeithiodd efe am dano; ond gobaith y drwg a ddi-weddiff mewn siomedigaeth, *Dihar. x. 28. Wrth farw gall y duwiol ddywedyd gorphenwyd, a'r annuwiol dinistrwyd.* A dywedyd am dano ei hun mewn gwirionedd, y peth a ddywedodd un arall mewn amryfusedd, yr ydys yn sy niftrywio oddiamgylch, ac yr ydwyf yn myned ymmaith, efe a symmudodd sy ngobaith fel pren, *Job xix. 10. Ond y cyfawn a obeithia pan sydd yn marw, Dihar. xiv. 32. Pan fyddo ei gorff yn wan*
 bydd ei obaith ef yn gryf, *Ei obaith ef sydd sywiol, Pet. i. 3. Ond gobaith rhai drwg sydd farwol, a chynnorthwyol i'w damnedigaeth. Pan fyddo marw dyn drygionus, Fe a ddarfu am ei obaith ef, a gobaith traws a gyfrgollir, Dihar. xi. 7. Torrir ymmaith ei obaith ef, ac fel ty prys coppyn y bydd ei hyder ef, Job viii. 14. Er iddo hyderu arni, etto daw marwolaeth ac a i yscuba ymmaith. Llygaid yr annuwlion a ddyffygiant, a'i gobaith fodd fel ymadawiad yr Enaid, Job xi. 20. Deil rhai cnawdol eu gobaith yn dynn nes i farwolaeth eu cymell i ollwng eu gafel: Pan darawo arf angen drwy'r afu, gollyngir yr enaid a'i obaith allan ar unwaith. Yn y bywyd hwn yn unig y mae gobaith yr annuwiol, i Cor. xv. 19. Am hynny truanaf o'r holl dynion ydynt, canys marwolaeth a'i gollwng i lawr'r pwll ofnadwy o anobaith dragwyddol.*
 Y mae cabledd yngobaith yr annuwiol hefyd, canys cais wneuthur Duw yn gelwyddog. Dywed yr Arglwydd er trugaroccet yw, nad achub efe yr neb a bar-hao

hao yn ei anwired, *Esay* xxvii. 11. 1 *Cor.* vi. 9. Ac nad all neb gael jechydwríaeth oddieithr ei wneuthur yn greadur newydd, *Gal.* vi. 15. Ac os un a ryfyga yn erbyn hyn, tybia na saif Duw yn ei air. Ni wasanaetha meddwl y bydd anghydfod rhwng priodoliaethau Duw, ac yr aiff ei Drugaredd ef yn erbyn ei wirionedd, fel y caiff y pechadur rhyfygus weled i'w ofid tragwyddol.

Gobeithiai Dafydd yngair Duw, *Psal.* cxix. 81. Ond gobaith ddi-edifeiriol sydd yn erbyn ei air ef, am hynny y mae efe yn ei gwrtihod, ac yn barnu yn euog y fawl a *ymgynbaliant wrth yr Arglwydd ac a ant ymm-laen yn eu hanwiredau*, *Mic.* iii. 11. Ni fynn efe moi wneuthur yn attag i bechod, eithr yscydwiff y rhyfygus oddiwrtho fel yr yscwyd un eithin; a mieri oddiwrth ei wisc, *Esay* xlvi. 1, 2. Gwir obaith a bura ddyn, 1 *Joan* iii. 3. Ond gau yw'r hon sydd yn meithrin drwg: Rhaid gochelyd rhyfyg mewn cyflwr annuwiol, *Act.* ii. 37. Canys heb *sancsteiddiad ni chaiff neb weled wyneb Duw*. A gochelyd anobaith hefyd pan edifaro un, ac yr ymroddo i arfer moddion gras.

5. Heb droedigaeth rasol, ofer fydd iti yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd Crist, *Joan* xiii. 8. *Tit.* ii. 14. Canys ni chei jechydwríaeth hebddi. Bu farw Crist dros bechaduriaid, etto ni chaiff neb ond yr Edifeiriol y budd o hynny, 2 *Tim.* ii. 19. Ynteu ceisiwn wybod beth a wnaeth Crist erddom ni, a pheth a wnaeth efe ynom ni. Heb yr ailenedigaeth nid oes hawl i neb ymreintiau prynedigaeth. Nid achub Crist neb ond ym y dresn yr ordeiniodd y Tad Nefol, ac fel y rhoddwyd awdurdod iddo, *Esay* xlvi. 1. *Joan* xvii. 2. Am hynny y mae Crist cyn gadel y byd yn rhoddi cyfrif ir Tad am y ddwy ran hynny ei swydd, *Joan* xvii. 4, 6, 12.

Y drefn a'osododd y Tad ac a ddilyn Crist, yw dwynd pobl drwy sancsteiddiad i jechydwríaeth, 2 *Theff.* ii. 13. Dewiswyd rhai i sancsteiddiad, ac i gael maddeuant a bywyd oddiwrth Crist drwyddi, *Ephes.* i. 4. 1 *Pet.* i. 2.

Nid elli di newid Cyngor Duw, na gwneuthur i'r hwn
a feliodd efe fyned yngwrthwyneb i'w ewyllys ef. Y mae
Crist yn achub y rheini yn unig, a roddes y Tad iddo
drwy etholedigaeth, ac a dynnodd atto ef drwy alwad
effeithiawl, *Joan* vi. 34, 37, 38.

Hefyd y mae priodoliaethau Duw yn gofyn hyn, sef
ei gyfiawnder ef a dal i bawb yn ol eu gweithredoedd,
Rhuf. ii. 5, 6. Pe gallai pobl hau i'r cnawd, ac o'r
yspryd fedi bywyd tragwyddol, *Gal.* vi. 7, 8. Tywy-
llei hynny ogoniant cyfiawnder Duw; a phe rhoddid i'r
drwg yn ol gweithredoedd y cyfawn. Ni oddef fanc-
teiddrwydd Duw i neb gael preswylio gydag ef ond rhai
sanctaidd: Y mae 'r aflan yn ei olwg ef yn waeth na
moch a nadroedd, *Matt.* xxiii. 33: 2 *Pet.* ii. 22. Ni
chyd-ddwg neb glanwaith a moch tomlyd wrth ei fwrdd,
neu yn ei stafell-wely. Ac ni s yn purdeb anfeidrol Duw
bobl fryntion i breswylio gydag ef, *Nid allant sesyll yn*
ei farn, nac yn ei wydd, *Psal.* i. 5; ac v. 4, 5. Gan
na oddefai Dafydd dduwiol y fath hynny yn ei dy, nac
yn ei olwg, *Psal.* ci. 3, 7. Anrhesymmol i ni dybie*l*
gwna Duw hynny. Pe cymmerai Duw bobl o'r Cut
i'r Pntteindy i'r nef, tybid nad yw mor gas ganddo be-
thod ac y dywed yr yscrythyr ei fod: Ai fod ef yn de-
wyg iddynt hwy, fel y meddyliodd rhai o herwydd ei
diioddefgarwch ef, *Psal.* l. 21. Gwirionedd Duw he-
yd sydd yn siccerau hyn. Canys efe a ddywed o's
mfendithia dyn yn ei galon ei hun, gan ddywedyd, hedd-
uch sydd i mi, er i mi rodio ynghyndynrwydd sy nghalon:
Ni s yn yr Arglwydd faddeu iddo, eithr myga diglonedd
Arglwydd yn erbyn y gwr hwnnw, Deut. xxix. 19, 20.
Ac na chaiff neb drugaredd ond y fawl a addefo, ac a
dawo eu pechodau, *Dibar.* xxviii. 13. Ac nad e/cyn
snydd yr Arglwydd, ac na saif yn ei le sanctaidd ef,
nd y glan ei ddwylo a'r pur ei galon, *Psal.* xxiv. 3, 4.
Bcchadur anhydyn, na feiddia feddwl yr aiff Duw
erbyn ei air i arbed dy bechod di. Ni ad Doethi-
Nid ieb Duw iddo roddi y trugareddau pennaf i'r rhai na

wariant gyfrif o honynt, ac na bo gymwys iddynt, *Matt.* xxii. 5. Ni fwy gan y diedifeiriol am Crist, na chan yr jach am feddig; *Matt.* ix. 12. Gwael ganddo ei eli, a sethriffar ei waed, *Heb.* x. 29. Ni saif gyda doethineb Duw iddo gymmell maddeuant a bywyd ar y rhai ni ront ddiolch am danynt: Ni theifl efe mo'i bethau sanctaidd i'r cwn, na'i berlau i'r moch, y rhai a geisiant ei rwygo ef, gan iddo ommedd i ni wneuthur felly, *Matt.* vii. 6. Gwnae hynny Drugaredd yn dra dirmygus. Edrych Duw at ei ogoniant ei hun gyd ac at jechydwriaeth dyn. Ni fynn efe golli gogoniant ei ras, a'i daflu ymmaith i rai anewyllyscar ac anniolchgar. Gwelir doethineb Duw yn cymhwyso pethau iw gilydd, goleuni i'r llygad, fwn ir Glust, melysdra i'r archwaeth, a'r rhodd i'r derbyniwr. Pe dygid yr annuwiol i'r nef, ni chaent yno ddim a hoffent. Nid yr un pethau fydd hyfryd i anifeiliaid ac i ddynion. Byddai dyn drwg yn ynef, fel pyscodyn ar dir sych, allan o'i elfen, ni byddai 'r gymdeithas nefol gymwys iddo, nid all fod cymundeb rhwng tywyllywch a goleuni, rhwng brynti a gogoniant, ni byddai 'r mawl fydd yno yn gymwys i'w eneu na'i glust. Nid yw cerddoriaeth felys gan anifeiliaid, na'r feigiau goreu yn flasus ir cleifion. Yr hwn a dybia bregeth yn hir, a'r Sabbath yn flinder, *Mal.* i. 13. A benydid yn ddigon tost wrth ei ddal ef attynt tros byth: Cyfraith anghyfnewidiol Duw ydyw na chaiff neb ond y pur o galon weled Duw, *Matt.* v. 8, Nid all neb ym-hyrddu i'r nef yn ei gyflwr pechadurus heb wybod i Dduw, am fod ei wybodaeth ef yn anfeidrol; nac yn erbyn ewyllys Duw, am ei fod ef yn Hollalluog. Ai erdy fwyn di bechadur traws y summudir y graig allan o'i lle? *Job* xviii. 4. Ac y dymchwelir sylfeini cyfiawnder? Geiriau Crist yw y rhain, sef oddieithr eich troi chwi, nid ewch chwi addim i mewn i deyrnas nefoedd, *Matt.* xviii. 3. rhaid eich geni drachefn, *Joan* iii. 7. Oni olchaf di, nid oes iti gyfran gyda myfi, *Joan* xiii. 8. Onid edifarherwch chwi a ddifethir, *Luc.* xiii. 3. Tybia

biai un fod un gair oddiwrth Crist yn ddigon, eto y mae efe yn fynych ac yn ddifrifol yn ail-adrodd y peth hyn, yn wir, yn wir, *oddieithr genij dyn drachesn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw*, Joan iii. 3, 5. Ac fel y mae 'n haeru, felly y mae efe hefyd yn profi mo'r anghenrheidiol yw'r ail-enedigaeth o herwydd aflenid y cyntaf, *Joan* iii. 6. y wnaiff ddyn mor anghymwys ir nef, ac yw anifail i stafell Brenin. Yn-teu na choelia i'th rysyg dy hun o flaen gair Crist. Tyn-godd yr Arglwydd na chaiff yr anufydd *syned i merth i w orphwyssa ef*, Psal. lxxxv. 11. *Heb.* iii. 18. Trwy lw y siccrhawyd a thrwy waëd y feliwyd cyfammod y gras, *Heb.* vi. 17; ac ix. 16, 18, 19. *Matt.* xxvi. 28. Ac oni wnei hynny yn ofer, nid elli fod gadwedig heb Sancteiddiad. Y mae Duw yn cynnyg iti jechydwriaeth ar yr ammodau hawsaf ac y gynnygier byth.

Fel y mae Duw yn dangos cariad i'r pechadur, mae
ei aiarhydedd yn gofyn iddo ddangos casineb i'r pechod;
am hynny rhaid i'r hwn a *henwo Enw'r Jesu ymadel a ei anwired*, 2 Tim. ii. 19. *A naccau annuwioldeb.*
Rhaid i'r hwn sydd ganddo obaith bywyd drwy Crist
ei buro ei bun, megis y mae yntef yn bnr, 1 Joan iii. 3.
Tit. ii. 12. ac onide tybid fod Crist yn hoffi pechod.
Myn Duw i'r byd wybod nad ydyw efe yn llochi pechod,
er ei fod yn ei faddeu. Gan i Ddafydd dduwiol ddywe-
byth: *hyd, ciliwch oddiwrthyf holl weithredwyr anwired*,
Sal. vi. 8. Ac iddo gau'r drws yn eu herbyn,
sal. ci. 7. Oni ddisgwyl y cyfryw'r un fath beth gan
ybod i Crist sanctaidd? Ni byddei hardd iddo ollwng y cwn ar
ac yn i fwrrdd, neu adel i'r moch letteua gyda ei blant, a
Ai er wneuthwr monwes *Abraham* yn nyth gwiberod.

Y mae swydd Crist hefyd yn gofyn iddo ddarostwng
balch, ac arbed yr ufydd. Swydd tywyfog yw bod
a ofn i weithredwyr drwg, ac yn glod ir fawl a wnel
da, *Rhuf.* xiii. 3, 4. Gweinidog Duw, yw efe, dia-
edd llid i'r hwn sydd yn gwneuthur drwg. Pe cynhal-
i Crist bobl yn eu hanuwieldeb, a chymeryd y rhe-

ini i reoli gydag ef, y rhai ni fynnant iddo ef reoli ar-
nynt, byddai hynny yngwrthwyneb i'w fwydd ef, *Luc.*
xix. 27. Canys y mae efe yn rheoli i osod ei elynion dan
ei draed, i *Cor. xv. 25.* Perthyn i Crist ddarostwng
calonnau a lladd trachwantau ei rai dewisol, *Psal. xlvi.*
5; ac *cx. 3.* Ni chymer tywyfog wrthryfelwyr amlwg
iw lys rhag y frad eu canlyn. Gan fod Crist yn frenin,
efe a fynn anrhydedd, ac ufudd-dod, *Mal. i. 6.* Fel
na thywyller ei ogoniant, ac na ddirmyger ei awdur.
dod.

Fel y mae Crist yn jachawdwr, hefyd ei fwydd yw
gwaredu ei bobl oddiwrth eu pechodau, *Matt. i. 21.*
Ac nid eu cynwys ynddynt. Achubiff hwynt oddiwrth
benyd pechod a'i astenid hefyd. Fel y mae yn ware-
dwr efe *a dry ymmaith annuwieldeb oddiwrth Jacob*
Rhuf. xi. 26, *Anfonwyd ef i fendithio dynion trwy*
droi pob un o honyn ymmaith oddiwrth eu drygioni, *A&*
iii. 26. ac i *ddibennu camwedd.* *Dan. ix. 24.*

Cymhwysiad. Ynteu cyfod o gyscadur, deffro di-
bechadur diosel rhag dy ddifetha yn dy anwireddau
Dywed fel y rhai Gwahanglwyfus gynt, os trigwn yma-
ni a fyddwn feirw, 2 *Brenh. vii. 3, 4.* Nid oes ond
drws Edifeirwch iti i ddiangc drwyddo. Cyfod ddiogyn
ac ysgwyd ymmaith dy Escusodion, pa hyd y mynn
bepian a phlethu dy ddwylo i gysci? Dihar. vi. 10, 11
A gysci di ynganol y mor, a gysci di *ym mhen yr hwyf*
bren? Dihar. xxiii. 34.

Cyfod o ddyn a thyred ymmaith. Rheidiol iti weddi-
ar i'r Arglwydd Jesu eftyn ei law Drugarog iti, fel
gwnaeth yr Angylion i *Lot. Gen. xix. 15, 16.* Y rhai
a fuont daer arno gan ddywedyd cyfod rhag dy ddife-
tha: Yntef a oedd hwyrfrydig, *a'r gwyr a ymaflasant*
ei law ef, am dofturio o'r Arglwydd wrtho ef, ac a'i dy
gasant ef allan o'r ddinas gan ddywedyd diangc am di eni
oes, ac na saf yn yr holl wastadedd, diangc i'r mynyd
rhag di ddifetha.

Oh mor gyndyn fyddi i'th ddinystr os ymgaledi ych
wane

waneg yn dy gyflwr pechadurus ! Nid all neb o honoch-ddywedyd na chawfoch ddigon o rybydd ; er hynny ni wn i pa foddy ich gadel chwi, nid digon gennif waredu fy enaid fy hun, a myned ymماith heb rai o honoch chwitheu gyda mi. A fum i gyhyd o amser yn llefaru wrth y gwynt, neu 'n ceisio gwastad-hau tonnau'r mor a rhefymmau neu yn fwyno i neidr fyddar ? A lefarais i wrth gynnulleidfa o bobl fyw ; ai wrth feddau'r meirwon ? Ai wrth brenni y llefarais, ai wrth ddynion ? Os oes genych ddealltwriaeth dynion, ystyriwch i ba le yr ydych yn myned, ac na feiddiwch ruthro i'r tan, a neidio i uffern a'ch llygaid yn agored, ond yn hytrach ymosodwch i edifarhau. A ydych chwi 'n ddynion, ac a redwch chwi o'ch gwirfodd ir Pwll dwfn, pryd nad ellwch gymmell anifeiliaid i neidio iddo ! A gynnyscaeddwyd chwi a deall, ac etto a chwarewch chwi yn ymyl uffern, a digofaint yr Holl-alluog, heb bryffuro i ddiangc rhag gofidiau tragwyddol ? Anrhesymmol i chwi wrthwynebu'r Arglwydd a'ch gwnaeth, *Esay* xlvi. 9. Ac ymgaledu yn erbyn ei air ef, *Job* ix. 4. Canys cadernid *Israel* ni ddywed gelwydd, i *Sam.* xv. 29. Anoddefadwy yw bod dyn a greawdd Duw i'w amlygu ei hun iddo, ac i'w ogoneddu, etto yn anghyd-nabyddus a'i Greawdwr, ac yn anwasanaethgar iddo, ac yn poeri gwenwyn yn ei wyneb ef. Gwrandoed y nefoedd, a chlywed y ddaiar, a barned y creaduriaid di-deimlad, ydyw resymmol i ddyn wrthryfela yn erbyn Duw a'i magodd, ac a'i meithrinodd ef, *Esay* i. 2. Ai synhwyrol i fieri a drain ymosod mewn rhyfel yn erbyn tan ysiol, *Esay* xxvii. 4. Ac i'r llestr pridd ymdrechu a'r crochenydd ?

O ddarllenyydd ystyria dy gyflwr, a'r pethau a ddywedpwyd, nag eistedda ar y traeth nes i'r llanw dy an-gylchu. O feddwyn na ddos mwy at dy chwdfa na'r ffyrning at dy dwyll, na'r anllad at dy odineb, na'r rhag-rithiwr at dy ffurf farwaidd. Yr wyf yn ofni mae'r un peth a wnei rhag-llaw ac y wnaethost hyd yn hyn : } Am

Am hynny ! gorfydd i mi alaru am gymeryd poen yn ofer, ochneidio dros y gwrandoawyr a'r darllenwyr colledig.

O bechaduriaid gwyltton . beth a fydd eu diwedd ? Beth a wnant hwy yn nydd yr ymweliad, ac yn y destryw a ddaw, at bwy y ffoant am gynhorhwy, a phale y gadawant eu gogoniant ? *Esa, x. 3.* Och mor gadarn y darfu i'r pechod eu hudo, a Duw 'r byd hwn eu dallu ! Gallaf alw arnynt, ac ymrefymmu a hwynt yn ddigon o hyd, ond ni attebant : Hwy a ddilynant eu pechodau er maint a ddywedwyf ; er i mi daeru fod y ffordd lydan yn arwain i ddestryw, etto ant ymmlaen ynddi. Weithiau tybiaf y toddiff trugareddau Duw eu calonnau, weithiau y bydd i *ddychryn yr Arglwydd eu perswadio* ond nid oes dim ysywaeth yn eu hennill : Canmolant y gair, ond nid ufuddant iddo : Perchant weinidogion yr efengyl, ac ydwyfi iddynt *fel can un hyfrydlais*, etto metha gennyf gael ganddynt dderbyn iau Crist. Addawant yn deg heb gyflawni fel y Mab a ddywedodd, *myfi a af Arglwydd, ac nid aeth efe*, Matt. xxi. 30. Ni chaf ganddynt ddysgu gwyddorion crefydd, eithr mynnant farw heb wybodaeth, *Job xxxvi. 12.*

Och fy ngwrandoawyr truain ! A gollir chwi yn finteoedd er a allwyf ei wneuthur ? Pa fodd y *gwraf o herwydd merch sy mbobl* ? *Jer. ix. 7.* O Arglwydd Dduw cynnorthwya, oni wrandawant hwy fi, gwrando di fi ; Arglwydd achub hwynt, a gwared hwynt oddiwrth y tan y fydd yn ei hamgylchu hwynt, onide derfydd am danynt, gwna hyn a'th fawr allu.



P E N N O D IV.

Yn dangos Nodau y rhai annychweledig.

TRA fyddom yn bwrw at rai o hir-bell ni friwir neb, ond yr ymladd llawlaw sydd yn archolli. Ni ddeffrodd Dafydd tra'r oedd y Prophwyd yn llefaru ar ddammeg, nes iddo ddyfod yn nes atto, a dywedyd, ti yw yr gwr, 2 Sam: xii. 7. Braidd y gwada un-dyn nad yw'r ail-enedigaeth yn rheidiol, ond y mae gau hyder i'w twyll, sef ddarfod iddynt ei chael eisoes, heb ammeu yr rhagrith main sydd an-hawdd ei ganfod, ac yn peri i ddyn dwyllo ei enaid ei hun, Jag. 1. 24. Ac y mae twyll caton dyn mor aml, mor alluog, ac mor annirnadwy, onid yw yn dra rheidiol ei argoeddi, etto yn anhawdd ac yn beryglus ei ddinoethi.

Yma Arglwydd yr hwn wyt oleuni'n chwilio pob peth, amliga sail pwdr ei amryfusedd i'r hwn y sydd yn ei dwyllo ei hun; ac arwain fi o Arglwydd Dduw, fel yr arweiniaisti'r prophwyd i'r delw-gelloedd, a chloddia ym mharwydydd calonnau pechaduriaid, a dangos iddynt y ffieidd-dra cuddiedig: Ac anfon dy Angel o'm mlaen i agoryd cilfacheu eu calonnau, fel y gwnaethost o flaen Pedr, a gwna i'r pyrth haiarnaidd ymagor yd o'u gwaith ei hun: Ac megis y digwyddodd i Jonathan wrth brofi'r mel, gael llenferydd ei lygaid: fel y caniadta o Arglwydd i'r Eneidiau amryfuseddus a ddarllenant y leiniau hyn gael goleuo eu deall, ac argyddi eu cydwybodau, fel y byddo iddynt weled a'u llygaid, a chlywed a'u clustiau, a deall a'u calonnau, a dychwelyd fel y byddo iti eu jachau hwynt.

Rhagrybyddier di ddarlenydd y gall dynion rysgu bod eu calonnau a'u cyflwr yn dda pryd na byddant ond yn

yn afiach. Mae'r gwirionedd am hynny yn ymddan-gos yn nghyflwr *Laodicea*, y gall pobl fod yn druein, yn refynol, yn dlo-dion, yn ddeillion ac yn noethion, ac eto heb wybod hynny, ond yn taeru eu bod yn gy-foethogion mewn gras, *Datc.* iii. 17. Y mae cenhed-laeth lan yn ei golwg ei hun, er nas glanhawyd oddiwrth ei basfendid, *Dihar.* xxx. 12. Yr ydoedd *Paul* cyn ei droi yn hyderus o honaw ei hun, *Rhuf.* vii. 9. Am hynny ymochel fod gennitti gamgymeriad gref yn lle profedigaeth siccr am dy gyflwr ysprydol.

Fel y dywedir am ddilynwyr Anghrist, felly y digwydd mewn mesur i bob math ar bechaduriaid annychweledig, bod rhai o honynt yn dwyn Nodau yn eu talcenau yn amlwg, ac eraill yn ei dwylo yn ddirgelach. Ar rai pechaduriaid y mae'r Apostol yn yscrifennu barn marwolaeth. *Ephef.* v. 5, 6. *Canys yr ydych yn gwybod hyn am bob puttein-wr, neu a夫an, neu gybydd, yr hwn sydd ddel-w-addolwr, nad oes iddynt Etifeddiaeth yn nheyrnas Crist a Duw.* Na thwylled neb chwi a geiriau ofer, canys oblegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod a'r blant yr anufudd-dod, *Datc.* xxi. 8. Ond i'r rhai osnog, a'r digred, a'r ffiadd a'r llofruddion, a'r putteinwyr, a'r fwyn-gyfareddwyr, a'r eulyn-addolwyr, a'r holl gelwyddwyr, y bydd eu rhan yn y lynn sydd yn llosci a than a brwmstan. yr hwn yw'r ail farwolaeth, *i Cor.* vi. 9, 10. Oni wyddoch chwi na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw? Na thwyllechwi; ni chaiff na godineb-wyr, nac eulyn-addolwyr. Na thorw-r priodas, na masweddwyr, na gwrrywgydw-r, na lladron na chwyddion, na meddwon, na difenw-r. na chribddeilwyr etifeddu teyrnas Dduw. Edrychwch hefyd, yn *Gal.* v. 19, 20, 21. Gwae y rhai sydd a'u henwau o'r rhifedi yma, gall y rheini wybod yn ddiammeu eu bod yn annuwiol a than ddigofaint Duw. Sef:

1. Yr A夫an. Cyfrifir y rhai hyn ym mysc y geifr yn oestadol, a rhoddir eu henwau hwynt i lawr ym mhob cof-

cof-restr du, pwy bynnag a adawer allan, fel y gwele
wch yn yr yscrythyrau a grybwyllywyd uchod.

2 Y Cybyddion. Nodir y rhain am eulyn-addolwyr,
a chaeir drws y deyrnas yn eu herbyn hwynt.

3. Meddwon. Nid yn unig y rhai sydd yn boddi eu
synwyr; ond y rhai hefyd sydd gryfion i yfed ac i ddal
diod gadarn. Y mae'r Arglwydd yn adrodd llawer
gwae yn erbyn y rhai'n, ac yn mynegi nad oes iddynt
Etifeddiaeth yn nheyrnas Dduw; *Esay v. 11, 12, 22.*
Gal. v. 21.

4. Celwyddwyr. Dywed y Duw geirwir nad oes le
i'r rhai'n yn ei deyrnas ef, nac escyniad i'w fynydd ef,
ond bod eu rhan gyda thad y celwydd yn y llyn poeth,
a hwythau yn blant iddo, *Psal. xv. 1, 2. Date. xxi.
8, 27. Joan viii. 44. Dibar. vi. 17.*

5. Tyngwyr. Diwedd y rhai'n heb edifeirwch gy-
wyr, yw dinysfr cyflym, a damnedigaeth, *Jag. v. 12.
Zech. v. 1, 2, 3.*

6. Difenwyr ac absenwyr. Y rhai a ymhyfrydant
yn bwrw tom yn wynebau eu cymydogion, ac oni feidd-
iant hynny yn eu gwydd hwy, archollant hwynt yn
ddirgel o ol eu cefnau, *Psal. xv. 1, 2. Cor. vi. 10;
ac v. 11.*

7. Lladron, a gorthrymwyr, a thwyllwyr, a phawb
a ddaliant drwynau eu brodyr wrth y maen llifo, ac a
barant golled iddynt; rhaid i'r cyfryw ystyried fod yr
Arglwydd yn ddialydd arnynt oll, *I Thes. iv. 6.* Gwran-
dewch hyn chwi wenidogion anffyddlon, a chwithau
grefftwyr twyllodrus, a boneddigion traws: derbyniwch
eich barn. Cauiff Duw ei ddrws i'ch erbyn chwi, a
throiff eich tryfforau anghyfiawnder yn dryfforau digo-
faint, a pheriss i'r aur a'r arian a ennillasoch chwi ar
gram, fod fel plwm toddedig yn eich ymyscaroedd chwi
'ch penydio, *I Cor. vi. 9, 10. Jag. v. 2, 3.*

8. Holl ddirmygwyr addoliad Duw; y rhai a esceu-
usant wrando ei air, a galw ar ei enw; ni feddyliant
am eu heneidiau eu hunain, nac eneidiau eu teuluoedd,

eithr byw heb Dduw yn y byd, *Job* xv. 4. *Psal.* xiv. 4; ac lxxix. 6. *Epbef.* ii. 12; ac iv. 18.

9. Y rhai sydd yn hoffi cyfeillach ddrwg. Hyspyfa Duw y difethir y cyfryw, ac na chant ddyfod iw orph-wysfa ef, *Dihar.* ix. 6; ac xiii. 20. *Psal.* xv. 4.

10. Gwawdwyr crefydd, a watworant gennadon syfddlon, a gweision diwyd yr Arglwydd, ac a wnat ddigrifwch o gyftuddiau a gwendid pobl Dduw. Gwrand-ewch eich barn ofnadwy, *Dihar.* xix. 29; ac iii. 34. 2 *Cron.* xxxvi. 16.

O bechadur ystyr yn ddyfal ydwyt i yn yr un o'r llechi-refau a ragfanegwyd, ac os wyt i gwybydd dy fod ti ym mustl chwerwder a rhwymedigaeth anwired, canys y mae y rhai hyn i gyd a'r nod yn eu talcennau, ac ydynt blant marwolaeth yn ddiammeu.

Ac osfelly, Duw a dosturio wrth ein cynnulleidfa oedd ni. Pan dynner y deg math a henwyd uchod o'u plith och leied fydd rhifedi y lleill! Ar ba fawl drws, ac wneb y rhaid yscrifennu yr geiriau hyn, sef, *Yr Arglywydd a drugarbawr thym*, megis yr arferir pan fyddo haint marwol. Nid gwiw i ddynion ymeginio i gynnal ei rhyfyg tra fyddo Duw mor eglur yn tystio i'w herbyn. *Pa fodd y dy wedi, ni halogwyd fi, edrych dy ffordd yn y glyn, gwybydd beth a wnaeth o st,* Jer. ii. 23. Onid yw dy gydwybod, a'th gydnabod, a'th dylwyth yn tystiolaethu dy annuwioldeb, a'th dwyll, a'th falis, a'th gybydd-dod. Yscrifenwyd yn eglur megis a phelydr yr haul, yn y llyfr o'r hwn i'n bernir ni, nad yw'r pechodaau a grybwyllywyd frychau plant Duw.

O na bae i'r cyfryw yr awr hon ddychwelyd a throi oddiwrth eu holl gamweddau, *Fel na byddo anwired yn dramgywydd iddynt*, Eze. xviii. 30. Ond pa un bynnag a wnelo pobl ai gwrando ai peidio, gadawaf yr Ysgrythyrau hyn gyda hwynt, i'w deffro neu i'w serio, *Psal.* lxviii. 21. *Duw yn ddiau a archolla ben ei elynion, a choppa walltog yr hwn a rhodia rhagddo yn ei gamweddau*, *Dihar.* xxix. 1. *Gwr a gerydder yn fymysch*

ac a galeda ei warr, a ddryllir yn ddisymmwth fel na byddo meddyginaeth, Dihar. i. 24. Yn gymmeint ac i mi eich gwahodd, ac i cbwithau wrthod, i mi estyn sy llaw, a neb heb ystyried; minneu hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi, pan ddel diftryw arnoch megis corwynt.

Bellach yr ydwyf yn meddwl y bydd i fagad ymfen-dithio am eu bod yn ddiangol oddiwrth y pechodau gwrthyn a henwyd eisoes: Ond rhaid i mi ddywedyd i chwi fod math arall o rai pechadurus y fydd yn dwyn ei nodau yn eu dwylo, heb fod mor amlwg a'r lleill yn y talcennau, ac yn eu twyllo eu hunain ac eraill, wrth gael eu cymmeryd am gristianogion da, er eu bod yn fal eu sail. Llawer un a gollir drwy ryw bechod y fo cuddiedig rhag eraill, ac ni hwyrach i'r dyn ei hun, ei-sieu craffu ar ei galon yn ddiwyd ac yn ofalus. Y mae deuddeg o bechodau dirgel a ddygant laweroedd i gelloedd angeu. Creffwch arnynt megis nodau ar gyflwr peryglus. A'r rheini yw.

1. Anwybodaeth, yr hwn sydd yn lladd llawer enaid yn y tywyll, *Hos.* iv. 6. Ac ynteu yn ei dybied ei hun yn dda, ac ar y ffordd i'r nef. Dyma un sydd yn lladd llawer enaid dan dewi, pryd na byddont druein yn am-meudim, nac yn canfod y peth a'i niweidia, *Esay xxvii.*
 11. 2 *Thes.* i. 8. 2 *Cor.* iv. 3. Oh! ond gofidus ydoedd y golwg; pan gaewyd ar liaws o brotestaniaid mewn yscybor, ac y tywyfwyd hwynt o fesur un ag un a mw-gwd ar eu llygaid at gyff, lle lladdodd cigydd gwaedlyd hwynt y naill ar ol y llall? a phan feddyliom ni fel y mae anwybodaeth yn dirgel gigyddio miloedd o eneidiau, gan eu tywys yn ddeillion at y cyff, nid all ein calonnau amgen na gresynu. Nac escusodwch anwybodaeth; os arbedwch chwi ef, ni arbed efe monoch chwi: a lochi di leiddiad yn dy fynwes?

2. Cadw rhyw beth oddiwrth Grist: Tybied yn rhy galed ymadel a phob peth er ei fwyn ef, a thad, a mam, a bywyd: *Luc.* xiv. 26. Bodloni i rai dyleds-wyddau a cholledion er mwyn yr Efengyl, ond nid i'r

cwbl. Eiseu cwbl ymroddiad o honynt eu hunain i Grist a bwrw 'r draul wrth osod fail adeiladaeth eu crefydd, maent yn llaccio mewn profiad, *Luc. xiv. 28. Matt. xiii. 21.*

3. Ffurf grefyddol oddiallan : llawer a ymfodlonant ar fliscyn crefydd, heb y cynhwyllun, ac a dybiant yn dda o honynt eu hunain wrth wneuthur y tu allan o ddyledswyddau, *Matt. xxiii. 25.* Llawer enaid a dwyllir felly, ac a gyfrgollir ; a digwydd fod ffug crefydd yn waeth iddynt nag astendid cyhoedd, megis y gwelir wrth y *Pharisæaid*, *Matt. xxiii. 31.* Gwrandawant y gair, ymprydiant, a gwediant, a rhoddant elusen, am hynny ymhonnant o gyflwr da, *Luc. xviii. 11.* Gorhwyys yn y gorchwyl oddiallan, a bod heb fywyd oddimewn, a chynwys gobaith gwenheithus eu bod ar yffordd i'r nef, a'i dwg hwynt lle ni fynnent, *Matt. vii. 22, 23.* O dwyll ofnadwy !

4. Gau ddibenion mewn dyledswyddau crefyddol : hynny a anrheithiodd y *Pharisæaid*, *Matt. xxiii. 14.* Ac a fodda lawer un cyn dirnad ei amryfusedd. Cyflawniss ddyledswyddau yn rhyw fod, a thybia fod pob lphet yn dda, heb holi 'r annogaeth gnawdol y sydd yn ei gynhyrfu iddynt. Y mae'n rhy wir ysfweth y tery'r fath ddibenion i fewn dyledswyddau'r grasol, ond ymddarostwng o'i nerwydd, ac ymosodiff yn eu herbyn, ac ni chant yn oestadol ei feistROLI. *Rhuf. vii. 15.* Ond yr hwn yn gyffredinol a wnaiff ddyledswyddau crefyddol o ran peri i ddynion dybied yn dda o hono ef, neu i ryw gyffelyb ddiben bydol, sydd heb fod yn uniawn ger bron Duw, *Hof. x. 1. Zech. vii. 5, 6.* Am hynny O Gristianogion rhag eich twyllo eich hunain, edrychwrh nid yn unig at eich gweithredoedd, ond at eich dibenion hefyd.

5. Ymddiried i hunan gyfiawnder, *Luc. xviii. 9.* Pan fo pobl yn ymddiried i'w cyfiawnder eu hun, gwrthodant gyfiawnder Crist. *Rhuf. x. 3.* Y mae yn dra rheidiol i ni edrych o'n dautu, ac onide gall ein perthau

thau goreu ein difetha ni, gystal a'n pethau gwaethaf. Y mae llawer un heb feddwel am hyn, ond cymerwch rybydd yn awr rhag eich cyflawned amryfuseddus eich niweidio gymaint a'ch pechodau amllyccaf : Yr hyn a ddigwydd pan ddisgwilioch i'ch gweithredoedd amherffaith fodloni cyflawned, a throi ymmaith ddigter Duw oddiwrthych, a haeddu ei gariad ef tuag attoch. Y mae hynny yn ceisio gweithio Crist allan o'i fwydd. Pan wneloch oreu, ewch at Grist am gyffur, a chyfrifwch eich cyflawned eich hun megis brattiau budron, Psal. cxlii. 2. Phil. iii. 8. Efay lxiv. 6. Heb. xiii. 21.

6. Casineb ddirgel i ysprydol fywiogrwydd a dysfawch crefyddol. Y mae bagad o foeseu gweddol, ac yn oneint mewn achosion bydol, ac heb gwbl esceuluso ffurf crefydd, etto 'n ddisglas ganddynt ei bywyd a'i grym. Hynny oedd dymer *Paul* cyn ei droi 'n Grifition, *Phil.* iii. 6. *A&T.* ix. 1. Tybiant Zel yn anghallineb, ymattal oddiwrth feiau cyffredinol yn furfendod coeg. Pettai'r cyfryw yn hoffi duwioldeb yn gywyr, goreu fyddai ganddynt y gradd mwyaf o honi, a'r diwydrwydd mwyaf am dani.

7. Gorphwys mewn rhyw fesur bychan o grefydd. Pan dybio rhai fod ganddynt gymaint o grefydd ac a wasanaetho i'n hachub, ni cheisiant chwanegu dim atso, na thyfu ynddo. Ond lle byddo gwir ras, ymestyn at berffeithrwydd, a chynnnydd, *Phil.* iii. 13. *Dihar.* v. 18.

8. Mawr-ferch i'r byd, y mae hynny yn arwydd sicr galon anrasol, *Matt.* x. 37. *I Joan* ii. 15. Y mae i'r pechod hwn yn fynych yn llechu dan broffes rhag leg, *Luc:* viii. 14. Ac mo'r effeithiawl i hudo ac i wyllo dyn, ac na welo mo'i fai er bod eraill yn canfod c yn dannod ei gybydd-dra a'i fyadolrwydd. Eithr ydd cymaint o escusodion am drin y byd, a'i ofal ei gylch, ac a ddallo ei lygaid ef, ac a ddyhudda ei ydwybod ef, oni ddarfyyddo am dano yn ei dwyll. Och aint fydd o Grifianogion yn hoffi 'r byd yn fwy na Christ !

Christ ! wrth synnied pethau daiarol, rhodiant yn oly
enawd, a'u diwedd fydd dinystyr, *Rhuf.* viii. 5. *Phil.*
iii. 19. Etto dywed y cyfryw yn hyderus fod Crist yn
werthfawroccach ganddynt na dim. Ond pettent yn
craffu ar eu calonnau yn astud, canfyddent fod eu bod
lonrwydd mwyaf yn y byd, *Luc.* xii. 19. A'u gofal,
a'u poen am dano yn bennaf. Y mae gormod serch a
berthynasau, a meddianau cyfreithlawn yn y byd yn
cadw pobl oddiwrth Crist, cyn gryfed a phethau an-
ghyfreithlawn, a hynod eu drygioni, *Matt.* xxii. 5.
Luc. xiv. 18, 19, 20, 24.

9. Cenfigen a malis yn erbyn y fawl a wnelo gam a
hwynt, i *Joan* ii. 9, 11. Llawer a ymhonnant o fod
yn Gristianogion, a gofiant anghymwynasau, ac a ddali-
ant gilwg, a dalant y pwyth i'r fawl a wnel far-had
iddynt, talant ddrwg i'r fawl a wnelo gam a hwynt: En-
bod hynny yn bendant yn erbyn rheol yr Efengyl ac ef-
ampl Crist, a natur Duw, *Rhuf.* xii. 14, 17. i *Pet.* ii.
21, 23, *Nehem.* ix. 17. Diammeu lle mae 'r pechod
hwn yn berwi yn y galon heb ei wrthsefyll na'i farwe-
iddio, ond yn cael rheoli 'r dyn, fod yr Enaid hwnnw
mewn cyflwr enbydus, *Matt.* xviii. 34, 35. i *Joan* iii.
14, 15.

Ddarllenyydd, chwilia yn ofalus rhag dy fod yn euog
o'r pechodau a ragfynegwyd, a bod dy grefydd yn
ofer.

10. Balchder. Pan fyddo pobl yn *caru gogonian-*
dynion yn fwy na gogonian Duw, *Joan* xii. 43. Gal.
10. Y mae llawer Enaid yn meithrin y pechod hwn
yn ei galon, ac heb ymwrando ag ef, *Joan* ix. 40.

11. Cariad mwy i felys-chwant nag i Dduw, 2 *Tim.*
iii. 4. Boddhau chwantau'r cnawd yr lle eu gwarafun
sydd arwydd o gyflwr llygredig, *Rhuf.* xvi. 18. *Tit.* iii.
3. Y fawd sydd yn eiddo Crist a groeshoeliant y cnawd
ac a'i darostyngant fel gelyn, Gal. v. 24. i *Cor.* ix. 26.
27.

12. Diofalwch rhyfygus. Tybied eu cyflwr yn
pryd

pryd na byddo, *Datc.* iii. 17. Llawer a addawant iddynt eu hunain *ddangneddys a diogelwch pan fyddo dinist'r disymmwth yn dyfod ar eu gwartha*, i *Thef.* v. 3. Hyn a wnaeth i'r morwynion anghall gyfcu pan ddylasent weithio, a bod ar eu gwlau pan ddylasent fod yn y marchnadoedd, *Matt.* xxv. 5, 10. *Dihar.* x. 5. Ni wybuont fod arnynt eisieu olew nes dyfod y priod-fab, a phan aethont i brynu caewyd y drws. Y mae llawer etto o'r un fath forwynion. O's oes gennych heddwch, ystyriwch ei hachofion, a ydynt yscrythyrol. A oes ynoch chwi gynneddfau amgenach nag mewn rhagrithwyr? Onid oes, ofnwch eich heddwch yn fwy ma helbul yn y byd, canys tra fyddo yn gwenu ar ddyn efe a'i trywana ef dan y bumed ais.

Erbyn hyn tebygwn y dylwn glywed y darllenyydd yn llefain gyda'r disgyblion, a phwy a all fod yn gad-wedig? *Marc.* x. 26. Erbyn y tynner allan o'n cyn-nulleidfaoedd y deg math o'r annuviolation amlwg, a'r deuddeg math o'r rhagrithwyr twyllodrus, a ddospar-thwyd uchod, cydnabyddir mae *gweddill a fydd cadweddig*; Ni bydd y defaid ond ychydig wrth y geifr. Ac o'm holl wrandawyr lliosog nid oes gennyf obaith gweled un o honiynt yn y nef, ac a gaffer ym mysc y ddau fath ar hugain hyn, oddieithr eu dwyn i gyflwr arall drwy ras jachusol.

Cymbwysiad. Bellach O Gydwybod, gwna dy fwydd, a dywed y gwir yn ddwys wrth bob un a ddarlleno neu a glywo'r leiniau hyn; o chei'r nodau hyn arno, barhaef yn afian, *Lefit.* xiii. 44. Na chymer gelwydd yn hy enau, ac na lefara heddwch, na fydded i drachwant y ddobri, nac i hunan gariad a rhagfarn cnawdol dy dallu. Yr wyf yn rhoddi iti ddyfyn o lys y nef i ddwyn ystyolaeth, ac i ddyfod gyda mi a chwilio'r ty a ddrwg-ybier, fel y byddo iti ateb dan dy berigl, mynener a'r gwir yng'hylch cyflwr y darllenyydd. A dewi i yn y fath amser a hwn? Yr ydwyf yn dy dynghedu trwy'r Duw byw ddywedyd o honoti'r gwir imi, *Matt.*

Matt. xxvi. 63. A ydyw'r dyn wedi dychwelyd at Dduw, ai nad yw? A ydyw efe yn cynwys iddo ei hun syw yn bechadurus, ai nad yw? A ydyw efe yn hoffi, ac yn mawrhau ac yn rhyngu bodd Duw, ai nad yw? Tyred, barna, a chais ddibennu'r ddadl.

Pa hyd y bydd yr Enaid dan amheuon, o gydwybod, dwg dy ferdit i mewn? Ydyw hwn ddyn newydd ai nid yw? Pa foddyr ydwyti yn cael ei gyflwr ef? A gwbl newidwyd ei Enaid ef, ai na ddo? Ar ba amser, ym mha le, a thrwy ba foddion y cafodd efe'r ail-enedigaeth, a pha ryw arwydd yscrythyrol sydd o'r cysryw waith ynddo ef? A ddwyfbigwyd ac a Iwyr argyoedd-wyd ef o'i bechod a'i berygl, ac a ymroddodd efe i Jesu Grist? Neu a ydwyti yn ei gael ef mewn anwybodaeth a brynti annuwioldeb, a welaisti ef yn derbyn elw anghywfiawnder, yn esceuluso gair Duw a gweddi, yn hoffi byd presennol, yn arferu celwydd, a malis, a thrachwant? A'elli di ddiheuro'r gwr a'r wraig hon, nad ydynt o'r ddau fath ar hugain a ragfynegwyd? O's ydyw un o honynt, tro ef heibio, nid oes iddo gyfran gyda'r faint, nes bod yn greadur newydd. O Garedigion na fyddwch fradwyr i'ch eneidiau eich hunain, na thwylwch mo'ch calonnau, gofodwch frawdle o'ch mewn, at y gyfraith a'r dystiolaeth, *Esay* viii. 20. Barned dy gydwybod dy gyflwr wrth y gair. Y mae galon, a'r pechod, a Satan yn dwyllodrus, ac yn ym-wneuthur i dwyllo'r Enaid, *Jer. xvii. 9.* *2 Cor. xi. 3.* *Heb. iii. 13.* Am hynny chwiliwch eich cyflyrau y prydol yn fanwl, a bernwch yn ddi-duedd; goleuwch ganwyllau, ymbwyfswch mewn clorian, dewch at fesu y Cyffegr dygwch y mettel at y maen i'w brofi. Ydych i holi'r siom yr pennaf yn y byd, y mae Satan yn feistr ar dwyll, medr ddarlungio gras yn gywraint, a dynwared gwaith Duw, fel y gwna eurych, aria drwg i debygu i'r arian cyfreithlon: Nag ymddiriedwch i'ch calonnau eich hunain, eithr ceisiwch gan Dduw eich cynorthwyo i ymholi, ac i brofi eich arenau, *P/a*

xxvi, 2; ac cxxxix. 23, 24. Ac os gwelwch yn rheidiol dangoswch eich cyflwr i ryw weinidog duwiol, *Mal.* ii. 7. Na orphwyfwch nes sicrhau eich dedwyddwch! tragwyddol, 2 *Pet.* i. 10. A chwiliwr y calonnau a'ch cynhyrfo ac a'ch hyfforddio yn y peth y sydd mor bwysfawr.



P E N N O D V.

Yn dangos trueni yr Annychwæledig.

WRTH fod cyflwr anrasol mor ofnadwy tybi-
ais weithieu nad oedd raid ond argyoeddi
pobl eu bod yn anrasol, ac yna y byddeu
hawdd gael ganddynt geisio gras. Ond y mae prawf
trist yn dangos fod y fath syrthni a thrymgwsc yn me-
ddiannu yr annuwiol, ac yr ymroddant i aros yn ei cyf-
lwr a nianol er iddynt addef ei fod yn bechudurus, ac yn
ber glus, *Rbuf.* xi. 8. *Matt.* xiii. 15. A rhwng dy-
fyrrwch cnawdol, ac achosion bydol, a gofalon daiarol,
Luc. viii. 14. Nid yw cydwybod yn cael ei gwrando,
ac nid a pobl ddim pellach nag ychydig ddymuniadau
a bwriadau oerion i edifarhau a diwygio, *Act.* xxiv.
25.

Am hynny y mae yn dra anghenreidiol, nid yn unig
ddangos i bobl eu bod mewn cyflwr annychwæledig,
ond ceisio eu gwneuthur yn deimladwy hefyd o'u tru-
eni.

Ac yma wrth hwyliau i gychwyn, mi glywaf fy llestr
yn glynw ar y traeth, canys pa dafod a ddichon, synegu
dosted yw dialedd etifeddion usfern, oddieithr un *Dives*
a benydir yn ei dan? *Luc.* xvi. 24. Pa le y mae'r
yscrifenydd buan a ddichon a'i bin ddarlunio trueni y
K rhai

llai sydd heb Duw yn y byd? Ephes. ii. 12. Nid ellir hynny yn gyflawn, oddieithr allu o honom wybod y dedwyddwch anfeidrol y sydd yn y Duw bendigedig, y mae pechaduriaid anghymmodol yn ei golli. Medd Moses, prwy a edwyn nerth dy sorriant? Psal. lxxx. 11. A pha fodd y mynegaf i ddynion y peth nis gwn? Etto yr hyn a wyddom a fydd ei ddigon i beri i bob dyn grynu y fyddo y gronyn lleiaf o fywyd a theimlad ynddo.

Och dyma'r peth sydd yn chwanegu 'r anhawstra, fy mod i lefaru wrth rai byddar, ie wrth rai meirwon mewn cam-weddau a phechoda'u, Ephes. ii. 1.

Pe gallwn ddwyn Paradwys i'r golwg, ac heb ddangos teyrnas nef yn y modd godidoccaf, fel y dangoswyd teyrnasoedd y byd a'u gogoniant i'n Hachubwr; neu pe gallwn ddinoethi wyneb llyngc-lynn dwfn Tophet, ac agor dorau yr odyn usfernol fawr, a'i holl ddychryniadau, och nid oes ganddynt lygaid i weled, Matt. xiii. 14, 15. Pe medrwn ddarlungio prydferthwch sancteiddrwydd, a gogoniant yr Efengyl yn fy iol, neu pe medrwn ddatcuddio gwrthuni diafolig pechod nis gallent ddirnad tegwch y naill, nac aflenid y llall, mwy nag y gall y deillion ddirnad lliwiau. Canys y maent wedi tywyllu eu deall, wedi ymddieithro oddiwrth fuchedd Duw drwy 'r anwybodaeth sydd ynddynt, trwy ddallineb eu calon, Ephes. iv. 18. Nis gallant wybod y petbau sydd o yspryd Duw, oblegid yn Yspr dol y bernir hwynt, 1 Cor. ii. 14. Ni ddichon neb ond gras Duw agoryd eu llygaid, Act. xxvi. 18. Plant tywyllwch ydnt, ac yn rhodio ynddo, 1 Joan i. 6. Je yr goleuni ynddnt sydd d wylwch, Matt. vi. 23. A ganafi eu marwnad, a ddarllenaf eu barn, a wnaf i udcorn ofnadwy Duw seinio yn eu clustiau, fal y bo iddynt ferwino, ac i'r fath ddychryn eu cymeryd, ac a ddigwyddodd i Belshazzar, i beri iw hwynebau lasu, ac i'w cymmalau ymddattod, ac i'w gliniau daro wrth eu gilidd? Er hynny ysywaeth ni synniant ac ni wrandawent.

Neu

Neu a alwafi ynghyd holl ferched cerdd, i ganu can
Moses, a chan yr oen?

Er hynn ni chynhyrfant: A ddenafi hwynt a hyfryd
lais, a chan beraidd, a newyddion da'r Efengyl, a
diddanwch addewidion Du., y sydd *fawr iawn a
gwerthfawr?* 2 Pet. i. 4. Ni chynhyrfir hwynt er hyn-
ny chwaith, oni bae i mi allu rhoddi iddynt glustiau,
Matt. xiii. 15. gyda mynegi y newyddion.

A osodaf ger eu bronnau wledd o bascedigion, a
gwin doethineb, bara Duw, a phren y bywyd, a'r
Manna cuddiedig? Nid oes ganddynt chwant iddynt,
i Cor. ii. 14. *Matt.* xxii. 5. Pe gwascwn y grawn-
win goreu o freiniau efangylol, ac yfed attynt yn y
gwin cyfoethoccaf yn nhŷ Dduw, ac a ddaeth oi ystlys
ef, neu o's rhoddwn ou blaen y diliau mel o dystiola-
ethau Duw, *Psal.* xix. 10: Och! nid oes ganddynt
archwaith i'w blasu. Ni chyfyd y marw i brofi'r hyn a
gyfrenir yn ei gladdedigaeth ef, na'r meirw mewn pe-
chod i brofi'r ymborth Sanctaidd a'r hwn y hiliodd yr
Arglywydd ei fwrdd.

Beth ynteu a wnaifi? A loscafi frwmstan usfern dan
eu ffroenau, neu a egoraf y blwch o ennaint, o nard
g lyb gwerthfawr, y sydd yn llenwi ty Dduw a'i ber-
arogl, *Joan* xii. 3. *Marc.* xiv. 3. A gobeithio y
bydd i arogl y Myrr, Aloes, a Chafia, sydd ar wisco-
edd Crist eu denu hwy atto ef? *Psal.* xlvi. 8, 9. 'Sy-
waith y mae pechaduriaid meirwon fel yr eulynod mu-
dion, y sydd ganddynt *enau heb lefaru, a llygaid heb
weled, a chlustiau heb glywed, ffroenau sydd ganddynt
ond ni aroglant, dwylo sydd iddynt, ond ni theimlant,*
*traed sydd iddynt ond ni cherddant, ni leisiant chwaith
a'u gwddf,* *Psal.* cxv. 5, 6, 7. Nid oes ynddynt na syn-
wyr na chynhyrfiad ysprydol. Mi a brofaf beth y
wna'r galon, y rhan o'r corph sydd yn marw olaf, ac
yn bywhau gyntaf; tynnaf allan gleddyf llym y gair, a
dewisaf rai o saethau Duw, ac annelaf atti, a cheisiaf
ei dwys-bigo, ond nid oes deimlad ysprydol yn hon
chwaith

chwaith, eithr y mae wedi ymgaledu, a myned yn ddi-ddarbod, Eph. iv. 19. Er bod digofaint Duw yn aros ar y pechadur, a miloedd o bechodau fel mynyddoedd ar ei Enaid ef, etto ni chlyw mo'u pwys hwy. Y mae ganddo enaid marw mewn corph byw, ei gnawd sydd Arch rodienog i feddwl llygredig, y sydd ddwywaith yn farw, ac yn pydru mewn chwantau drewllyd, Matt. xxiii. 27, 28.

Ynteu pa foddyd y deuaf at y trueniaid yr wyf yn eu ceisio? Pwy all wneuthur i'r galon garreg ymroi? Zech. vii. 12. Neu i'r Corph marw deimlo a symud? Duw all hynny yr hwn a ddichon o'r cerrig gyfodi plant i Abraham, Matt. iii. 9. Yr hwn sydd yn cyfodi i'r meirw, 2 Cor. i. 9. Yn tododi'r mynyddoedd, Nah. i. 5. Yn taro dwfr o'r callestr, Deut. viii. 15. A'i waith uwchlau gobaith, a chrediniaeth dyn, yn lloisi pobl ei Eglwys ag escyrrn sychion, ac yn peri i blanhigion gwywedig flaguro yn ei winllan: Am hynny yr wyf yn pligu fy nglŷn i'r Duw Goruchas, Ephes, iii. 14. Ac megis y gweddiodd ein Iachawdwr wrth fedd Lazarus Joan xi. 38, 41. Ac y rhedodd y Sbunamites at wr Duw am ei phlentyn marw, 2 Brenh. iv. 25. Felly y mae eich gweinidog prudd yn eich d. yn chwitheu ym mrechiau ei weddi at Dduw yn yr hwn y mae cymorth i chwi.

O Arglwydd Hollalluog, yr hwn a u eithi ac nid all nh dy luddias, rosturia wrth yr Eneidiau pechadurus, a dy-wed wrthynt fel wrth Lazarus, am ddyfod allan o'i cyflwr marw. Goleua eu tywyllwch hwy. O Arglwydd, yr hwn wyt oleuni a bydded i godiad haul o'r uchelder ymweled a'r tywyll, wrth y rhai yr uys yn liefaru. Tydi elli agor y llygaid a gaeodd marwolaeth, a chan dy fod yn llunio'r glust gelli daychwelyd y clywed. Dywed wrth glustiau gwrand-owyr dy air, agorer chwi. Dod idaynt lygaid i ganfod dy oddidowgrwydd, ac archwaeth i flasu dy felystra, a phar iddynt arogl dy ennaint, a theimlo puys pechod a digofaint fel y delont at Grist am orphwystra. Gorcymwyn i'th wein-

sion brophurydo i'r escyrn fychion, fel yr elont yn bobl sywiol a lliosog.

Bellach ystyriwn fod trueni 'r ann chweledig yn dra mawr, ie yn fwy nag y gall calon dyn marwol ei ddeall, na'i dafod ei draethu ; canys.

1. Y mae 'r Duw anfeidrol yn eu herbyn. Tosturus yw bod heb *Dduw yn y byd*, Ephes. ii. 12. Gwaeddodd *Micah* yn groch ar ol meibion Dan, *sy Nuwiau a ddygasoch cbwi ymmaith, a pheth sydd gennisi mwyach?* Barn. xviii. 24. Tost y cwynodd *Saul* yn ei gyfyngder, *y mae 'r Philistiaid yn dyfod yn sy erbyn, a Duw a gili-odd oddiwrthifi*, i Sam. xxviii. 15. Pan fyddoch yn ymadel a'r byd heb gymmod a Duw, i ba le 'r ewch chwi? *Beth a wnech cbwi yn nydd eich ymrweliad, at bwyl yffowch am gynnorthawy, a pha le y gadwch eich gogoniant?* Esay x. 3. Y rhai sydd ganddynt Dduw i syned atto yn eu cyfyngder, i roddi eu pwys arno yn eu blinderau, ac i ddywedyd eu cwyn wrtho pan gaffant gam, a wyddant mor druenus yw bod hebddo.

Ac nid yw'r annychweledig yn unig heb Dduw, ond y mae Duw yn ei erbyn ef hefyd, *Ezec. v. 8, 9, Nab. ii. 13*. Pan yw dynion yn elynol i un mae ei gyflwr yn flin: Ond pan fydd yr Hollalluog yn elyn dyn annoddef-adwy yw ei helynt. *Ofnadwy yw syrthio yn nywlo'r Duw byw*, Heb. x. 31. Dinystr yr anwiriaid a dda a oddiger bron yr *Arglwydd*, 2 Thes. i. 9. *Dyfnhawyd ac ehengwyd Tophet, anadl yr Arglwydd megis ason o frwmstan* sydd yn ei hennyn hi, Esay xxx. 33. Os bydd Duw i'th erbyn pwy all fod gyda thi? *Os gwyr a becha yn erbyn gwyr, y swyddogion a'i barnant ef: ond os yn erbyn yr Arglwydd y pecha gwyr, pwy a eiriol trofio ef?* i Sam. ii. 25. *Tydi, Tydi, wyt ofnadwy, a phwyr a faif o'th flaen, pan enynno dy ddigter?* Psal. lxxvi. 7. Nid all neb waredu o'i law ef, *ni thycia cyfoeth yn nydd digofaint*, Dihar. xi. 4. Bydd i'r milwyr, a'r gwyr mawr ddywedyd wrth y mynyddoedd a'r creigiau syrthiwrch arnom ni a chuddiwrch ni o wydd yr hwn sydd yn eistedd ar yr

yr orsedd-fainge, ac oddiwrth lid yr oen : Canys daeth dydd mawr ei ddigter ef, a phwy a ddichon sefyll, Datc. vi. 15, 16, 17.

O bechadur dyleu hyn bigo dy galon di, sef bôd Duw yn elyn iti, i ba le yr ai di, ac ym mha le y llechi di? Nid oes iti obaith, oddieithr iti geisio maddeuant a chymmod drwy Grist, oni bae hyn gellit ammhwyllo mewn anobaith. Canys y mae wyneb Duw i'th erbyn di, *Psal. xxxiv. 16. Wyneb yr Arglwydd sydd yn erbyn yr rhai a wna ddrwg, i dorri eu coffa oddiar y ddaiar. Pan osodo Duw ei wyneb yn erbyn gwr efe a'i gwmaiff yn arwydd ac yn ddihareb, a thorriff ef ymmaith o fyfyr ei bobl, fel y gwyper mai efe yw yr Arglwydd, Ezec. xiv. 8.* Y mae calon Duw yn erbyn y rhai drwg, cas gando weithredwyr anwiredd, *Jer. xv. 1. Medd efe, pasei Moses a Samuel ger fy mron, etto ni byddai fy serch ar y boblyma, bwrrw hwy allan o'm golwg.* Y mae ei law ef hefyd iw herbyn, i *Sam. xiii. 15. Ie y mae ei holl briodoliaethau ef yn erbyn yr anwiriaid.*

1. Ei gyflawnder ef sydd fel cleddyf wedi ei dynny i'th erbyn: medd efe os hogaf fy nghleddyf disclair, ac ymfaif y o'm llaw barn, dychwelaif adial ar fy ngelynion, a tbalaf y pwyt h i'm caseion, *Deut. xxxii. 41. Nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymmero ei enw ef yn ofer,* Exod xx. 7. Adroddif drallod ac ing, llid a digofaint i bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg, Rhuf. ii. 8, 9. A bod pob un yn felldigedig nad yw yn aros ym mhob peth sydd scrifenedig yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt, Gal. iii. 10. Y mae digofaint Duw yn fwy ofnadwy i'r pechadur argy-oeddig, nag yw echwynwr i'r dyledwr, neu 'r usffys i'r lleidr a'r llofrudd. Canys pan eisteddo cyflawnder arno, perifff rwyomo ei draed a'i dduyo, a'i daslu i'r tywllwch eithaf, lle y bydd wylosain a rhingcian dannedd, Matt. xxii. 13. A pherir iddo fyned i'r tan tragwyddol, Matt. xxv. 41.

2. Sancteiddrwydd Duw sydd i'th erbyn, *Psal. v. 4, 5. Y mae yn dy ffieiddio di a'r hyn a wnelech hefyd, ie yn ei wasanaeth ef,* Zech. xi. 8. *Esay i. 14 Mal. i.*

Mal. i. 10. Pan gymmyscer gwenwyn neu dom a
bwyd, ffiad fydd.

Och flined yw helynt y dyn a fyddo dan gas Duw,
Preg. v. 4. Hos. ix. 15. Pa fodd yn dy astendid y gelli
eddwl am sancteiddrwydd Duw ? Y ser nid ydynt bur yn
i olwg ef, *Job xxv. 5.* Y mae yn ymddarostwng i edrych
yr y pethau yn y nefoedd ; cas gan ei enaid ef y drygionus,
Psal xi. 5. Ynteu dywed fel gwyr Bethsemes, pwy a
ldichon sefyll yn wyneb yr Arglwydd sanctaidd hwn ?
Sam. vi. 20.

3 Gallu Duw hefyd sydd yn erbyn y di-edifeiriol.
Eu ddinistr fydd oddiwrth ogoriant ei gadernidef, 2 Thess.
9. Wrth ddangos ei ddigofaint periff adnabodei allu,
Rhuf. ix. 22. Nid elli ddat allan i ymdrechu a'th wneu-
purwr, mwy na chorsen i daro wrth dderwen.

Fel y mae gallu, y mae digofaint Duw i'th erbyn he-
fyd, a phan fydd o ddau ynghyd gwnant waith ofnad-
holl, *Psal. lxxx. 11.* Nid elli ddiangc o'i ddwylo ef,
a thorri ei garchar ef. Pwy a ddeall daranau ei gader-
ef, *Job xxvi. 14.* Truenus y dyn ai deall wrth ei de-
mamlad. Os myn dyn ymryson a Duw, ni all ateb iddo am
peth o fil : Y mae efe yn ddaeth o galon ac yn alluog o
erth : Pwy a ymgaledodd yn ei erbyn ef ac a lwyddodd ?
ir bwn sydd yn symmud mynyddoedd, ac heb wybod iddynt :
r bwn sydd yn eu dymchwelyd buynt yn ei ddigofaint : Yr
un sydd yn cynhyrfu y ddaiar alian o'i lle, fel y cryno ei
bolofnau hi : Yr bwn a ddywed wrth yr haul ac ni chysyd,
a jelia ar y ser. Wele efe a sclafaetha, pwy a'i lluddia ?
wy a ddywed wrtho, pa beth yr wyt yn ei wneuthur ? Oni
ry Duw ei addiglonedd ymmaith, tano ef y crymma cyn-
rthwywyr balchder, *Job ix. 3, 4, 5, 6.* A wyt i gym-
ar i'r fath vmdrechwr ? Deallwch byn yn awr y rhai
ych yn anghofio Duw, rhag iddo eich rhwygo, ac na byddo
vareduda, *Psal. 1. 22.* Na fydded i lestr pridd ymdrechu
Holt alluog, nad ymosoded mieri a drain yn ei erbyn
mewn rhwtel, canys efe aiff trwyddyn, ac ai lloscifff
wynt ynghyd. Yn hytrach gwneiant heddwch ag ef,
ay xxvii. 4. 5. Gwae a ymrysono a'i luniwr, *Elay*
4. Y
Ial. i v. 9.

4. Y mae doethineb Duw i'th erbyn. *Oni adychwel yr annuwiol hoga Duw ei gleddyf, annela ei fwa, paratodd hefyd crfau anghesol, efe a drefnodd ei saetbau yn erbyn yr erlidwyr, Psal. vii. 12, 13. Ei ddychymmygion ef sydd yn darparu at dy ddinistr, Jer. xviii. 11. Chwardd am y ben, canys gwel fod dy ddydd ar ddyfod. Psal. xxxvii. 13.* Y mae efe yn rhagweled tel y gwesti di dy ddwylo, ac tynni di wallt dy ben, ac yr yscyrnygi di dy ddannedd pan fyfthiech i'r bwll dinistriol.

5. Y mae Gwirionedd Duw yn erbyn y diedifeiriol. *Psal. lxxxv. 11. Dywedodd oni Edifarhei y difethi di, Luc. xiii. 3. Ezec. xxxiii. 11. O's ydym ni heb gredu, etto y mae efe yn aros yn ffyddlon: Nis gall efe ei wadu ei hnn, 2 Tim. ii. 13. Sef y mae efe yn eir wir yn ei f gythion gyltal ag yn ei addewidion; oni? chredwn ni, dengys ei ffyddlondeb yn ein dinistr ni. Dywedodd efe yn ddigon eglur, oni olchaf di nid oes i gfrangyda myfi, Joan xiii. 8. Ac o's byw yr ydwyt yn y cnawd, marw fuddi, Rhuf. viii. 13. Ac oddieithr droi nid ai ddim i mewn i de'rnas nesoedd, Matt. xviii.*

3. Fel y mae di-anwadalwch addewid, a llw Duw y peri *Cyffur cr fir ffddloniaid*, Heb. vi. 18. [Felly mae di-anwadalwch ei fygythion yn peri dychryn cry i'r di-ediferiol, y mae 'r yscrythur yn llwyr gondemni yr di-ediferiol, ac fel y plyg-lyfr a anfonwyd i Ezeciel ydoedd wedi ei scrifennu wyneb a chefn, ac yr oedd we di scrifennu arno, *Galar, a Griddfan, a Gwae*, Ezec. ii. 10. A diau y bydd i hynny dy orddiwes, oni thr at Duw, *Deut. xxviii. 15. Y nesoedd a'r ddaiar ant hibio. ond nid a un jot, nac un tippyn o'r gfraith heili b:d oni chwplaer oll*, Matt. v. 18. Efe a dyngodd chaiff yr anghredadwy fyned i mewn i'w orphau ysa nae Heb. iii. 18.

2. Y mae holl greadigaeth Duw yn erbyn y diedifeiriol. Y mae pob creadur yn cyd-ocheneidio ac yn a osidio b:d y pryd h:n, Rhuf. viii. 22. A hynny o acho eu bod yn ddarostyngedig i wasanaethu chwantau pob

anrasol, ac yn tuchan am gael rhydd-had. Canys y
 creadur sydd wedi ei ddarostwng i oferedd, nid o'i fodd,
 Rhuf. viii. 19, 20, 21. Pettai gan y creaduriaid dify-
 wyd reswm, a lleferydd, cwynent yn drwm, fod yr an-
 muwiol yn eu cam arferu, yngwrthwyneb i'w natur, ac
 i drefniad eu creawdwr, fel y gwnaeth yr asyn pan
 c bowyodd Balaam hi ar gam: Grwgnahei'r ddaiar ei
 bod yn eu cynnal hwy, a'r awyr ei bod yn rhoddi anadl
 iddynt hwy, tra fyddent yn byw'n bechadurus yn er-
 iol byn Duw. Dylir ofni rhag iti fod yn fwrm i'r creadi-
 thir gaeth, ac i'r Arglwydd ddywedyd wrth ei winllannydd,
heb torr ef i lawr, pa hām y mae efe yn diffrawytho'r tir,
ef. Neu rhag i'th ymborth ddywedyd. Arglwydd a gyn-
 eir naliaisia 'r fath anghenfil a hwn, i'th ddianrhymeddu
 on di? Neu rhag i'r awyr ddywedyd, a raid imi roddi
 anadl i hwn, i dyngu, ac i regu, ac i'th gablu di? Tra
 ydde Arglwydd y lluoedd yn erbyn dyn, bydd lluoedd
 Arglwydd hwnnw yn ei erbyn ef hefyd, nes iddo gy-
 hrannmodi a Duw, ac yno bydd y creaduriaid mewn hedd-
 xviii. ag ef, Job v. 22, 23, 24. Hof. ii. 18, 19, 20.

3. Bydd i'r llew rhoadwy awdurdod ar yr annuwiol.
 Delir y cyfryw *ym magl diafol wrth ei ewyll s ef*, Pet:
 8. 2 Tim. ii. 26. Yr yspryd drwg sydd yn mblant
anufudd-dod, Eph. ii. 2. Ei gaethweision ef ydynt,
 i drachwantau ef a gyflawnant. Efe yw *llywiawdwr*
wyllwch y byd hwn, Eph. vi. 12. Sef y rhai sydd yn
 Eze. 37. 'n ddrwg.

Grefynwn fod yr Indiaid yn gwafanaethu diafol yn
 Duw heb ystyried mae dyna gyflwr pob dyn annuwi-
 yn ein plith ein hunain, fod diafol yn Dduw iddo,
 Cor. iv. 4. Er iddynt ei wadu ef a'u geiriau, gwa-
 naethant ef a'u gweithredoedd, ac ufuddhant i'w reo-
 ad. Y maent yn weision i'r hwn yr yd nt yn ufudd-
 iddo, Rhuf. vi. 16. Pan roddo Sātan dwyll, a
ac heb werth, *Esay* lv. 1. Y prynu yma sydd wrth o-fyn a diwyd arferu moddion Duw, *Dihar.* ii. 3, 4. Y mae efe yn cynnig goleuo dy feddwl; a dyscu iti ei of-ni ef: Dy ddinistr yw gwrthod a chasau gwybodaeth, a bod heb ddewis ofn yr Arglwydd, *Dihar.* i. 29. Na fynni ddeall, ac na ewyllysi wybodaeth o ffyrdd Duw, *Job* xxi. 14. *Pe gwaeddit ar ol gwybodaeth, a'i cheiso fel arian, a chwilio am dani fel am dryffor cuddiedig; yna ceit ddeall ofn yr Arglwydd, ac y ceit owybodaeth.* *Dduw*, *Dihar.* ii. 3, 4, 5. *Dychwelwch wrth fy ngher-yd* (*Medd Duw*) *wele mi a dywalltaf fy yspryd i chwi,* *Dihar.* i. 23. Wedi derbyn yspryd Duw, gellwch wneuthur y peth nid allech o honoch eich hunain o'r blaen. Perir i chwi ymolchi yn lan, *Esay* i. 16. O *Jerusalem* a ymlanhei di? Pa bryd bellach? *Jer* xiii. 27. Ni wyddoch faint o gymmorth a wnaiff Duw i chwi, o byddwch daer yn gofyn iddo, *Luc.* xi. 8; ac xviii. 5. Pan baro rhyw wr cyfoethog i ddyn rheidus ddyfod at ei dyn mae hynny 'n achos o obaith i'r tlawd y caiff welihad wrth ddyfod yno Nid i'w gwatwor y mae Duw yn gwahodd pobl i ddyfal gyrchu at foddion gras, ond i wneuthur lles iddynt.



P E N N O D VIII.

In Cynwys y Cload.

BELLACH fy mrodyr beth a wnewch chwi? Ai aros yn eieh cyflwr pechadurus a marw, ai dychwelyd at Dduw am fywyd tragwyddol? Pa hyd yr ymdrowch chwi ac yr ymwydynwch chwi yn *Sodom*, ac y cloffwch chwi rhwng dau feddwl? i *Bren.* xviii. 21. Oni ddarfū i chwi fwriadau pa un a ddewiswch chwi ai Crist ai *Barabbas*, ai hyfrydwch ai gofid, ai Parad-

wys ai tir *Cabul?* i *Bren.* ix. 13. A ydych chi i yn ymddadlu pa un oreu ai *Abana* a *Pharnar* afonydd *Damascus*, ai ffrydiau *Eden?* A yw pyllau drewilyd pechod yn well na dyfroedd y bywyd, y rhai sydd low fel grisiaid; ac yn dyfod allan oddiwrth orseddfaingc Duw a'r Oen? A wna'r byd gymaint erddoch chwi, ac y wna Crist, ac a ddescyn golud gyda chwi i'r bedd, *Psal.* xlix. 17. i *Tim.* vi. 7. O blant annedwydd, pa hyd y glynwch rhwng y bru a'r byd? A orfydd i mi eich gadet fel y gorfu i *Paul* adel *Agrippa* o fewn ychydig wedi eich ennill i fod yn Gristianogion cywyr? Chwi a allwch fod yn golledig felly; ni thal yr ychydig ddim, oni byddwch gwbl Gristianogol. Os oes ynoch beth dynuniad am ras, rhoddwch eich bryd yn gryfach arno na fydded i Satan beri i chwi oedi; tra fyddoch yn bwrriadu gwellau, gellwch farw cyn diwygio dim o'ch buchedd.

Os yn yr amser presenol hwn yr oedwch h d amser arall, gall y cynwrf sydd ynoch oeri, a'ch calon gal-edu i'rwy dwyll pechod: Dyma'r amser cymeradwy, a dydd jechydwriaeth. Nid yw heddyw rhw fuan iti i ddechreu bo i yn fendifigedig. Ona wyddit ti, ie yn dy ddydd hwn y pethau a berthynant i'th heddwch, cyn eu bod yn gudieig oddiwrth dy lygaid, *Luc* xix. 42. Hwn yw dy ddydd di, ac nid yw onid diwrnod, *Joan* ix. 4. Cafodd eraill eu dydd, a chwedi hynny derby-niasant eu barn. Oni wnei ditheu ddewis doeth yn awr; darfu am danat byth: Bydd dy gylwr tragwyddol fel y bo dy ddewis presenol, *Luc* x. 42; ac xvi, 25. *Dihar.* i. 27, 28, 29: Y mae bywyd a marwolaeth ar dy ddewis di, *Deut.* xxx. 19. Tra yr oedd un o'r merthyron yn gwe dio wrth yr stanc, cynnygied ei fywyd iddo, ond efe ai gwrrthododd am fod yr ammoniau yn bechacurus; ond y mae Crist yn cynnig ammodau hawdd ac anrhydeddus: Nac ymfrostia o'r dydd y foru, canys ni wyddost beth a ddigwydd mewn diwrnod, *Dihar.* xxvii. 1. Nac i ba letty y dwg y nos di.

O Garedigion yn awr y mae yspryd Duw yn ym-drechu a chwi, ni wnaiff ef felly bob amser : Oni chly-waist dy galon yn cynhesu, a'th feddwl ym mron ymroi i Dduw ? Na fydd fel *Samuel* ifangc heb wybod fod Duw yn dy alw, i *Sam.* iii, 6, 7. Buan y clyw'r Etholedigion lais eu hanwylyd, *Can. Sol.* ii. 8. Na fydd ditheu fyddar. Nid yw y lleferydd y fydd yn rhwyg-a'r cedrwydd, ac yn gwneuthur i'r Mynyddoedd lammfel lloii, nid taranau *Sinai* yw, ond y llais tawel araf. Nid fwn y felldith, ond y fendith yw, a newyddion llawen o bethau da, *Ephes.* vi. 15. 2 *Cor.* v. 18, 20. Gallaf ddywedyd wrthit ti fel *Martha* wrth ei chwaer, *Tr Athro a ddaeth ac y mae yn galw am danat*, *Joan* xi, 28. Ynteu fel *Mair* cyfod yn fuan a thyred atto. Y mae ei wahoddiad ef yn hael, nid yw yn gommedd neb, yr hwn sydd yn ewyllysio cyfmeryd dwfr y bywyd yn rhad, *Datc.* xxii, 17. Dewch attafi medd Crist, cymmerwch fy jau i arnoch, a dyfcwch gennifi, ac chwi a gewch orphwysfa i'ch ençidiau, *Matt.* xi. 28, 29. A'r hwn a ddelo attafi, ni fwriaf ef allan ddim, *Joan* vi. 37. Y mae ef yn eich cael yn y tywyllwch a'r carchar, ac oni fynnwch ddyfod allan, *Esay* xlvi. 6, 7. Y mae efe yn eich galw i rydd-did, *Gal.* v. 13. Ac i gerdded *llwybrau hyfryd*, *Dihar.* iii. 17. *Psal.* cxix. 165. 1 *Pet.* i. 8. Chwi gleifion dewch at y pysygwr sydd yn jachau pob math ar ddoluriau ym mysc pobl, *Matt.* iv. 24. Chwi rai anwybodus dewch atto ef, a fydd i chwi yn oleuni ac yn brophwyd, *Esay* xlvi. 6. *Ephes.* vi. 14. Chwi dyngwyr, dewch atto, a madd-euir i chwi eich cabledd, *Marc* iii. 28. Chwi rai a-flan dewch atto ef; gwnaiff chwi yn llestri sanctaidd; 1 *Theff.* iv. 4. Gwrandewch watwarwyr sy'n gwawdio crefydd dewch atto ef a chymmer chwi i'w drugaredd, *Dihar.* i. 22, 23. Yn awr pa ryw atteb a ddygaf odd-iwrthych at fy Meistr ? Gadewch i mi ddywedyd wrthych fel y dywedodd gwas *Abraham*, wrth rieni *Rebecca*, yn awr od ydych chwi yn gwneuthur caredigrwydd a ffydd-

ffyddlondeb a'm Meistr, mynegwch i mi, *Gen. xxiv. 49:*
 O na roddit ti yr fath atteb ac a rodde *Rebecca*, pan
 ofynwyd iddi, a ei di gyda'r gwr hwn? hi ddywedodd,
 af, *Gen. xxiv. 57, 58.* Och! na wnewch i mi droi'r
 ymddiddanion ferchog drwy y rhai y ceisiais eich
 denu at Grist yn achwynion i'ch erbyn yn nydd y Farn?
 Och! bydd esmwythach i *Tyre* a *Sidon*, i *Sodom* a *Go-*
morrah yn y dydd hwnnw nag i chwi, o's gwrthodwch
 y drugaredd y mae'r Efengyl cyn fynyched yn ei gyn-
 nig i chwi, *Matt. xi. 22, 24.* Gwiliwch rhag i hyn i
 gyd fyned yn ofer, ac i'r farn draethu i'ch erbyn fel yn
Jer. vi. 29, 30. *lloscodd y segin, gan dan y darfû'r*
plwm, yn ofer y toddodd y toddudd, canys ni thynnywyd y
rhai drygionus ymmaith. *Yn arian gwrthodedig y galw-*
ant hwynt, am wrthod o'r Arglwydd hwynt.

O Arglwydd, Tad yr ysprydoedd, cymmer di yr galon y sydd ry galed i'm gwendid i i'th law dy hun, ac na pheidia di lle'r wif yn gorhwys. Hanner gair oddiwrth dy awdurdod ti, a ddichon wneuthur y peth. Genniti y mae agoriad Dafydd, pan agorech di, ni all neb gau, agor di galon y Darlenydd fel y gwnaethost yr eiddo *Lydia*, a thi frenin y gogoniant dos i mewn iddi. Na ad i'r hudwr ei chaledu drwy oedi, nac i'r dyn ollwng y pethau o'r blaen o'i feddwl, nes iddo roi cwbl o'i fryd ar adel ei bechodau a derbyn bywyd. Yn dy enw di Arglwydd y cymmerais i hyn o waith mewn llaw, ac yn dy enw di y dibennaf ef: Anfon gyfarwyddyd dy yspryd i'r darlenydd fel yr anfonailt i'r efnuch, tra yr ydoedd efe yn darllen y gair, ac ennillir ei Enaid iti drwy athrawiaeth y llyfran hwn, Amen.

PENNOD IX.

*Yn cynwys Cyngor i Dduwioldeb person-
a awl theuluaid.*

FY ngharedigion, nid oes gennif obaith weled eich wynebau chwi yn y nefoedd, oddieithr i chwi ymarferu a sancteiddrwydd yma ar y ddaiar. Am hynny cymmerwch ofal diwyd am ollwng yr yr Arglwydd Jesu i reoli yn eich calonau chwi eich hunain yn gyntaf : Ac edrychwch yn ddyfal ar i chwi drin eich holl achosion bydol wrth ei fodd ef. Edrychwch ar holl orchymynion Duw, a threfnwch eich holl feddyliau a'ch geiriau a'ch gweithredoedd wrthynt, *Psal. cxix. 6, 34.* O's yn ystyriol ac yn arferol, ac yn ewyllysgar y llochwch un pechod, derfydd am danoch byth, *Psal. lxviii. 21, Eze. xviii. 20.* Ceisiwch eich calon yn wir rasol, ac onide chwi adeiledwch yn ofer heb sylfaen siccr. A phan gaffoch ras oddifewn, arferwch ef yn eich bucheddau oll; Rhoddwch yr eiddo Duw iddo : Nac esceulufwch weddio atto ef ; dyn di-weddi sydd ddiras, *Psal. xiv. 4.* *Job xv. 4.* Chwil-iwch yr yscrythyrau beunydd, *Joan v. 39.* Nid all neb roi hawl i wynf d ond yr hwn sydd ai ewyllys ynghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio ynddi ddydd a nos, *Psal. i. 1, 2.* Cymmerwch ofal am gyffylltu yngyd grefydd tuag at Dduw, a chariad tuag at ddyn. Bydded uniondeb a thrugaredd yn eich holl farchnad-oedd a'ch achosion. Bydded diweirdeb a sobrwydd i'ch dilyn. Bydded gwirionedd a difrifwch, a gweddeiddra, yn harddu eich ymadroddion chwi, a goftyngeiddrwydd a dioddefgarwch, a symlwyrwydd, a diniweidrwydd yn eich holl ymarweddriad chwi. Maddeuwch i'r neb a wñlo gam i chwi, a gwnewch dda iddynt am eu drwg, fel y byddoch blant i'r goruchas. Byddwch

arafr.

wch
fydd
nac
yn w
yn d
nistr
12.
20, 1
Y
teulu
a fyd
pob
gwed
dyd f
Argl
mew
ci. 2
1.
eich
chosi
iol a'
eneidi
ynt, :
gyfrg
cant
moge
rhagd
inidog
aid.
2 Y
yn ei
Joan
ddiscy
30
3. M
iaid o'

arafaidd yn addaw, a gofalus yn cwplau. Cyflawnwch y dyledswyddau perthynol i'ch cyfneseisiaid. Na fydded neb o honoch yn dyngwr, nac yn gelwyddwr, nac yn dilyn cyfeillach ddrwg, nac yn feddwyn, nac yn watwarwyr, nac yn faleifus, nac yn gybyddus, nae yn dwyllwr, nac yn gynhenwr, nac yn lleidr, canys dinistr yw diwedd y cyfryw rai, *Dibar.* xiii. 20. *Jag.* v. 12, *Datc.* xxi. 8. *i Cor.* vi. 9, 10. *Gal* v. 19, 20, 21,

Yn ail cymmerwch ofal am fod duwioldeb yn eich teulu. Yr hwn fydd hoff ganddo ddaioni yn ei galon, a fydd hoff ganddo ei weled yn eidi hefyd. O na bae pob teulu fel Eglwys Gristianogol, a phob ty yn dy gweddi, *2 Cor.* xvi. 19. A phob pen-teulu yn dyweddyd fel *Joshua. Myfi. mi a'm tylwyth a wasanaethwn yr Arglwydd.* Jof xxiv. 15. Ac fel Dafydd, *Rhodiaf mewn perffeithrwydd sy nghalon o fewn sy nhw,* Psal. ci. 2. Ac er mwyn hynny gnewch y ganlyn.

1. Na thybiwch fod pethau crefyddol i'w cyflawni yn eich teuluoedd yn unig pan gaffoch enn d oddiwrth achosion bydol, eithr edrychwch ar weddiau mor rhaidiol a'ch prydiau bwyd. Cydnabydded teuluoedd fod eneidiau ei deiliaid wedi eu rhoddi dan eu golygiad hwynt, ac y gofynnir ganddynt hwy gyfrif am y rhai a gyfrgollif drwy eu esceulusdra hwy: A'r pryd hynny y cant weled fod gwaed eneidiau yn euogrwydd trwm, mogelont ynteu rhag ei gael yn eu godreu hwy, a rhagddarparant fwy na bwyd tuag at eu plant a'u gwenidogion, canys rhoddant borthiant i'w hanifeiliad.

2 Ymarferwch a darllen y gair, ac a chanu psalmau yn eich teuluoedd, *Psal.* cxviii. 15: *Esay* xxxiv. 16. *Joan* v. 39. Darllenir i Grist ganu hymnau gyda ei ddiscyblion, y rhai oeddent ei dylwyth ef, *Matt.* xxvi. 30. *Luc.* ix. 18.

3. Megis ac yr ydych yn mynnu cyfrif gan eich deiliaid o'r gorchwylion bydol dan eu dwylo, selly holwch hwynt

hwynnt beth a gofiant o air Duw a glywont, a pha fodd y bont yn llesau wrtho. Ystyriwch esampl Crist yn holi ei ddiscyblion, *Matt.* xvi. 11, 13, 15. Diammeu o's arferwch hyn y cewch chwi weled cynnydd eich deili. aid mewn gwybodaeth a dawn da. Yn ddyfal ceisiwch wybod eu cyflyrau ysprydol, a'u hargyoeddi o drueni, a llygredigaeth eu natur, ac o anghenrhaid yr ailenedigaeth, gan geryddu eu beiau yn ddifrifol, a choleddu pob rhinwedd dda ynddynt er gwanned fyddo. Crybwyll yr Efengyl pan fydd ei Crist yn y ty, ac wrtho ei hun, yr arferei efe yspysu i'w ddiscyblion byngciau rheidiol eu deall, a'u holi oeddent yn eu cofio, ac yn dirnad, *Matt.* xiii. 10, 36, 51. *Marc.* iv. 10, 11.

4. Edrychwch ar i'ch tylwyth gadw dydd yr Arglywydd yn sanctaidd, *Exod.* xx. 9. *Lef.* xxiii. 3. O byddwch mor ystig tuag at orchwylion Duw ar y dydd hwnnw, ac y fyddwch yn eich gorchwylion eich hun hyd yr wythnos, diammeu y cewch weled budd ysprydol wrth hynny.

5. Bob boreu a hwyr yn barchedig ac yn ddifrifol offrymmer i'r Arglwydd aberth gweddi a moliant gan yr holl deulu ynghyd, *Psal.* lxxxii. 1, 2. *Exod.* xxx. 7, 8. *Luc.* i. 9, 10. Gwae'r teuluoedd ni alwant ar enw Duw, tywelltir digofaint arnynt, *Jer.* x. 25. Gofynnir i ni weddio bob amser, a phob rhwng weddi a deisysiad yn yr yspryd; a gweddi deuluaidd fydd gynwysedig yn y lle hwnnw, *Ephes.* vi. 18. Y mae pechodau a deffygion teuluaidd, a llwyr y dyleu fod gweddiau teuluaidd hefyd, a diolchgarwch teuluaidd am eu thrugareddau. Na ddywedwch nad ydych yn cael amser i hyn, canys er mwyn hyn yr ydych yn cael eich holl amser gan Dduw. Ac na ddywedwch fod eich gwaith bydol i'ch rhwystro, canys nid oes waith yn y byd reitiach na gwafanaeth Duw, ac jechydwriaeth eneidiau, ac y mae gweddi deilwng yn dwyn bendith ar bob peth a drinioch, *Jer.* xxix. 12, 13. 2 *Sam.* vii. 29. Na ddywedwch chwaith nad oes gennych ddoniau cymwys i weddio:

Iawa

Lawn arferwch yr un dalent sydd genych, a Duw a'i chwanega, y mae help i'w gael nes i chwi gryfhau. Gall y teulu gwan uno ag un a fyddo gryfach: Da gan Dduw fod pobl yn cyd-weddio, *Jag.* v. 14. hyd 19. adn *Act.* xii. 5, 10, 12. 2 *Cor.* i. 11. Am hynny gwnewch eich goreu ar ryngu bodd Duw ynghylch y ddyledswydd hon mewn teuluoedd gyd ag mewn Eg-lwyfydd

6 Ceisiwch hefyd gan bob un o'ch teulu weddio bennydd ar ei ben ei hun. Mynnwch wybod a fyddont yn gwneuthur felly, a phwy bynnag o honynt a fyddo anfedrus yn y ddyledswydd, ceisiwch eu helpu, gan roddi iddynt ffurf o weddi hyd oni allont adrodd eu dynuniadau a'u geiriau eu hunain Cyfarwyddwch hw-ynt pa fodd y dylent weddio, canys felly y gwnae Crist ac *Joan Fedyddiwr* er y rhai a'u dilynent, *Luc.* xi. 1, 2.

7. Arferwch gateceisio eich plant a'ch gweinidogion o'r lleiaf unwaith yn yr wythos. Yn ddyfal ufuddhawn i orchymyn Duw, am ddyfscu crefydd i'r rhai a fyddo dan ein golygiad ni, ac hysyfu ei eiriau ef i'n plant, a ebrybwyll am danynt pan cisteddom yn y ty, a phan ger-ddom ar y ffordd, *Deut.* vi. 7, 8, 9; ac iv. 9, 10; ac xi. 18, 19, 20. Ac y mae yr yscrythur yn rhoi calon ynom i'r gwaith, gan ddywedyd, *Hyfforddia blentyn ym mhen ei ffordd, a phan beneiddio nid ymedy a hi,* *Dihar.* xxii. 6. Canmolodd Duw Abraham am orchymyn i'w blant ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt ffordd yr Arglywydd, *Gen.* xviii. 19. A bod ganddo weision hyfforddus, *Gen.* xiv. 14. Ac wrth grybwyll hynny addawodd ddaioni iddo. Bydded i chwitheu geisio cyfran yn y cyfryw gammoliaeth, ac addewid Arhosodd Crist yn ifangc ym mysc yr athrawon oeddent yn y deml, *Luc.* ii. 46

O's bydd eich tylwyth yn anhydyn i ddyfscu, arferwch eich awdurdod arnynt n y peth hynny, gyfhal ac mewn pethau eraill: Ie yn hytrach o lawer am fod y peth

peth yn perthyn i ogoniant Duw, a lleshad i'w heneidi-
au hwynt. Chwi a'u gelwch hwynt i fynu, ac a'u cym-
ellwch hwynt i'ch gwaith, ac oni ddylech fod mor daer
i'w gosod ar waith Duw? Ac o bydd neb ryw rai o
honynt a dealltwriaeth gwan, byddwch ddiwyd ac ym-
arhoes wrthynt, hyd oni ddyfsgont wyddorion eglur
crefydd, gystal a irgelwch eich crefft. Os mynnech
weled crefydd yn ffynnu, ac annuvioldeb yn lleihau,
byddwch ddiwyd yn v ddyledswydd hon. Bydded
eich caloñnau a'ch teuluoedd yn demlau i'r Duw byw,
lle caffo efe ei addoli yn ddifrifol beunydd, fel y bydd-
och fendigedig, ac yn feadith i'ch tylwythau.



P E N N O D X.

*Yn cynwys y rhagoriaeth y sydd rhwng
gwir Gristianogion ac eraill.*

MA TH. v. 47 *Pa ragoriaeth yr yd ch chwi
yn ei wneuthur?* Y mae'r yscrythyr hon yn
rholi achlysur i ni i chwilio beth a ddylai gwir
Gristianogion ei wneuthur y tu hwnt i bobl eraill, yn-
ghylch yr hyn destyn cawn oleu-fyneb wrth ystyried y
pethau a ganlyn

1. Cy i'r Gristion a gar y fawl a'i casant ef. ac a
ewyllisia yn dda i'r fawl a geisiant wneuthur iddo ddrwg.
Y mae hyn yn hyspys yn y geiriau sydd yn rhagflaen-
ori'r testyn, Matt. v. 44, 46, Medd Crist yr
ydwyfi yn dywedyd wrthych chwi, cerwch eich gelynion,
bendithiwrch y rhai a'ch melldithiant: *Gwnewch dda i'r
fawl a'ch casant, a gweddiwrch tros y rhai a wnel niwed
i chwi, ac a'ch erlidiant: Oblegid os cerwch y fawl a'ch
taro, pa wobr sydd i chwi?* Oni wna'r publicanod hefyd yr
un peth? Ac os cyferchwch well i'ch brodyr yn unig, onid
ydyw

ydyw
hoffi
fawl
Grist
oedd
wyn,
Grist
Cran
angh
wed,
byd
uthur
dithe
cas a
lesha
Dad
Matt
2.
ei rw
pyfco
gyda'
oedd
ddo cr
y fav
tra fy
chym
ei her
ac yn
pryd
ife a
Judd
Judd
ochus
Sama
taeras
Joshu
eraill

ydyw y publicanod hefyd yn gwneuthur felly? Meidr pawb hoffi'r fawl a'i hoffant hwy, ond dymuno 'n dda i'r fawl a wnelo ddrwg ini sydd anaml, a phriodol i wir Gristion yn unig. Dywedodd Athro enwog am na yd-oedd yn anghyttuno ag ef mewn rhai pethau, yn ei wyn, pe galwei fi'n gi, tystiolaethwn ei fod ef yn was i Grist er hynny. Y scrifennir am y merthyr Escob Cranmer y gellid ei gael ef yn dirion wrth wneuthur anghymwynas iddo, a rhai o'i eiriau diweddaf ef a ddywed, na chawsei efe fwy hyfrydwch mewn dim yn y byd nag wrth faddeu 'r cam a wneid iddo, a gwneuthur tiriondeb i'r rhai a geisiant niwed iddo. Meddwl ditheu ddarllenyydd am y rhai sydd yn chwareu yn atcas a thi, ac ystyria pa fodd v gellych wneuthur i ynt leshad, gan weddio rostynt, *fel y byddech blentyn i'th Dad yr hwn sydd yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da,* Matt v. 45

2. Cywir Gristion a ger'd tua'r nef er i'r byd geisio ei rwyistro ef, nosia yn erbyn ffrwd y lliaws, fel y gwna'r pyscod byw yn erbyn y dwfr, y rhai marw a dreiglant gyda'r llifeiriaint. Trodd llawer yn Iuddewon pan oedd y byd yn gwenu arnynt, Eftb viii. 17. Pan fyddo crefydd mewn ardderchawgrwydd bydol aml fydd y fawl a wisco ei lifreu: cais llawer ymwisco a hi tra fyddo mewn ffasiwn, ac yn peri iddynt harddwch a chymmeriad ym mysc pobl: Ond pan fyddo'r byd yn ei herlid, a'r rhan fwyaf o d yunion yn ymwrthod a hi, ac yn ei mathru dan draed, bydd i'r Cristion cywir y pryd hynny ddilyn duwioldeb yn ofalus, ac yn hynny efe a ragora ar eraill, Tra bu Alexander yn swccro'r Juddewon, ymhonneu'r Samariaid eu bod hwythecu yn Juddewon hefyd. Ond wedi hynny pan ddarfu i Antiochus waedlyd erlid yr Juddewon yn filen, darfu i'r Samariaid wadu'r garennyydd oedd rhynghthynt, yna taerasant eu bod o genedl arall. Ond un grafol fel Joshua a deengys fwriad cryf i wasanaethu Duw er i eraill wrthod hynny. Fel Noah bydd wr perffaith yn

ei oes; er ei bod yn dra godinebus a ffiaidd, a rhodia gyda Duw, er bod pawb yn taro eu hyfgwyddau wrtho i'w daflu yn ol, ac i'w dynny i'r fuchedd lygredig y fyddo gyffredinol. Ac fel y tri phlentyn, yn hytrach y tri chedbyn, y rhai ni rufasant addoli Duw, a'i gyffessi, er maint ydoedd gwawd y lliaws, a bygythion y gwyr mawr i'w tynny at eulynod. Er i'r tywyfogion, dugiad, a phendefigion, rhaglawiaid, trysforwyr, cyfreithwyr, llywodraethwyr, y taleithiau, a'r holl bobloedd, a'r cenhedloedd, a'r ieithoedd syrthio ac addoli 'r ddelw, a bod ffwrn o dan poeth i dderbyn y fawl nis gwnai felly, etto y tri Ifsraeliaid ffyddlon a safasant yn erbyn y cwbl, gan wrthod y llygredigaeth yr ydoedd eraill yn ei chofleidio yn e. yllyscar, *Dan.* iii. 3, 7. 18. Safodd Athanasius gyda Christ pan oedd yr holl fydd agos yn ei erbyn, ac felly y gwnaeth Luther hefyd.

3. Cymer y gwir rasol y gofal mwyaf am yr hyn sydd allan o olwg dynol : Edrych at ei galon, ac yn hynny y bydd ei gyflawned ef yn rhagori ar un y Pharisæaid, y rhai a ofalent yn unig am wneuthur y tu allan yu lan; yn y dirgel y cais yr enaid ffyddlon gymundeb enwedigol a Duw. Ymeginiai Paul i gaew 'r tu fewn ym埋, a'i gydwybod yn ddidramgydd tuag at Dduw a dyn, *Act. xxiv.* 16. Ac astud y glynodd Job yn ei berfffeithrwydd, ac ni chae ei galon ei wradwyddo ef tra fyddai byw, Job xxvii. 6. Edrych hefyd at ei obaith am y bywyd arall, na frycho efe mo'i yscrifenadau am ei etifeddiaeth dragwyddol.

4. Bydd ddiccach wrtho ei hun am bechu, nag wrth neb arall, fel meddig chwilia friwiau, a chuddiau noethni eraill, ond galara am yr eiddo ei hun yn fwy, chwilia hwynt yn ddwysach, nid oes mor fath feddwn yn un rhagithiwr, yr hwn ny fynn weled y trawf y si lygad ei hun: Cerydда 'r gwir Gristion feiau rhai eraill yn addfwyn, a'i rai eu hun yn llym.

5. Ymroddiff y gwir rasol i ddioddef yn hytrach na i bechu

i bechu, pan gymeller ef i un o'r ddau. Felly y deur isodd Moses adfyd gyda phobl Dduw yn hytrach na mwyniant pechod. *Heb. xi. 25.* Ond yn y gwrthwyneb y rhagrithiwr a ddevis bechod o flaen cystydd. Tra fyddo llwyddiant bydol a'r efengyl yn myned ynghyd hyd yr un ffordd, gall dyn llygredig eu dilyn; ond pan ddekont at groesifordd ac iddynt ymadel a'i gilydd, yna y troiff ynteu ar ol yr hyn bydol, a gedi'r Efengyl o'i ol. Gwell ganddo 'r byd na'i ddyledfwydd Gomm-eddodd y Merthyr dan *Julian* roddi dimmeu tuag at denil eulun i achub ei fywyd. A phan geisiodd pendefigion gan *Eleazer* yr Archoffeiriad fwyta cig arall yn rhith cig moch, fel y gallent felly fwrw niwl yn llygaid *Antiochus*, dewisodd y gwr sanctaidd farwolaeth yn hytrach na llygru ei grefydd ag ymddangosiad o ddrwg. Pan fyddo Cristion mewn cystudd, a chynnig iddo warediad o's pecha, ac ynteu yn ei gwrthod, fel y gwnaeth y merthyron gynt, yn hynny y rhagora efe ar ragrithiwr, *Heb. xi. 35.* *Canmoliff* 'r Apostol y rhai a ddifydynnwyd heb dderbyn ymwared, fel y gallent hwy gal el adgyfodiad gwellt.

6. Ie daw'r gwir rasol i ddioddef colledion er mwyn Crist yn siriol, ac i orfoleddu dan y groes. Gwywa rhai discybllion pan ddel brwdaniaeth erlid, ond y rhai sydd a gwylith gras yn eu calonnau a dyfant, ac a orfoleddant mewn gorthrymderau er mwyn Crist, Rhuf. v. 3. A llawenychant eu cyfrif yn deilwng i ddioddef gwrnadwydd er mwyn ei enw. Canodd Paul a Silas farwl i Dduw yn y cyffion o fewn y tarchar, a'u cefneu yn ddolurus wedi eu fflangelu yn filen; yr ydoedd y Merthyron diweddaraf yn cofleidio 'r coed, ac yn cussanu'r strange, pan rwymid hwynt i'w llofsci yn fyw. Dywedodd *Philpot* fywiol am ei garchar, ei fod ef yn cael yno ddiddanwch nefol er bod y byd yn ei dybied yn usfern. Yn y pethau hyn y mae Cristianogion cywir yn dra godidog.

7. Xmgynnal y gwir rasol ar addewidion Duw pan fyddo

fyddo eraill yn rhoddi eu holl hyder ar eu meddiannau, ac yn cyfrif geiriau Duw yn wynt; ond yn addewidion Duw y mae etifeddiaeth y grafol, attynt y cyrchiff ym mhob llescedd, bydd ei obaith yn y gair, pan fyddo eraill a'u gobaith yn eu golud.

8. Y grafol a wada ac a gaethiwa ei gnawd, pan fyddo eraill yn ei fodhau. Da gan y llygredig gyflawni eu chwantau, ond gwell gan y grafol eu gorchfygu.

9. Bydd eu zel hefyd am ogoniant Duw, yn fwy nag am eu achosion eu hun. I'r ydoedd *Paul* mor addfwyn a'r oen yn goddef y cam a wneid iddo ef, i Cor. iv. 12. Ond cythryblyd ei yspryd pan welai dianrh-ydeddu Duw, *Act. xvii. 16*. Yr ydoedd *Moses* yn wr addfwyn, ond ennynnodd ei ddig wrth weled y llo

10. Bydd arswydus rhag gwneuthur y pechodau lleiaf, ond yn enwedig rhag gwneuthur y rhai mwyaf, os gochel rhagrithiwr bechodau amlwg preiffion, ni rusa ef y rhai man: Ac o's bydd gofalus am bethau bychain, efe a esceulusa bethau pwysfawr *Phariseaid a bidlent y gwybed, ac a lyngcent gamelod*, Matt. xxiii.

24. Ni fynnent i Grift iachau ar y Sabbath, nac i'r discyblion fwyta'r pen tywys pan oedd arnynt chwant bwyd, ac etto *llwyr fwytaent dai gwragedd gwedd-won*, Matt. xxiii. 14. Ni feithrina Cristion diffuant un anwiredd, gofidia, a thuchan, a gwaedda, ac ymdrecha yn erbyn ei wendid d. nol yn y pethau lleiaf, a bydd tra diwyd yn y dyledswyddau mwyaf eu p. ys, wrth ddegymu Cummin, nid esceulusa farn, a thrugaredd, a ffydd: Er gwybod traddodiadau dynion, gofcliff rhag troseddu gorchymynnion Duw, *Matt. xv. 2; & xxiii. 23*.

Ei zel mwyaf a fydd am y pethau fydd nesaf at galon crefydd.

11. Ceriff y sawl a'i argyoedd o febau; yn hyn y rhagorodd Dafydd ar *Ahab*, i Brenh. xxii. 8. *Psal. cxli. 5*.

12. Annela at ogoniant Duw ym mhob peth a wneilo,

10. Dbien fydd gan y rhagrithiwr yn gwneuthur pethau ysprydol, a diben dduwiol a fydd gan y gwir Gristion yn gwneuthur pethau bydol. Rhodia gyda Duw heb ymael, ac ni rydd weithiau dro byr gydag ef, ac yna dychwelyd yn hollawl at y byd, neu i'r pechod : Eithr yn y modd taeraf *cais deyrnas nef yn bennaf*, a'i galon a ddywed fel Dafydd, *un peth a ddeissais i gan yr Arglwydd, hynny a geisiaf*, Psal. xxvii.

13. Tra fo'r rhagrithiwr yn ceisio cyflog crefydd unig, ymhfyryda'r gwir Gristion yn y gwaith : A chyda Dafydd, *Dewis orchymynion Duw, a hynny yn tifeddiaeth iddo*, ac nid yn gaethiwed ; yn hyfrydwch, ac nid yn boen. Nid yw'n arfer dylëdswyddau ysprydol fel pysygwriaeth yn unig rhag cnofa cydwybod, ond fel ymborth jachus a melys.

14. Yr hwn fydd ganddo gywir ras a gais gyflawn ras. Eraill ni cheisiant ond prin digon i'w dwyn i'r nef, a goreu ganddynt pa lleiaf a wasanaetho i'w dwyn yno ; ond ymgyrhaedd diff y dyn pur am berfffeithrwydd o fanfeiddrwydd, *Phil. iii. 14.*

P E N N O D XI.

Yn cynwys y modd y cais gwir Gristion fodloni Duw.

C YN y gallo neb ryngu bodd Duw rhaid iddo geisio cymmod ag ef drwy Jesu Crist, Heb gymod nid all dau gydrodio yn heddychol. *Cusenwch mab*, Psal. ii. 12. Ac ymroddwch iddo, ac yna dilnwch y rheolau hyn.

1. Ymwrthodwch a phob pechod. Canys eich anwreddau sydd yn gwahanu rhwng Duw a chi; os bofai

hoffi bechod yn dy galon ni wrendy Daw arnati, Psal. lxvi. 18. Os ymhyfrydi mewn anghyfiawnder, nid ymhyfryda Duw ynoti, canys cas ganddo weithbredwyr an-wiredd. Os arbedi un Agag, nac Herodias, na'r llygad deheu, ni arbed Duw monoti; dywed wrth dy holl eulynod, ewch ymmaith.

2. *Gwisc am danat yr Arglwydd Jesu Crist.* Cafodd Enoch dystiolaeth iddo foeddau Duw, a thyftiolaethwyd yn fynychach mai yn Ngbrist y bodlonir Duw. Na thyr-ed at Dduw yng harpiau budron dy gyflawnder dy hun, onid a Christ yn dy freichiau. Cais y fendith yngwisc dy frawd hynaf, rhag iti gael melltith yn ei lle. Pe gellit ymolchi yn heli dy ddagrau, ni ddeleuit astendid pechod heb waed Crist. A chyda cyflawnhad cais ganddo sancteiddiad. Tra fydd ech yn y cnawd ni ellisyngu bodd Duw, Rhuf. viii. 8 Nes gwneuthur y pren yn dda, nid all ei ffrwyth fod yn beraidd, ac nes glanhau'r ffynnon ni all yr aber fod yn groyw. Yn enwedig ymarferwch a'r rhadau hyn; sef (1.) ymdrwsifwch oddisewn a gostyng-eiddrwydd, 1 Pet. v. 5. Rhaid gwasanaethu'r Arglwydd gyda phob gostyng-eiddrwydd, Act. xx. 19. (2.) Ag uniondeb calon, Gen. xvii. 1. Gweddi yr union fydd hoff ganddo, Dihar. xv. 8. A hoff ganddo ef y rhai fydd berffaith yn eu ffyrdd, Dihar. xi. 20. Nid ettyl yr Arglwydd ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn uniaawn, am hyn y cammolodd Duw Noah a Job.

3. Bydded ynoch yspryd zel a bywiogrwydd. Bod lonodd Duw yn ddirfawr i zel Phineas, Numeri. xv. 11, 12, 13. A throdd ei ddigofaint oddiwrth yr hol gynnulleidfa er ei fwyn. Ond y rhai fydd yn ddifatter ganddynt am ffyrdd Duw, fydd ddiflas ganddo: A cbwydiff allan o'i enau y rhai nid ydynt nac oer na brwd Datc. iii. 16. Y rhai a brynnodd Crist a fyddant aw yddus i weithredoedd da, Tit. ii. 14. Nid yn daio mewn diwydrwydd, ond yn wresog yn yr yspryd, yn gwa fanaeth i ab

sandethu yr Arglwydd, Rhuf. xii. 11. Act. xviii. 25 ;
ac xxvi. 6, 7.

4. Byddwch fyw drwy ffydd, ac onide nid ymfodlo-
na Duw ynoch : *Na syddwch o'r rhai sy yn tynny yn ol
i golledigaeth, namyn o ffydd i gadwedigaeth yr Enaid,*
Heb. x. 38, 39. Gwerthfawr yw ffydd yngolwg Duw,
Pet. i. 7 ; ac 2 Pet. i. 1. Heb ffydd amhosibl yw rh-
ngu bodd Duw, Heb. xi. 6. Rhuf. iv. 20. Ffydd y
Canwriad a barodd iddo gael canmoliaeth gan Crist,
Matt viii. 10. Ffydd y wraig o Ganaan a annogodd
Crist i'w chanmol, ac i ganiattau ei deisyfiad, Matt.
xv 28. Attebodd yr Iesu ac a ddywedodd wrthi, Ha-
wraig, mawr yw dyffydd : *Bydded iti fel yr awyt yn ewyll-*
iso. A'i merch a jachawyd o'r awr honno allan. Arf-
erwch ffydd i orchfygu profedigaethau'r byd, i Joan v:

4. Mewn llwyddiant cedwch y ddaiar dan eich traed,
a thrwy ffydd edrychwch ar dragwyddoldeb. Mewn
adfyd *wylwch megis pettech heb wylo*, gan edrych ar
Crist ; a dioddef y groes, a dirmygu gwradwydd, a'i
gymeryd yn glod i chwi, a chyffelybu'r byr yscas'n gyft-
udd a'r tragwyddol bwys o ogoniant, Heb. xii. 2, Act.
v. 41. 2 Cor. iv. 17. Rhuf. viii. 18.

5. *Ymdrwsiwch a chuddiedig ddyn y galon, mewn an-*
llygredigaeth yspryd addswyn a llon dd, yr hawn sydd ger
bron Duw yn werthfawr. i Pet. iii. 4. Ceisrwch de-
bygu i'ch Tad gan fod yn bwyrfrydig i ddig, ac yn rhw-
ydd i drugarhau, Psal. ciii. 8, 9. Ceisiwch add-
fwynder, ni thrig y glomen yn y galon ddigllon ; oen
yw Crist, na f dd di flaidd, a'r trugarog y gwna Duw
dyugaredd ond a'r cyndyn yr ymgyn dynna, Psal. xviii.
25, 26.

6. Gwedwch yr hunan ynoch. Bodlonwch Dduw yn
fwyaf, pan fodhaoch eich llygredigaethau leiaf. Bydd-
wch fodlon i ddarostyngiad fel y caffo Crist ei ddyledus
dderchafiad, Joan iii. 29, 30. Yn ddirfawr y gwad-
odd Abraham ei hun pan ufuddhaodd i orchymyn Duw
i aberthu ei fab, ei unig fab o Sara, ac aer yr add-

ewid, pan oedd ei fywyd ef, wedi ei rwymo ym miwyd y llangc, Gen. xxi. 15, 16, 17, 18. Rhyfeddol fu Moses yn gwrthod ei alw yn fab merch Pharao, gan dde-wis yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Dduw, na cbael mwyniant peched trös amser, Heb. xi. 24, 25. Ac mor rhyfeddol fu ei gymeriad ef gyda Duw, canys cafodd adnabod yr Arglwydd wyneb yn wyneb, Deut. xxxiv. 10. Fel y llefara gwr wrth ei g fail!, a chae ei wrando ym mhob deisyfiad, ac er ei fwyn arbedid y bobl, pan fy-ddei dialedd yn barod i syrthio arnynt: A phwy b nnag a ddywedai yn ei erbyn, cae ddw n ei anwiredd, Num. xii. 8, 9. A digofaint yr Arglwydd a ennynnas yn eu herbyn bwyni.

Wedi glanhau eich eneidiau fel y rhagddywedpwyd, edrychwrch at eich gweithredoedd ar eu bod wrth y rheolau a ganlyn: Sef

1. Bod gennych air Duw yn gorchymyn y peth a wneloch, ac na byddoch yn dilyn dychymygion eich calonnau eich hunain, Num. xv. 39. Eithr bod Duw yn gofyn ac yn ceisio ar eich llaw chwi, yr hyn yr ydych yn myned yn ei gylch, Esay i. 12.

2. Bod eich amcan ar ogoneddu Dnw yn y pethau a wneloch. Eifieu cywir ddiben pechodd y Pharisæaid, a Jeħu wrth wneuthur y pethau oedd orchymnedig.

3. Bod eich gweithredoedd yn deilliaw oddi wrth wir radau ynoch: Megis ffydd, ni thal gweddi ddim heb-ddi, Jag. i. 6, 7. A chariad, rhoddem ein da i'r tlosion, a'n cyrph i'r tan heb gariad, ni lesau i ni. Lle byddo caeth ofn, neu bigiad cydw bod, neu wag ogoniant yn gosod pobl ar ryw orchwylion, ni byddant gymeradwy gan Dduw. Bydded ynoch ofn duwiol a pharch i enw Duw, ac ystyriaeth pwyllog o'i bresennoldeb ef, ac y dylem fwriadu gogoniant Duw yn ein holl orchwylion ysprydol a bydol, gan wasanaethu'r Arglwydd Crist ynddynt, Col. iii. 24. Y mae'r grafol yn gwasanaethu Duw drwy ei lafur ar ddyddiau gwaith,

gwaith, gydag ar orphwysfa'r Sabbath. Nid oes un
blant Duw yn byw iddo ei hun, Rhuf. xiv. 7. Eich
dyledswydd yw ceisio dyscu ar y Sabbath, pa fodd i
wasanaethu Duw drwy'r wythnos. *Teilwng yw'r
Arglwydd i dderbyn gogoniant ac anrhydedd, canys efe a
greawdd bob peth, ac o herwydd ei cwyllys ef y maen,*
ac i crewyd hwynt, Datec. iv. 11.

Mawr yw'r cyffur i'r rhai a ymeginant i fodloni
Duw, canys byddant anwyl ganddo ef, a gwaes fydd
i'r neb a'i niweidio, *gwel fydd ei iddo pe rhoddid maen
melin o amgylch ei wddf ef, a'i daftu i'r mor, nag iddo
rwystro un o'r olyfrwyr*, Luc. xvii. 2. Y neb a wnel gam
a Sainct Duw a friwant *ganwyll ei lygad ef*, Zech. ii.
8. Y neb a gyffyrddo a hwynt ni bydd dieuog; ni
edu i neb eu gorthrymmu yn rhad, *cer ddiff frenhin-
edd o'u plegid, gan ddywedyd, na chyffyrddwch a'm rbas
enneiniog, ac na ddrygwch f. mhwrophwydi*, Psal. cv. 14.
15. A bendithia y fawl a'u bendithiant, Gen. xii. 3.
Eithr dial ar yr annuwiol am bob gair caled a ddywed-
ont yn eu herblyn, Jude 15. O ddarlenydd, oni well
mai *dedwydd wr bobl y mae felly iddynt*, y mae Duw
mor dyner tuag attynt, a chyfrif y caredigrwydd a
wneler iddynt hwy, megis pe gwnelid iddo ei hun,
Matt. xxv. 40, 45. A phob cam a wnclir iddynt hwy,
megis pe gwneid iddo ef, Act. ix. 4. A chaiff y rhai
a fodlonent Dduw ddiddanwch dragwyddol oddiwrth
eu hufudd-dod amserol. Y rhagrithwyr a geisiant eu
bodloni eu hunain, a dynion eraill, a dderbyniant eu
gwobr yma, ond nid yw ond gwael, *Matt. vi. 5.*
cant dippyn yn yr amser presennol, ond ni chant ddim
yn dragwydd. Doethineb pobl Dduw yw mudo 'n
pethau fydd ganddynt o'u blaen i'r nefoedd, lle cant
breswyllo byth. Nid oes i neb ond cymmeriad byr ar
ei drigfa yn y byd hwn, am hynny goreu i bob un ade-
iliadu a phlannu ar yr etifeddiaeth dragwyddol, lle ca-
iff breswyllo yn oes oefoedd. Yr hyn a hauo'r Sainct
Yr yfryd yma, hwy yn ol hyn a fedant o hono fywyd

tragwyddol ; wrth ryngu bodd Duw yma y maent yn tryflori iddynt eu hunain drysor yn y nefoedd, a hynny wrth bob daioni a wnelont beunydd, ni bydd un boen yn ofer a gymeront yngwaith Duw, i Cor. xv. 58, na chymaint a chwpaned o ddwfr oer a estynnont i ddiscybl Crist heb wobr bythol. Difudd i'r annuwiol a fydd y pethau a wnant wrth ewyllys eu cnawd, os cant edifeirwch a maddeuant am danynt, ni chant mor gwobr o'u herwydd, ac onid edifarhant cant ddialedd anoddefadwy, am nad yw gymwys i'r llestr fod heb wa-llanaethu'r crochenydd, nac i'r hwn a gaffo ei luniaeth a'i fod gan ei Arglwydd, wrthod ufuddhau iddo. Y mae Duw yn ysgrifennu yn ei lyfr beth a wnelo rhai beunydd ; ni bydd cyflog dda wedi ei roddi ar lawr yno wrth enw uš dyn, ond am y peth a wnelo i ogoniant Duw. A hynny a bar i bechaduriaid ddywedyd pan ddel amser cyfrif, er i ni boeni ar hyd y nos ni ddaliason ni ddaim, Luc. v. 5. Fel plant man, er iddynt fod yn bryffur arwy'r dydd, etto ni wnant ond oferedd.

Ym mhellach rhaid i'r fawl a fynnont fodloni Duw ystyried fod ei orchymyn ef yn dra ehang, Pjal. cxix. 96. A dyledswyddau cariad yn llydain, ac yn aml. Am hynny tra gwnelom un peth, 'mogelwn esfeuluso'r llall. Tra'r edrychom attom ein hunain, nac esfeuluswn ein teuluoedd a'n cymmydogion. Gan geryddu terydda dy gymmydog, ac na dioddef bechod ynddo, Lefit. xix. 17. Os bydd ychi neu assyn cymmydog ynglyn mewn fuglen ym mron trigo, ni a geisiwn eu tynnu allan, ac a esgeuluswn ni ei Enaid ef ? Perthyn yr yscrythyr honno i bob dyn grafol yn Dihar. xi. 30. Ffrwyth y cyfaawn sydd megis pren y bywyd, a'r neb a ennillio eneidiau sydd ddoeth. Gwnewch eich goreu i ennill eich cymmydog, gan wneuthur iddo gymmwynas bydol fel y derbynio yn rhwyddach eich caredigrwydd ysprydol. O na bae'r naill gymmydog yn galw'r llall i fyned ynghyd at addoliad Duw, ac at bob daioni, gan

fed

fod yn un fryd, yn caru fel brodyr, yu drugarogion, yr fwyndaid, i Pet. iii. 8. Y mae 'n crefydd yn gofyn gennym feddwl am y pethau sydd harwddgar, a chanmol-adwy, ac a fyddo debygol i enill pobl at Jesu Crist.

Hefyd rhaid i ni ofalu am wneuthur pob dyleds-wydd mewn iawn drefn a thymnor, fel na byddo i'n achosion bydol rwystro v rhai ysprydol, nac in crefydd rwystro ein crefft. Yr iawn drefn yw i ni ddechreu daioni gartref; yr hwn wyt yn addyscu arall oni 'th ddyscu dy hun? Rhuf. ii. 21. Creffwch ar drefn yr Arglwydd, Deut. vi. 6. Bydded y geiriau hyn yr ydwyf yn eu gorchymyn iti heddyw, yn dy galon (dyna'r peth cyntaf, a chwedi i ni ein hunain ddyscu'r wers ym dda; yna y mae'n rhaid ini ei chyfrannu i eraill) adn. vii. Ac hyspyffa hwynt i' th plant, a chrybwyl am danyne pan eisteddych yn dy dy, &c. Ac wrth argoeddi'r drwg, yn gyntaf tyn y trawft allan o' th lygad dy hun, Matt. vii. 5. Bwriwn y garreg gyntaf attom ein hunain, o's ydym yn euog o'r un pechod ac yr ydwm i'w labyddio mewn arall. Na fydd fammaeth i' th lygredigaeth dy hun, tra fych feddyg llwm i lygredigaethau rhai eraill. Glanhayn gyntaf yr hyn sydd oddifewn i'r cwppan, Matt. xxiii. 26. Ac fel y mae i ni ddechreu gartref, felly gyda Duw yn enwedig. Bob boreu gad i Dduw gael blaenffrwyth dy feddyliau a' th ddymuniadau. Digiodd Duw wrth yr offeiriad a fynnent eu rhan o'r aberthau o'i flaen ef, i Sam. ii. 15, 16. Da yw'r cyngor a rydd un, ar i ni y boreu gatw dews y galon yn gaead yn erbyn y byd, nes iddi yn gyntaf dderbyn gras a nerth o'r nef i wrthsefyll y profedigaethau a drawo arnom pan elon at ein pethau bydol. Cyn y dyd i yn blyg-einol iawn yr aeth Crist i le anghyfannedd, ac yno y gweddiodd, Marc. i. 35. C'mer afel ar yr achlysur wrth y cudyn blaenaf, a dechreu bob gorchwyl, fel y mae rhai yn dechreu eu hewyllys pan font glaf, yn Enw Duw. Rhaid i bawb a fodlonant Dduw gymeryd gofal

ar ddilys rheolau ei air ef yn y pethau a wnelont, yn enwedig y pethau perth nol i addoliad, *Heb cbwanegn at y gorchymyn na thynnw oddiwrtho*, Deut. xii. 32. na addola Dduw yn modd ni orchymynodd, ac ni seddyliodd ei galen, Jer. vii. 31. Ac mewn pethau b, dol rhaid i ni edrych ar eu bod yn gyfreithlon ac yn oneif eu defnydd, a'n dibenion ninnau ar ogoneddu Duw drwyddynt, a llesbau eín brodyr ac nid eu ni eidio, 1 Cor. x. 31 Rhuf. xiv. 2. Ond os byddwn yn gosod ein budd eín hunain uwchlau gogoniant Duw, byddwn eulunaddolwyr, a chollwn y gwobr bythol am y pethau a wnelom, pa un bynnag fyddont ai crefyddol ai bydol, Matt. vi. 5; ac xxiii, 5. A pha ddaioni bynnag a gyflawnech dod i Duw gogoniant a iolch am ei ras, a'th nerthodd i'w gyflawni, a dywed fel Paul, 1 Cor xv, 10. *Nid myni ond gras Duw yr hwn oedd gyda mi.* O's fel hyn y byddi yn ymarferua duwioldeb, 1 Tim. iv. 7, ac yn ofni yr Arglwydd ar hyd y dydd, Dibar. xxii. 17. Cei eled nad y 'r cyfryw fuchedd gaethiwed ond rhydd-did a hyfrydwch, ac ni flini arni. *Rhodi-odd Enoch gyda Duw dri chant o flynyddoedd*, ac ni flinodd, Gen. v. 22. Cafodd y prif Gristianogion ynddi lawen dd anrhaethadwy a gogoneddus, a thangneddyf y sydd uwchlau pob deall.

Yn awr ddarllenwydd ymroddi i wasanaethu Du, y mae efe yn Arglwydd hawdd rhyngu ei fod: O's dy galon a ewyllysia wneuthur iddo anrhyydedd, cymmer hynny yn dda, er nas gallych ei gyflawni, maddeuiff y gwendid, gwobrwyiff yr ewyllys da, 2 Crop vi. 8. Dywedodd yr Arglwydd wrth Dafydd, o herwydd bod yn dy fryd di adetladu ty i m henw i, da y gwnaethost fod hynny yn d galon. Y mae efe wedi yscrefennu ger dy fro'n beth a'i bodlona, ac nid oes dim anrhesymol ym mysc y pethau a ofyn ef, dewis ditheu fel y rhai gynt, yr hyn a ewyllysto ef, Efay lvi. 4, 5. a rhydd its enw trwyddol yr hwn ni thorrir ymaith. Gosododd ynoti weol uniawn i'th gyfarwyddo yn dy achosion tuag at ddynion.

ddynion sef, ar iti wneuthur a hwyrn?, fel y mynnit llidd nt hwthau wneuthur a thi yn y cyfryw achlyssur, ac oni weli hynny yn gymwys ac yn weddol? Ac fel y mae yn rhoddi cyfarwyddyd, felly hefyd y mae efe yn rhoddi help i'r credadyn i wneuthur yr hyn sydd fodlon ganddo ef. Rhydd iddynt y spryd Crist, i Cor. ii 12. yr hwn a gynnorthwya eu gwendiâ fel y bydd iddynt dywallt gweddi a gwneuthur dyledswyddau eraill wrth ei fold, Rhuf. viii. 26.

Dirfawr hefyd fydd y budd a gei di wrth rodio yn ddiargoedd ger bron Duw, fel y rhagfynegwyd, canys cei felly siccrwydd o jechydwriaeth, arwydd amlwg o blentyn Duw yw bod brwd ei galon wedi ei gosod ar ogoneddu'r Goruchaf, a rhyngu ei fod, ac ei fod yn brofedig yn ei olwg ef. A by dwch siwr o'i bresennoldeb cariadus ef gyda chwi ym mhob man. Medd Crist ni adaodd y Tad fi'n unig oblegid yr wyfi yn gwneuthur bob amser y pethau fodd fodlon ganddo ef. Joan viii 29. A'th wobr n̄ nefoedd a fydd fwy nag a all dy lygad marwol ei ganfod, na'th galon ei ddeall y pryd hyn: amlhaed dy ffrwyth erbyn dy gyfrif yno, fel y dangoser y pryd hynny dy weithredoedd da, megis ac y dangosodd y gwragedd gweddwon y gwiscœedd a wnaethai Dorcas, Act. ix. 39.

PENNOD XII.

Yn cynwys ychwaneg o Gyngorion i Grifianogion.

CYMMERED pob un ofal am gael yn ei enaid yr elw graso! y sydd mewn uvioldeb, fel o'r digwydd iddo ddioddef cystudd a cholled fyddol am broffesi Cristianogaeth, nad elo ei lafur yn ofen, eithro

eithir bod ennill ei enaid yn fwy na cholled ei gorff.

2. Gwneled ddefnydd o bob trugaredd, nid i fod lonïr cawd yn unig, ond i amlygu gogoniant Duw, ac i hyfforddi ei jechydwríaeth dragwyddol. Ni les a 'r byd i neb heb gariad a bendith Deuwaro. Nid yw 'r llythyren gron ar ei phen ei hun yn arwyddocau dim mewn rhifyddiaeth, ond pan gyffylter hi wrth lythr-ennau cyfrifol eraill, hi a chwanega 'r fwmm yn ddirf-awr : Ac felly y gwna trugareddau bydol pan fyddont gyffyltedig a rhai efangylol ; megis pan fydd golud ynghyd a gras yn cynorthwyo Cristion i wneuthur da, ac i wasanaethu'r Arglwydd a diwydrwydd, ac a chalon siriol, am helaethrwydd pob peth.

3. Na orphywyswch mewn rhwv obaith yscafn am y nef, ymeginwch i geisio siccrwydd o honi, yn ol cyngor yr Apostol, a ddywed, *byddwch ddiwyd i wneuthur eich galwedigaeth, ach etholedigaeth yn siccr*, 2 Pet. i. 10. Y mae prawf y faint yn dangos y gellir cael y fath hyder cryf, canys cywedant, *nyni wyddom ddarfod ein sammud o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru y bradyr*, i Joan iii. 14. Ac y mae gallu yn yr Enaid i'w holi ei hun, canys yspryd dyn yr hwn fydd yn iddo es a'edwyn bethau dyn, i Cor. ii. 11. Anwadal yw 'n meddiannau bydol ni, ac o's gorfydd i ni ymadel a phob peth er mwyn Crist, a bod heb siccrwydd o hono yntef hefyd, onid os nadwy a fydd ein cyflwr ? ac o's ymfodlona dyn i fod yn ammheus yngylch yr etifeddiaeth nefol, mae 'n dangos ei fod yn ddifatter am dani. Oeisiwn allu dywedyd mewn gwirionedd y gwyddom os ein dairol dy o'r babell hon a datodir, fod i ni adeilad gan Duw, sef ty, nid o waith llaw, tragwyddol yn y nesfoedd, 2 Cor. v. 1.

4. Cymerwch ofal am fod gwir ras ynoch, ac ar iddo gynnyddu hefyd ; pwy bynnag fydd a chywyr ras ynddo, a gais ei berfeithio. Y mae plant Duw yn tysi-fu wrth borthiant efangylol, ac ni fyddant gorri-aid.

5. Na wrthodwch ddioddef erlid er mwyn Crist pan welo Duw yn dda ei anfon. Canys dyna'r amser i chwi ddangos gwir ferch a ffyddlondeb iddo ef.

6. Ymroddwch i Dduw, ac hyderwch ar yr addewidion daionus y mae efe yn eu cyflawni i'r sawl a ufuddhant iddo. Canys addef fod *iddynt yn Dad, ac y cant hwytheu fod iddo ef yn feibion ac yn ferched,* i Cor. vi. 8. Trefnai iddynt luniaeth, a gwiscoedd, Matt. vi. 26 -----32. A phan fo'r achos yn gofyn cerydda hwynt mewn mesur a thrugaredd, Deut. viii. 5. Bydd iddynt yn Arglwydd ac yn Frenin. O's dynion a wna gam a hwynt, efe a farna eu hachos, ac a ddeffin eu cyflawnader: Er i ddynion a'u cyhuddo ar gam, efe a'u cyflawnha hwy. Efe a fydd hefyd yn fugail i'w ddefaid, efe a'u portha, ac ni ollwng monynt ar gyfeiliorn. Addewiff yr Arglwydd fod yn Dduw i'w bobl, Gen. xvii. 7. A rhoddi iei Fab iddynt yn gysammod ac yn oleuni, Esay xlvi. 6; ac ix. 6. A'i yspryd i fod iddynt yn Ddiddanydd, Joan xiv. 16. A chydnebydd y ffyddloniad iddynt eu dderbyn, i Cor. ii. 12. Nyni a dderbyniaseom yr Yspryd sydd o Ddnw. Maddeuiff Duw eu perchodau i'r edifeiriol, Heb. viii. 10, 12. Trugarog fydd wrth eu hangyflawnaderau, a'u perchodau, &c. Addewiff eu gwaredu oddiwrth eu holl elynion. Gorfydd i blant Duw ymdrechu, er hynny caint y goreu. Gorchfygant farwolaeth a'u holl elynion eraill, i Cor. iii. 22; ac xv. 54. Sathrant ar Satan, Rhuf. xvi. 20. Diangant rhag usfern, nad oes ddammedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Jesu, Rhuf. viii. 1. Ni chaiff pechod arglwydoliaethu arwynt, Rhuf. vi. 13, 14.

Addawodd yr Arglwydd gynnorthwyo eu blant ym mhob cyflwr. Yn yr anialwch efe a ddywed wrth fod eu calonnau, Hos. ii. 14. A bydd gyda hwynt

hwynt yn y tan a'r dwfr, Efay xlivi. 2. Bydd y
nerth i'r tlawd, a chadernid i'r anghenog yn ei gyfyngder,
yn nodded rhag temhestl, yn gyscol rhag gwres, pan fo
gwynt y cedyrn fel temhestl yn erbyn mur, Efay xxv.
4. Hefyd addewiff ofalu dros ei bobl, i Pet. v. 7.
Rhod i ff ymborth i'r rhai a'i hofnant ef, Psal. cxii. 5.
Am hynny gan fod gennym yr aduewi ion hyn ymlanh-
awn odriwrth bob halorwydd cnawd ac Yspryd, gan
berfffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw, 2 Cor. vii. 1.



T E R F Y N.

